



GfK NOP

GfK. Growth from Knowledge



Opsiynau dysgu i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru

**Adroddiad ymchwil
i'r Adran Plant, Addysg,
Dysgu Gydol Oes a
Sgiliau**

Darparwyd gan: Ymchwil Gymdeithasol GfK
NOP

Eich enwau cyswllt: Claire Ivins, Josephine
Hansom

Ffôn: +44 (0)20 7890 9000

Ffacs: +44 (0)20 7890 9589

e-bost: claire.ivins@gfk.com;
josephine.hansom@gfk.com

Tabl cynnwys

1	Crynodeb Gweithredol	1
1.1	Cefndir ac amcanion yr ymchwil	1
1.2	Ymchwil ansoddol archwiliadol	1
1.3	Ymchwil feintiol ymhlith pobl ifanc 14-19 oed a rhieni	2
1.4	Darparwyr dysgu	4
2	Cyflwyniad	7
2.1	Cefndir	7
2.2	Amcanion yr Ymchwil.....	8
2.3	Trosolwg o'r rhaglen ymchwil.....	10
2.4	Strwythur yr adroddiad	11
3	Ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o ran yr opsiynau i bobl ifanc 14-19 oed	12
3.1	Gwybodaeth am y cymwysterau a oedd ar gael	12
3.2	Agweddau tuag at gymwysterau	14
3.3	Bodddhad â'r amrywiaeth o gymwysterau	19
3.4	Crynodeb	21
4	Darpariaeth Gymraeg a'r cyfleoedd.....	23
4.1	Siaradwyr Cymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg .	23
4.2	Pwysigrwydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a bodddhad â chyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	26
4.3	Crynodeb	28
5	Ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth a nodweddion y dysgu sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed	29
5.1	Ymwybyddiaeth o ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth .	29
5.2	Ymwybyddiaeth o nodweddion newydd darpariaeth ddysgu	31
5.3	Ymwybyddiaeth o dermau addysg a hyfforddiant ar ôl rhoi diffiniadau.....	33
5.4	Mwy o ddewis a hyblygrwydd.....	37

5.5	Y craidd dysgu	38
5.6	Yr anogwr dysgu	39
5.7	Cymorth personol	42
5.8	Cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd	42
5.9	Crynodeb	44
6	Dyheadau.....	49
6.1	Pwysigrwydd dyheadau	49
6.2	Sut y bydd y ddarpariaeth well yn effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru	52
6.3	Crynodeb	55
7	Darparwyr dysgu.....	56
7.1	Cyd-destun Llwybrau Dysgu ac agweddau tuag atynt	56
7.2	Llwybrau Dysgu Unigol	59
7.3	Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd.....	62
7.4	Craidd Dysgu	65
7.5	Anogwyr Dysgu.....	68
7.6	Cymorth Personol	75
7.7	Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd	77
7.8	Pwysigrwydd dyheadau	80
7.9	Effeithiau'r ddarpariaeth well i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru.....	81
7.10	Crynodeb	82
8	Casgliadau a goblygiadau polisi	86
9	Atodiad Technegol.....	89
9.1	Methodoleg yr arolwg meintiol - pobl ifanc a rhieni	89
9.2	Methodoleg yr arolwg meintiol - darparwyr	89
Atodiad 1	Ymchwil ansoddol	90
9.3	Amcanion ymchwil ansoddol.....	90
9.4	Dull o Weithredu a'r Gynulleidfa	90
9.5	Ymwybyddiaeth.....	91
9.6	Nodweddion ychwanegol Llwybrau Dysgu 14-19.....	95
9.7	Goblygiadau o ran ymchwil feintiol	97

Atodiad 2	Sylwadau gan Ddarparwyr	100
Atodiad 3	Holiadur i rieni a phobl ifanc.....	107
Atodiad 3	Holiadur i ddarparwyr.....	134
Atodiad o dablau.....		155

Tabl tablau

Tabl 1:	Diffiniadau o'r termau addysg a hyfforddiant a roddwyd i ymatebwyr.....	34
Tabl 2:	Disgwyliadau o ran effaith Llwybrau Dysgu Unigol.....	62
Tabl 3:	Disgwyliadau o ran effaith Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd.....	65
Tabl 4:	Disgwyliadau o ran effaith y Craidd Dysgu	67
Tabl 5:	Effeithiau cyflwyno Anogwyr Dysgu	70
Tabl 6:	Effeithiau disgwyliedig cyflwyno Anogwyr Dysgu.....	73
Tabl 7:	Yr help a ddisgwyliwyd gan Anogwyr Dysgu	75
Tabl 8:	Effaith ddisgwyliedig cyflwyno Cymorth Personol.....	77
Tabl 9:	Effaith ddisgwyliedig cyflwyno Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd	80
Tabl 10:	Gwybodaeth am gymwysterau yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc	155
Tabl 11:	Gwybodaeth am gymwysterau yn ôl cyfnod addysgol - pobl ifanc	156
Tabl 12:	Gwybodaeth am gymwysterau yn ôl rhyw ac oedran y plentyn - rhieni.....	156
Tabl 13:	Gwybodaeth am gymwysterau yn ôl cyfnod addysgol plentyn - rhieni.....	157
Tabl 14:	Bodddhad ag amrywiaeth o gymwysterau yn ôl cyfnod addysgol - pobl ifanc.....	157
Tabl 15:	Bodddhad ag amrywiaeth o gymwysterau yn ôl rhyw ac oedran y plentyn - rhieni	158
Tabl 16:	Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant yn ôl rhyw ac oedran - rhieni .	158
Tabl 17:	Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant yn ôl cyfnod addysgol - rhieni	159
Tabl 18:	Canfyddiad o gymwysterau yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc	160
Tabl 19:	Canfyddiadau o'r opsiynau a oedd ar gael yn ôl	

	cyfnod addysgol - pobl ifanc.....	161
Tabl 20:	Canfyddiad o'r opsiynau a oedd ar gael yn ôl rhyw ac oedran y plentyn - rhieni.....	162
Tabl 21:	Canfyddiadau o'r opsiynau a oedd ar gael yn ôl cyfnod addysgol.....	163
Tabl 22:	Bodddhad ag amrywiaeth o gymwysterau yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc.....	164
Tabl 23:	Bodddhad ag amrywiaeth o gymwysterau yn ôl cyfnod addysgol - pobl ifanc.....	164
Tabl 24:	Bodddhad ag amrywiaeth o gymwysterau yn ôl rhyw ac oedran y plentyn - rhieni	165
Tabl 25:	Bodddhad ag amrywiaeth o gymwysterau yn ôl cyfnod addysgol - rhieni	165
Tabl 26:	Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc.....	166
Tabl 27:	Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant yn ôl cyfnod addysgol - pobl ifanc.....	166
Tabl 28:	Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant yn ôl rhyw ac oedran - rhieni.....	167
Tabl 29:	Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant yn ôl cyfnod addysgol - rhieni.....	167
Tabl 30:	Ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc.	168
Tabl 31:	Ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ôl cyfnod addysgol - pobl ifanc	169
Tabl 32:	Ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ôl rhyw ac oedran y plentyn - rhieni	170
Tabl 33:	Ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ôl cyfnod addysgol y plentyn - rhieni	171
Tabl 34:	Ymwybyddiaeth o agweddau ar ddysgu yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc	172
Tabl 35:	Ymwybyddiaeth o agweddau ar ddysgu yn ôl cyfnod addysgol - pobl ifanc.....	172
Tabl 36:	Ymwybyddiaeth o agweddau ar ddysgu - rhieni	173
Tabl 37:	Ymwybyddiaeth o agweddau ar ddysgu yn ôl	

	cyfnod addysgol - rhieni.....	173
Tabl 38:	Boddhad â mwy o ddewis a hyblygrwydd yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc.....	174
Tabl 39:	Boddhad â'r craidd dysgu yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc.....	174
Tabl 40:	Boddhad â'r anogwr dysgu yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc.....	175
Tabl 41:	Boddhad â chyingor ac arweiniad ar yrfaedd yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc.....	175
Tabl 42:	Boddhad â chyingor ac arweiniad ar yrfaedd yn ôl rhyw ac oedran y plentyn - rhieni	176
Tabl 43:	Pwysigrwydd dyheadau yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc.....	177
Tabl 44:	Pwysigrwydd dyheadau yn ôl cyfnod addysgol - pobl ifanc.....	178
Tabl 45:	Pwysigrwydd dyheadau yn ôl rhyw ac oedran y plentyn - rhieni	179
Tabl 46:	Pwysigrwydd dyheadau yn ôl cyfnod addysgol - rhieni.....	180
Tabl 47:	Y graddau y bydd darpariaeth well yn effeithio ar bobl ifanc yn ôl rhyw ac oedran - pobl ifanc.....	181
Tabl 48:	Y graddau y bydd darpariaeth well yn effeithio ar bobl ifanc yn ôl cyfnod addysgol - pobl ifanc.....	182
Tabl 49:	Y graddau y bydd darpariaeth well yn effeithio ar bobl ifanc yn ôl rhyw ac oedran y plentyn - rhieni	183
Tabl 50:	Y graddau y bydd darpariaeth well yn effeithio ar bobl ifanc yn ôl cyfnod addysgol - rhieni.....	184

Tabl siartiau

Siart 1:	Gwybodaeth am y cymwysterau a oedd ar gael - pobl ifanc 14-19 oed	12
Siart 2:	Gwybodaeth am y cymwysterau a oedd ar gael - Rhieni.....	13
Siart 3:	Agweddau tuag at gymwysterau - pobl ifanc a rhieni .	16
Siart 4:	Boddhad â'r amrywiaeth o gymwysterau a oedd ar gael - pobl ifanc a rhieni	20
Siart 5:	Cyfran y siaradwyr Cymraeg sydd wedi cael addysg	

	drwy gyfrwng y Gymraeg - pobl ifanc 14-19 oed	23
Siart 6:	Cyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg mewn addysg - pobl ifanc 14-19 oed.....	24
Siart 7:	Plentyn yn siarad Cymraeg	25
Siart 8:	Plentyn wedi cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ...	25
Siart 9:	Pwysigrwydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg - pobl ifanc 14-19 oed	26
Siart 10:	Boddhad â chyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal leol	27
Siart 11:	Ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth - pobl ifanc 14-19 oed.....	30
Siart 12:	Ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth - Rhieni	31
Siart 13:	Ymwybyddiaeth o dermau addysg a hyfforddiant - pobl ifanc a rhieni	32
Siart 14:	A oeddent yn gyfarwydd â nodweddion y ddarpariaeth i bobl ifanc 14-19 oed ar ôl rhoi diffiniadau	35
Siart 15:	Boddhad â'r llwybr dysgu unigol - pobl ifanc a rhieni.	36
Siart 16:	Boddhad â mwy o ddewis a hyblygrwydd - pobl ifanc	38
Siart 17:	Boddhad â'r craidd dysgu - pobl ifanc a rhieni	39
Siart 18:	Y mathau o help a gafwyd gan yr anogwr dysgu - pobl ifanc	40
Siart 19:	Boddhad â'r anogwr dysgu - pobl ifanc a rhieni	41
Siart 20:	Y mathau o help a gafodd y plentyn gan yr anogwr dysgu - Rhieni	42
Siart 21:	Boddhad â chynghor ac arweiniad ar yrfaedd - rhieni	44
Siart 22:	Ymwybyddiaeth o nodweddion darpariaeth ddysgu cyn ac ar ôl darllen diffiniad allan a chyfran yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol bod ganddynt bob nodwedd - pobl ifanc.....	46
Siart 23:	Ymwybyddiaeth o nodweddion darpariaeth ddysgu cyn ac ar ôl darllen diffiniad allan a chyfran yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol bod gan eu plentyn bob nodwedd - rhieni	47
Siart 24:	Boddhad â nodweddion darpariaeth ddysgu - pobl ifanc a rhieni	48



Siart 25:	Pwysigrwydd dyheadau - pobl ifanc	50
Siart 26:	Pwysigrwydd dyheadau - rhieni	52
Siart 27:	Effeithiau nodweddion newydd darpariaeth ddysgu pobl ifanc 14-19 oed - pobl ifanc	53
Siart 28:	Effeithiau nodweddion newydd darpariaeth ddysgu pobl ifanc 14-19 oed - rhieni.....	55
Siart 29:	Newidiadau i ddarpariaeth ddysgu pobl ifanc 14-19 oed dros y ddwy flynedd diwethaf.....	56
Siart 30:	A fydd Llwybrau Dysgu yn gwella opsiynau i bobl ifanc 14-19 oed?	57
Siart 31:	Sut y bydd Llwybrau Dysgu yn gweddu i'r opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed o fewn sefydliadau darparwyr	58
Siart 32:	Natur effaith Llwybrau Dysgu ar ysgol neu goleg ac ar fyfyrwyr	59
Siart 33:	Cyflwyno Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd	63
Siart 34:	Wedi pennu anogwyr dysgu eto	71
Siart 35:	Wedi dechrau cyflwyno Cymorth Personol	75
Siart 36:	Wedi dechrau rhoi Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd ar waith	78
Siart 37:	Pwysigrwydd dyheadau	81
Siart 38:	Effeithiau'r ddarpariaeth well i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru (datganiadau cytuno/anghytuno)....	82

1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Cefndir ac amcanion yr ymchwil

Mae'r newidiadau ym maes cyfleoedd addysgol i bobl ifanc 14-19 oed yn ei gwneud yn hanfodol sicrhau bod proses gwneud penderfyniadau pobl ifanc yn hyddysg ac yn ddibynnol ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd ar gael iddynt a'r canlyniadau, o ran y cyfleoedd a'r llwybrau tebygol, o ddewis cyflawni gweithgareddau addysgol neu hyfforddiant penodol. Mae felly'n bwysig i'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (yr Adran o hyn ymlaen) fod gan bobl ifanc a'u rhieni wybodaeth gadarn ar bob cam o'r cyfnod 14-19.

Nod yr astudiaeth hon oedd ystyried canfyddiadau pobl ifanc, rhieni a Chynrychiolwyr Rhwydwaith o ran polisi Llwybrau Dysgu (rhan o Gynllun Gweithredu 14-19 2006-2010) Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n anelu at drawsnewid y cyfleoedd addysg a hyfforddiant sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed). Yn ogystal â llywio proses llunio polisiâu'r Adran, y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru, y bwriad arall oedd darparu ffigur sylfaenol a fyddai'n sicrhau y gellid mesur cynnydd yn y dyfodol yn erbyn y Cynllun Gweithredu.

Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar y graddau yr oedd y rhanddeiliaid hyn yn ymwybodol o elfennau'r Llwybrau Dysgu ac yn eu deall, ynghyd â'u hagweddau tuag atynt. Er mwyn cyflawni hyn, defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol. I gychwyn, cynhaliwyd grwpiau ffocws o bobl ifanc a rhieni, ynghyd â chyfweliadau manwl â sampl bach o Gynrychiolwyr Rhwydwaith ledled Cymru. Rhoddodd y cam hwn gipolwg ar ganfyddiadau'r ymatebwyr, o ran y prif feysydd pwnc, a'r derminoleg roeddent yn gyfarwydd â hi. Fel y cyfryw, llwyddodd i lywio'r broses o gynllunio'r holiaduron ar gyfer yr arolwg meintiol.

1.2 Ymchwil ansoddol archwiliadol

Ar y cam ansoddol, cynhaliwyd cyfanswm o naw grŵp ffocws gyda phobl ifanc a chwech gyda rhieni, tra cynhaliwyd chwe chyfweliad manwl gyda Chynrychiolwyr Rhwydwaith.

Y chwe elfen o Lwybrau Dysgu 14-19 y Cynllun Gweithredu yw: i) Llwybrau Dysgu Unigol; ii) Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd; iii) Y Craidd Dysgu; iv) Yr Anogwr Dysgu; v) Cymorth Personol; a vi) Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd. Mae'r rhain yn ymgorffori rhai cysyniadau newydd, ynghyd â mentrau sefydledig. Roedd cael syniad o sut y deallwyd hyn gan ymatebwyr a'r ffordd orau o gyfeirio at yr elfennau yn hanfodol er mwyn ategu'r ymchwil feintiol a rhoi'r ymatebion yn eu cyd-destun.

Roedd yn amlwg bod pobl ifanc yn dueddol o feddu ar wybodaeth gadarn am yr opsiynau a oedd ar gael iddynt, er mai i'w hystyriaethau uniongyrchol yr oedd y wybodaeth hon yn berthnasol yn bennaf - hynny yw, yn dibynnu ar eu hoedran, roeddent yn ymwybodol o'r opsiynau ar gyfer cam nesaf eu llwybr addysg. Roedd

patrwm tebyg yn berthnasol i rieni, yr oedd eu hymwybyddiaeth yn deillio'n bennaf o ohebiaeth gan ysgol neu goleg eu plentyn neu o'r hyn a ddywedwyd wrthynt gan eu plant. Nid oedd yn syndod bod Cynrychiolwyr Rhwydwaith yn ymwybodol o'r amrywiaeth o opsiynau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yn gyffredinol, ac yn eu deall.

Croesawyd y ffaith bod mwy o hyblygrwydd a dewis yn sgîl y Llwybrau Dysgu, ynghyd â'r ffaith bod 'Profiad sy'n canolbwyntio ar Waith^[J1]^[V2]' a'r Anogwr Dysgu ar gael gan bobl ifanc. Er gwaethaf y ffaith mai prin oedd ymwybyddiaeth rhieni o'r amrywiaeth llawn o opsiynau a gynigiwyd gan y Llwybrau Dysgu, dangoswyd eu bod yn credu y byddai'r rhain o fudd i'w plant.

Er bod Cynrychiolwyr Rhwydwaith yn gyfarwydd â thelerau'r Llwybrau Dysgu, nid oedd pobl ifanc a'u rhieni yn ymwybodol ohonynt. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod rhai o elfennau'r Llwybrau, megis y Ddewislen Opsiynau o fewn yr elfen 'Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd', a'r Anogwr Dysgu. Er mai prin oedd eu gwybodaeth am y Llwybrau, ar y cyfan roeddent yn croesawu eu cyflwyno, a'r opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed drwyddynt.

Roedd rhieni o blaid dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er nad oedd pobl ifanc mor frwdfrydig ynghylch hynny. I'r gwrthwyneb, roedd pobl ifanc yn croesawu'r syniad o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith, tra bod rhieni yn pryderu mai ymgais i adfywio mentrau megis y Cynllun Hyfforddi Ieuencid (YTS) ydoedd.

Llywiodd canfyddiadau'r cam ansoddol y broses o gynllunio'r holiaduron ar gyfer yr arolygon meintiol, drwy sicrhau y defnyddiwyd iaith hygyrch ac y rhoddwyd diffiniadau priodol o elfennau'r Llwybrau.

Prin oedd ymwybyddiaeth gyffredinol pobl ifanc o opsiynau 14-19, ac roedd yn dueddol o fod yn gyfyngedig i'w cam dysgu presennol, a phrin iawn oedd gwybodaeth rhieni am opsiynau 14-19. Mae'r polisi ar gyfer Llwybrau Dysgu ar gam cynnar o ran ei ddatblygu; serch hynny, mae'n bwysig cydnabod diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cymharol o Llwybrau Dysgu ymhlith pobl ifanc a rhieni wrth ddod i gasgliadau ar sail ymatebion yr arolwg.

1.3 Ymchwil feintiol ymhlith pobl ifanc 14-19 oed a rhieni

Yn achos pobl ifanc a rhieni, roedd cyfran sylweddol o'r farn mai ychydig yr oeddent yn ei wybod am y cymwysterau a oedd ar gael, a nododd tua un rhan o bump na allent (na'u plant) ddod o hyd i gymhwyster addas.

Roedd y mwyafrif sylweddol o bobl ifanc a rhieni yn cydnabod pwysigrwydd ennill cymwysterau, tra bod tua chwarter o bob grŵp yn anghytuno â'r datganiad bod "cymwysterau academiaidd yn bwysicach na chymwysterau galwedigaethol".

Yn yr un modd, roedd ychydig o dan chwarter o bobl ifanc a rhieni o'r farn bod profiad gwaith yn bwysicach nag ennill cymwysterau.

Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol na rhieni o gytuno bod "cyflogwyr yn fwy tebygol o gyflogi pobl â chymwysterau academiaidd", ac roeddent yn llawer mwy tebygol o gytuno bod "cymwysterau galwedigaethol yn cael eu derbyn gan brifysgolion".

Un o'r canfyddiadau cadarnhaol oedd y ffaith bod 90 y cant o bobl ifanc ac 85 y cant o rieni yn fodlon ar y cymwysterau a oedd ar gael, er bod yn rhaid i'r canfyddiad hwn gael ei wrthbwysu yn erbyn y prinder gwybodaeth a chanllawiau a gafwyd gan chwarter o'r samplau, yn ôl yr hyn a gofnodwyd. Mae'n ddiddorol nodi i lefelau boddhad pobl ifanc o ran cymwysterau gynyddu yn unol â'r cam a gyrhaeddwyd o fewn y system addysg - y rhai mewn addysg uwch oedd mwyaf bodlon. I'r gwrthwyneb, rhieni nad oedd eu plant yn astudio mwyach oedd lleiaf bodlon.

Roedd tua thraean o'r bobl ifanc y cyfwelwyd â hwy yn siarad Cymraeg, gyda phobl ifanc 14 oed yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na phobl ifanc 15-19 oed. Fodd bynnag, nododd un rhan o bump o bobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg nad oeddent wedi cael unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac nid oedd chwarter yn cael unrhyw gyfle i ddefnyddio Cymraeg wrth ddysgu ar y pryd.

Mewn ymateb i gwestiwn am yr agweddau ehangach ar ddysgu, nid oedd traean o bobl ifanc yn gallu rhoi unrhyw enghreifftiau o ddysgu a oedd yn digwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac yn helpu i ddatblygu sgiliau pobl ifanc 14-19 oed.

O ran yr elfennau o'r Llwybrau Dysgu, roedd cyfran y bobl ifanc a oedd yn honni eu bod yn ymwybodol o bum allan o'r chwe elfen yn sylweddol is na 50 y cant. Yr elfen a oedd yn cael ei chydabod gryn dipyn yn fwy oedd cyngor ac arweiniad ar yrfaedd. Er y gellir priodoli hyn i'r ffaith ei bod yn elfen sefydledig o'r system addysg, gallai fod yn arwydd o'r rhan y gall cyngor ac arweiniad ar yrfaedd ei chwarae i godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o Lwybrau Dysgu.

Roedd yr angen i sicrhau bod y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc yn cael eu hegluro i bawb yn amlwg yn y canfyddiad bod y ganran o ran cydnabod neu ddod yn gyfarwydd â'r elfennau hyn yn cynyddu'n sylweddol, unwaith y rhoddwyd diffiniadau o elfennau'r Llwybrau Dysgu. Yn arbennig, cododd y gyfran a oedd yn dweud ei bod yn meddu ar wybodaeth am y Llwybr Dysgu Unigol o 35 y cant i 68 y cant. Unwaith eto, roedd mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y grŵp oedran hŷn. Roedd y rhai a oedd yn ymwybodol o'r Llwybrau Dysgu Unigol yn unfrydol wrth fynegi eu bod yn fodlon ar eu profiad ohonynt.

Nododd rhieni hefyd eu bod yn fodlon ar y Llwybrau Dysgu Unigol, er bod eu hymwybyddiaeth ohonynt yn is na phobl ifanc.

Datgelodd ymatebion i elfennau eraill o'r Llwybrau Dysgu (unwaith y'u diffiniwyd) hefyd lefelau uchel o foddhad.

Roedd tystiolaeth o frwdfrydedd tuag at gyflwyno Anogwr Dysgu, gyda'r farn gyffredinol ei fod yn gwneud pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'r opsiynau a oedd ar

gael, yn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus o ran eu dewisiadau ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg.

1.4 Darparwyr dysgu

Ym marn tri chwarter o'r darparwyr yn gyffredinol, roedd y ddarpariaeth ddysgu i bobl ifanc 14-19 oed wedi gwella dros y ddwy flynedd diwethaf, tra bod un rhan o bump o'r farn ei bod wedi aros yr un peth; dim ond 1 y cant a oedd o'r farn ei bod wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod hwnnw. Ystyriwyd y rhaglen Llwybrau Dysgu mewn ffordd gadarnhaol hefyd, gyda'r mwyafrif helaeth o ddarparwyr a ymatebodd yn awgrymu y byddai'n gwella'r opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed.

At hynny, roedd dwy ran o dair o'r farn bod y rhaglen yn cyfuno'n dda â'r opsiynau a oedd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed yn eu hysgol neu eu coleg. Dim ond lleiafrif bach a oedd o'r farn bod y cyfuniad yn un gwael.

Er mai megis dechrau y mae'r rhaglen Llwybrau Dysgu, nododd mwyafrif sylweddol o ymatebwyr (84 y cant) eu bod eisoes yn rhoi'r rhaglen ar waith, gyda thri chwarter o'r rheini yn nodi effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr a'r ysgol neu'r coleg ei hun.

Roedd cyfran lai (65 y cant) wedi dechrau rhoi Llwybrau Dysgu Unigol ar waith, gydag ychydig o dan hanner yn nodi eu bod wedi profi anawsterau yn gwneud hyn. Ymhlith y darparwyr nad oeddent wedi dechrau rhoi Llwybrau Dysgu Unigol ar waith, roedd cyfran sylweddol o'r farn nad oeddent wedi paratoi'n ddigonol ar y cyfan. Ymddangosodd fod y pryderon hyn yn rhai cyfiawn, o ystyried bod dwy ran o dair o'r *holl* ddarparwyr yn ansicr ynghylch eu gallu i roi'r rhaglen ar waith. Y prif broblemau a ragwelwyd oedd: lefelau ariannu; problemau amserlennu; cost cludiant; cydweithio rhwng cyflogwyr; a lefelau staffio.

Yr effeithiau ar ddysgwyr a ragwelwyd fwyaf yn sgîl cyflwyno'r Llwybrau Dysgu Unigol oedd:

- Pobl ifanc wedi ymbaratoi'n well ar gyfer bywyd gwaith;
- Helpu pobl ifanc i nodi ffyrdd o gyflawni eu dyheadau;
- Mwy o bobl ifanc yn dilyn cyrsiau galwedigaethol;
- Ehangu gorwelion pobl ifanc.

Soniodd cyfran lai am effeithiau negyddol posibl, megis cynyddu llwyth gwaith y dysgwyr, ac arwain at ddryswch ymhlith dysgwyr yn sgîl y ffaith bod gormod o opsiynau ar gael.

Roedd cyfran fawr o ddarparwyr wedi cymryd camau i gyflwyno cyrsiau neu ddewisiadau pwnc newydd, fel rhan o'r elfen Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd, naill ai drwy eu darpariaeth eu hunain neu ar y cyd â darparwyr lleol eraill. Dim ond un rhan

o ddeg (10 y cant) a oedd yn methu â nodi achosion o ddatblygiad o'r fath. Roedd bron hanner y grŵp hwn wedi profi anawsterau yn rhoi'r trefniadau cydweithio hyn ar waith.

Nododd bron hanner yr ymatebwyr bryderon penodol ynghylch rhoi Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd ar waith. Lefelau ariannu, amserlennu, cost cludiant, logisteg a lefelau staffio oedd y prif broblemau a ragwelwyd. Serch hynny, roedd consensws eang ynghylch effaith fuddiol bosibl yr elfen hon.

Roedd elfen y Craidd Dysgu eisoes wedi cael ei chyflwyno gan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (68 y cant), gyda'r cyfrannau a nododd ei bod wedi bod yn hawdd ei rhoi ar waith (44 y cant) yn llawer uwch na'r cyfrannau a oedd wedi profi anawsterau (12 y cant).

Roedd dwy ran o dair o'r darparwyr (64 y cant) yn hyderus bod ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflwyno'r Craidd Dysgu, tra bod gan draean bryderon - lefelau ariannu ac amserlennu oedd y prif rai.

O ran effaith ragweladwy'r Craidd Dysgu, y potensial i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau cymunedol a gwirfoddol a grybwyllwyd fwyaf aml. Ystyriwyd hefyd fod paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer bywyd gwaith, rhoi ymdeimlad o gymuned iddynt ac ehangu eu gorwelion yn ganlyniadau tebygol.

Roedd ychydig o dan hanner y darparwyr wedi cymryd rhan yn y treial a oedd yn cynnig Anogwyr Dysgu i ddysgwyr. O'r rhai a oedd wedi cymryd rhan yn y treial, dywedodd hanner ei fod wedi bod yn hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cyflwyno Anogwyr Dysgu i'w sefydliad, tra bod traean wedi profi anawsterau (rhoddodd y gweddill ymateb niwtral i'r cwestiwn hwn). Ymhlith y rhai a oedd wedi profi anawsterau, y prif faterion oedd lefelau ariannu, amser, lefelau staffio a nifer yr anogwyr angenrheidiol a hyfforddi staff.

Roedd elfennau buddiol yr Anogwr Dysgu yn amlwg, gyda dros dri chwarter yr ymatebwyr yn honni bod yr effaith wedi bod yn gadarnhaol. Yr hyn a oedd yn arwyddocaol iawn oedd y ffaith bod dros hanner (58 y cant) o'r farn bod myfyrwyr ag Anogwyr Dysgu yn dueddol o ymddiddori'n fwy yn eu hastudiaethau. Awgrymodd cyfrannau ychydig yn llai y bu effaith ar rai dysgwyr wedi dadrithio, a oedd yn ymddiddori'n fwy yn yr ysgol neu'r coleg (50 y cant) a bod y cymorth a roddwyd i fyfyrwyr yn fwy strwythuredig (46 y cant).

Yn amlwg, mae cyflwyno Anogwyr Dysgu yn llwyddiannus drwy'r system addysg yn gofyn am recriwtio a hyfforddi unigolion cymwys addas. Er y cydnabyddir bod y fenter ar gam cynnar, un o'r pryderon yw bod llai nag un rhan o bump o ddarparwyr wedi pennu eu holl Anogwyr Dysgu, ac nad oedd bron traean wedi pennu unrhyw rai.

Yn sgîl yr uchod, nid oedd yn syndod bod llai na hanner y darparwyr o'r farn eu bod yn barod i gynnig Anogwyr Dysgu. Cyfyngiadau ariannu, nifer yr anogwyr gofynnol ac ansicrwydd ynghylch statws anogwyr oedd y prif bryderon. Roedd budd posibl yr Anogwr Dysgu yn ddigon amlwg i ddarparwyr, gyda lefel uwch o ymddiddori ymhlith dysgwyr, a dysgwyr yn dod yn fwy hyderus o ran astudio'n annibynnol yn cael eu nodi amlaf fel y manteision.

O ran y cymorth penodol y gallent ei roi, y disgwyliad mwyaf cyffredin oedd y byddai pobl ifanc 14-19 oed yn gallu gwneud penderfyniadau hyddysg (a grybwyllwyd gan ddwy ran o dair o ddarparwyr). Roedd tua thair rhan o bump hefyd yn disgwyl i bobl ifanc 14-19 oed ddod yn fwy ymwybodol o'r amrywiaeth o opsiynau a oedd ar gael a'u goblygiadau (60%), y byddent yn cael cymorth i ddewis y dulliau dysgu gorau (59%) ac y byddent yn cael cymorth i deimlo'n hyderus ynghylch eu dewisiadau (55%).

Dywedodd ychydig dros hanner y darparwyr eu bod wedi dechrau rhoi elfen Cymorth Personol y Llwybrau Dysgu ar waith. Ymddangosodd y pryder ynghylch rhoi Cymorth Personol ar waith yn isel o gymharu ag agweddau eraill ar y rhaglen Llwybrau Dysgu. Roedd y pryderon a godwyd yn ymwneud â lefelau ariannu, y cymorth personol a oedd eisoes yn rhan o fywyd ysgol, costau, datblygiad staff a lefelau staffio. Roedd tri chwarter o ddarparwyr o'r farn y byddai'n gwneud i ddysgwyr deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac roedd dwy ran o dair o'r farn y byddai'n atal dysgwyr â phroblemau rhag teimlo'n ynysig. Yn ogystal, roedd tua hanner o'r farn y byddai'n helpu dysgwyr i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau ac yn gwella cyflawniadau academiaidd dysgwyr.

Nid yw'n syndod, o ystyried ei bod wedi bod yn rhan o fywyd ysgolion a cholegau ers amser hir, i'r elfen Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd gael ei hystyried yn eithaf hawdd ei chyflwyno, gyda nifer fach iawn o bryderon yn cael eu codi. Cydnabuwyd y potensial i Gyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd helpu dysgwyr i nodi eu llwybr, yn ogystal â gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac ehangu eu gorwelion.

Y dyheadau pwysicaf, ym marn darparwyr, oedd y gallu i gymysgu astudiaethau/llwybrau academiaidd a galwedigaethol a lleihau maint dosbarthiadau. O blith amrywiaeth o ddatganiadau am agweddau y gofynnwyd i ymatebwyr roi sylwadau arnynt, y rhai y cytunwyd arnynt fwyaf oedd: "bydd gwell opsiynau galwedigaethol yn sicrhau bod pobl ifanc yn ymbaratoi'n well ar gyfer eu dewis yrfa"; a "bydd profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn rhoi syniad gwell i bobl ifanc o natur bywyd gwaith".

2 Cyflwyniad

2.1 Cefndir

Yn wreiddiol, cynlluniwyd rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19 yn unol ag un o nodau Y Wlad sy'n Dysgu sef y dylai 95% o bobl ifanc 25 oed fod yn barod ar gyfer cyflogaeth hyfedr neu addysg uwch erbyn 2015. Wedyn cynhwyswyd canlyniadau gofynnol y rhaglen yn y Cynllun Gweithredu 14-19 (Canllawiau I a II) ac fe'u datblygwyd ymhellach yn Nogfen Strategol Llywodraeth y Cynulliad sef Gweledigaeth ar Waith. Mae'r Rhaglen yn anelu at fynd i'r afael â'r angen i ymdrin ag addysg pobl ifanc 14-19 oed mewn ffordd fwy hyblyg a chytbwys, gan ddarparu amrywiaeth ehangach o brofiadau a fydd yn diwallu anghenion amrywiol pobl ifanc yng Nghymru.

Mae fframwaith y rhaglen yn cynnwys chwe elfen allweddol:

- Llwybrau Dysgu Unigol
- Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd
- Craidd Dysgu
- Anogwr Dysgu
- Cymorth Personol
- Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaeodd.

Mae'r rhaglen yn anelu at annog mwy o bobl ifanc i wireddu eu potensial fel bod ganddynt fwy o sgiliau ar gyfer y byd gwaith ac i fod yn ddinasyddion mwy hyddysg a mwy gweithgar. Bydd yn gwneud hyn drwy gyfrannu at y broses o wella cymwysterau, cynorthwyo'r broses o gynyddu cyfran y bobl ifanc 16 oed sy'n dysgu ymhellach drwy addysg a hyfforddiant, ehangu dewisiadau, hyrwyddo cyfle cyfartal a chynorthwyo dysgwyr i gyflawni'r rhaglen 'Ymestyn Hawliau'. Ceir rhagor o wybodaeth yn: <http://www.learning.wales.gov.uk/pathways/welcome-e.htm>

Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru am ymchwilio i ganfyddiadau rhanddeiliaid allweddol o Gynllun Gweithredu 14-19 2006-2010 y Gweinidog (y cyfeirir ato fel y Cynllun Gweithredu o hyn ymlaen). Rhanddeiliaid allweddol y Cynllun Gweithredu, ac felly dargedau'r ymchwil, yw:

- Pobl ifanc 14-19 oed
- Rhieni pobl ifanc 14-19 oed
- Y rhai sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc 14-19 oed

Bwriedir i'r ymchwil ddarparu negeseuon allweddol i'w defnyddio gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (yr Adran), yn ogystal â sefydliadau a darparwyr eraill gan gynnwys y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru.

Mae'r ymchwil hefyd yn anelu at ddarparu llinell sylfaen a fydd yn addas ei chymharu â gwybodaeth bellach am ganfyddiadau a fydd yn galluogi'r Adran i fesur hynt amcanion y Cynllun Gweithredu.

2.2 Amcanion yr Ymchwil

Pennwyd amcanion ar gyfer tri grŵp targed yr ymchwil - pobl ifanc, rhieni a darparwyr - fel a ganlyn:

2.2.1 Amcanion yr ymchwil ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed:

- Pennu lefel yr ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o opsiynau cymhwysol (galwedigaethol) a chyffredinol sydd ar gael ar hyn o bryd;
- Ystyried agweddau a chanfyddiadau o ran yr opsiynau cymhwysol (galwedigaethol) a chyffredinol sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ifanc 14-19 oed;
- Casglu gwybodaeth am unrhyw welliannau i'r cyfleoedd dysgu a hyfforddi i bobl ifanc 14-19 oed y byddai ymatebwyr yn hoffi eu gweld yn y dyfodol;
- Canfod eu barn am y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Pennu lefel yr ymwybyddiaeth a'r canfyddiadau o werth Bagloriaeth Cymru;
- Nodi lefel yr ymwybyddiaeth o gyfleoedd profiad sy'n canolbwyntio ar waith;
- Nodi lefel yr ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfrannu at y gymuned sydd ar gael iddynt;
- Pennu'r ymwybyddiaeth bresennol o ymgyrchoedd marchnata 14-19 gan sefydliadau megis y Ddraig Ffynci, Gyrfa Cymru Ar-lein, CLIC, fforymau ieuenctid a'r Adran;
- Ystyried yr effaith y mae'r profiad dysgu presennol wedi ei chael ar eu cynlluniau dysgu neu hyfforddi ar gyfer y dyfodol;
- Ystyried unrhyw wahaniaethau neu debygrwydd ymhlith is-grwpiau megis lefelau cymwysterau, rhanbarth, lleoliad trefol/gwledig, statws economaidd-gymdeithasol, rhyw ac ati;

- Nodi a thrafod goblygiadau posibl y canfyddiadau hyn i'r Cynllun Gweithredu a pholisïau ac arferion eraill yng Nghymru sy'n ymwneud â dysgu a sgiliau.

2.2.2 Amcanion yr ymchwil ar gyfer rhieni pobl ifanc 14-19 oed:

- Pennu lefel yr ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o opsiynau cymhwysol a chyffredinol sydd ar gael ar hyn o bryd;
- Ystyried agweddau a chanfyddiadau rhieni o ran yr opsiynau cymhwysol (galwedigaethol) a chyffredinol sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ifanc 14-19 oed;
- Casglu gwybodaeth am unrhyw welliannau i'r cyfleoedd dysgu a hyfforddi i bobl ifanc 14-19 oed y byddai rhieni yn hoffi eu gweld yn y dyfodol.
- Pennu lefel yr ymwybyddiaeth a'r canfyddiadau o werth Bagloriaeth Cymru;
- Canfod eu barn am y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Nodi lefel yr ymwybyddiaeth o gyfleoedd profiad sy'n canolbwyntio ar waith sydd ar gael i bobl ifanc;
- Nodi lefel yr ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfrannu at y gymuned sydd ar gael i bobl ifanc;
- Pennu'r ymwybyddiaeth bresennol o ymgyrchoedd marchnata 14-19 gan sefydliadau megis y Ddraig Ffyni, Gyrfa Cymru Ar-lein, CLIC, fforymau ieuencid a'r Adran;
- Ystyried unrhyw wahaniaethau neu debygrwydd ymhlith is-grwpiau megis rhanbarth, lleoliad trefol/gwledig, statws economaidd-gymdeithasol, rhyw y dysgwr ac ati;
- Nodi a thrafod goblygiadau posibl y canfyddiadau hyn i'r Cynllun Gweithredu a pholisïau ac arferion eraill yng Nghymru sy'n ymwneud â dysgu a sgiliau.

2.2.3 Amcanion yr ymchwil ar gyfer darparwyr a gweithwyr addysg proffesiynol:

- Ystyried agweddau tuag at yr opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ifanc 14-19 oed, gan dynnu sylw at unrhyw themâu cyffredin o ran canfyddiadau cadarnhaol neu negyddol;

- Pennu lefelau o ymwybyddiaeth o chwe elfen allweddol fframwaith y Llwybrau Dysgu 14-19, a'r agweddau tuag atynt;
- Tynnu sylw at unrhyw feysydd lle y disgwylir gwelliant sylweddol neu y gobeithir am hynny o ganlyniad i'r Cynllun Gweithredu;
- Tynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n peri pryder i ddarparwyr a'u staff o ran y Cynllun Gweithredu;
- Nodi unrhyw rwystrau canfyddedig i gyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu o safbwynt darparwyr;
- Casglu gwybodaeth am unrhyw welliannau i'r trefniadau darparu ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed y byddai ymatebwyr yn hoffi eu gweld yn y dyfodol;
- Ystyried gwahaniaethau a thebygrwydd mawr rhwng sectorau addysg a hyfforddiant;
- Nodi a thrafod goblygiadau posibl y canfyddiadau hyn i'r Cynllun Gweithredu a pholisïau ac arferion eraill yng Nghymru sy'n ymwneud â dysgu a sgiliau.

2.3 Trosolwg o'r rhaglen ymchwil

Credwyd y byddai'r prosiect ymchwil cyfan yn cael budd o fesurau ansoddol a meintiol.

Darparodd ymchwil ansoddol ddealltwriaeth fanwl o farn rhanddeiliaid mewn perthynas â chwe elfen y Llwybrau Dysgu, gan edrych ar y derminoleg a oedd yn cael ei defnyddio ac a oedd yn gyfarwydd i randdeiliaid. Rhoddodd canfyddiadau'r grŵp ffocws a'r cyfweiliadau manwl gipolwg manylach ar y meysydd pwnc allweddol yn yr ymchwil feintiol ddiweddarach (arolygon ffôn ac ar-lein), yn ogystal â nodi'r ffordd orau o eirio cwestiynau. Mae'r pwynt olaf hwn yn bwysig; roedd angen datblygu cwestiynau'r arolwg er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer arolwg sylfaenol (pan oedd ymwybyddiaeth yn debygol o fod yn isel) yn ogystal â bod yn ddefnyddiol mewn arolygon diweddarach er mwyn gallu gwneud cymariaethau uniongyrchol. Trafodir canfyddiadau'r elfen hon o'r ymchwil yn Atodiad 1.

Llywiodd yr arolygon ffôn ac ar-lein y graddau yr arddelwyd llawer o'r safbwyntiau yr ymchwiliwyd iddynt yn ansoddol gan randdeiliaid a sicrhodd y gellid cynnal ymchwiliad manwl o sut yr oedd y safbwyntiau hyn yn amrywio rhwng grwpiau rhanddeiliaid neu is-grwpiau. Mae canfyddiadau'r arolygon hyn hefyd yn darparu llinell sylfaen i fesur newid yn y dyfodol, gan sicrhau y gellir asesu hynt y Cynllun Gweithredu o ran cyflawni ei amcanion.



2.4 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin yn bennaf â'r ymchwil feintiol. Mae Pennod 3 yn trafod y gwaith ansoddol archwiliadol a gynhaliwyd i lywio'r ymchwil feintiol, tra bod gweddill yr adroddiad yn canolbwyntio ar y canfyddiadau a'r safbwyntiau o'r arolygon meintiol o rieni pobl ifanc 14-19 oed, pobl ifanc 14-19 oed eu hunain a'r ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau addysgol i bobl ifanc 14-19 oed.

3 Ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o ran yr opsiynau i bobl ifanc 14-19 oed

Mae'r bennod hon yn trafod ymwybyddiaeth o'r opsiynau dysgu sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed a'r agweddau tuag atynt ymhlith pobl ifanc a rhieni, fel y'u mesurwyd yn yr arolwg ffôn.


3.1 Gwybodaeth am y cymwysterau a oedd ar gael

Yn yr arolwg meintiol, gofynnwyd i rieni a phobl ifanc 14-19 oed faint yr oeddent yn credu eu bod yn gwybod am y cymwysterau a oedd ar gael iddynt (o ran pobl ifanc 14-19 oed) neu i'w plant (o ran y rhieni).

3.1.1 Pobl ifanc 14-19 oed

Roedd tua saith allan o ddeg o bobl ifanc (69%) yn credu bod ganddynt wybodaeth resymol o leiaf am y cymwysterau a oedd ar gael. Dywedodd bron un allan o bump (18%) eu bod yn gwybod llawer a dywedodd hanner (51%) eu bod yn gwybod swm rhesymol. Mae'n bryder bod tri allan o ddeg wedi dweud eu bod ond yn gwybod ychydig bach, dim llawer neu ddim byd o gwbl.

Siart 1: Gwybodaeth am y cymwysterau a oedd ar gael - pobl ifanc 14-19 oed



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed. Heb ei phwysoli 1000; wedi ei phwysoli 1000

Wrth edrych ar oedran, gwelwyd rhai gwahaniaethau o ran lefelau'r wybodaeth am y cymwysterau a oedd ar gael. Roedd pobl ifanc 16 oed a'r rhai 17-19 oed o'r farn eu


bod yn gwybod mwy am gymwysterau na phobl ifanc 14 neu 15 oed. Y rheswm mwyaf tebygol am y gwahaniaeth hwn yw'r cam y mae'r bobl ifanc hyn wedi ei gyrraedd o ran eu haddysg. Mae'r rhai sy'n 14 a 15 oed yn llai tebygol o fod wedi wynebu penderfyniadau ynghylch cymwysterau na'r rhai 16-19 oed.

O ran cyfnod addysg y dysgwyr, roedd y rhai mewn addysg ôl-orfodol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod llawer neu swm rhesymol na'r rhai mewn addysg orfodol.

3.1.2 Rhieni

Pan ofynnwyd i rieni pobl ifanc 14-19 oed nodi faint yr oeddent yn ei wybod am y cymwysterau a oedd ar gael, ar y cyfan roeddent o'r farn eu bod yn gwybod mwy na'r bobl ifanc eu hunain. Dywedodd ychydig dros chwarter (27%) eu bod yn gwybod llawer am y cymwysterau a oedd ar gael o gymharu â 18% o bobl ifanc. Dywedodd tua hanner (49%) eu bod yn gwybod swm rhesymol (dywedodd nifer debyg o bobl ifanc yr un peth (51%)), tra dywedodd tua chwarter mai dim ond ychydig, dim llawer neu ddim byd o gwbl (24%) yr oeddent yn ei wybod.

Siart 2: Gwybodaeth am y cymwysterau a oedd ar gael - Rhieni



Sylfaen: Rhieni pobl ifanc 14-19 oed. Heb ei phwysoli 756

Roedd oedran y plentyn yn cael rhywfaint o effaith ar wybodaeth ganfyddedig rhieni am gymwysterau, gyda rhieni pobl ifanc 16+ ychydig yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gwybod llawer (30% o gymharu ag 21% o rieni pobl ifanc 14 a 15 oed).

Roedd rhieni'r rhai mewn addysg ôl-orfodol yn fwy tebygol na rhieni myfyrwyr iau o ddweud eu bod yn gwybod llawer (32% o gymharu â 24%). Gwelwyd un gwahaniaeth arall yn y cyfnod ôl-orfodol, sef bod rhieni pobl ifanc a oedd yn astudio mewn colegau addysg bellach yn teimlo'n llai cyfarwydd â'r cymwysterau a oedd ar gael na rhieni pobl ifanc a oedd yn astudio mewn chweched dosbarth ysgol.

3.2 Agweddau tuag at gymwysterau

Darllenwyd nifer o ddatganiadau byr am agweddau tuag at gymwysterau dros y ffôn i rieni a phobl ifanc 14-19 oed, a gofynnwyd i'r ddau grŵp i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad.

3.2.1 Pobl ifanc 14-19 oed a rhieni - trosolwg

Dengys y siart isod fod bron yr holl bobl ifanc yn cytuno ei bod yn bwysig ennill cymhwyster cydnabyddedig (94%). Ymhlith y datganiadau eraill yr oedd y mwyafrif o'r bobl ifanc yn cytuno â hwy roedd "mae cyflogwyr yn fwy tebygol o gyflogi pobl ifanc â chymwysterau academiaidd na'r rhai â chymwysterau galwedigaethol" (68%) a "derbynnir cymwysterau galwedigaethol gan brifysgolion" (59%). Cytunodd hanner fod "cymwysterau academiaidd yn bwysicach na rhai galwedigaethol" (50%).

Y datganiadau nad oedd pobl ifanc ar y cyfan yn cytuno â hwy oedd "Ni allaf/allwn ddod o hyd i gymhwyster sy'n/a oedd yn diwallu fy anghenion" (22% yn cytuno) ac "mae profiad gwaith yn bwysicach nag ennill cymwysterau" (24% yn cytuno). Er y gallai'r ffaith nad oedd tystiolaeth bod y mwyafrif o bobl ifanc yn cael anawsterau i ddod o hyd i gymwysterau addas fod yn arwydd calonogol, mae'n rhaid i'r ffaith nad oedd un rhan o bump o'r farn y gallent ddod o hyd i gymhwyster addas beri pryder.

Roedd y rhan fwyaf o rieni yn cytuno ei bod yn bwysig ennill cymhwyster cydnabyddedig (96%), ac roedd yn debyg iawn i'r 94% o bobl ifanc 14-19 oed a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn. Y datganiadau eraill lle cafwyd lefelau uchel o gytundeb oedd "mae cyflogwyr yn fwy tebygol o gyflogi pobl ifanc â chymwysterau academiaidd na'r rhai â chymwysterau galwedigaethol" (61%), o gymharu â 68% o bobl ifanc. Fodd bynnag, roedd rhieni ychydig yn llai tebygol o gytuno bod cymwysterau academiaidd yn bwysicach na chymwysterau galwedigaethol (43% o gymharu â 50% o bobl ifanc a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn). Roedd un rhan o bump (20%) o rieni yn cytuno â'r datganiad "ni all/allodd fy mab/merch ddod o hyd i gymhwyster sy'n/a oedd yn diwallu ei anghenion/hanghenion", sy'n agos iawn at y 22% o bobl ifanc a nododd yr un peth.

Y meysydd lle'r oedd gwahaniaethau rhwng y rhieni a phobl ifanc oedd:


- "mae profiad gwaith yn bwysicach nag ennill cymwysterau": roedd rhieni yn fwy tebygol na phobl ifanc o gytuno â hyn sef 41% o gymharu â 24% o bobl ifanc

- "derbynnir cymwysterau galwedigaethol gan brifysgolion": roedd rhieni yn llai tebygol na phobl ifanc o gytuno â hyn, sef 42% o gymharu â 59%

Dim ond un gwahaniaeth a ddaeth i'r amlwg rhwng bechgyn a merched 14-19 oed eu hunain, sef bod bechgyn yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad "mae cyflogwyr yn fwy tebygol o gyflogi pobl â chymwysterau academiaidd na phobl â chymwysterau galwedigaethol".

Daeth mwy o wahaniaethau i'r amlwg yn ôl oedran. Roedd y patrwm yn dueddol o ddangos bwlch rhwng agweddau pobl ifanc 14 a 15 oed ac agweddau pobl ifanc 17-19 oed, gyda barn pobl ifanc 16 oed yn agosach at y myfyrwyr iau o ran rhai materion ac yn agosach at y rhai 17-19 oed o ran eraill.

Siart 3: Agweddau tuag at gymwysterau - pobl ifanc a rhieni



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed (heb ei phwysoli 1000; wedi ei phwysoli 1000). Rhieni pobl ifanc 14-19 oed (heb ei phwysoli: 756)

3.2.2 Agweddau tuag at gymwysterau - pobl ifanc

A) "Ni allaf/allwn ddod o hyd i gymhwyster sy'n/a oedd yn diwallu fy anghenion"

Roedd ychydig dros un rhan o bump (22%) o bobl ifanc 14-19 oed yn cytuno â'r datganiad hwn, gyda'r ganran yn uwch ymhlith pobl ifanc 14 a 15 oed na'r rhai 16+. Y grwpiau eraill a oedd yn debygol iawn o gytuno eu bod yn profi neu wedi profi anawsterau yn y maes hwn oedd y rhai a oedd yn astudio'n rhan-amser (roedd 18% o'r rhain yn cytuno'n gryf, ac roedd 32% yn cytuno'n gyffredinol) a'r rhai nad oeddent yn astudio mwyach (roedd 12% yn cytuno'n gryf ac roedd 33% yn cytuno'n gyffredinol). Roedd pobl ifanc mewn ysgolion Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion Saesneg (31% yn cytuno o gymharu â 22%).

B) "Mae'n bwysig iawn bod pobl ifanc yn ennill cymwysterau cydnabyddedig"

Roedd y mwyafrif helaeth o bobl ifanc yn cytuno â'r datganiad hwn (94%). Fodd bynnag, roedd y ganran ychydig yn is ymhlith y rhai nad oeddent yn astudio mwyach na'r rhai a oedd yn astudio o hyd.

C) "Mae cymwysterau academiaidd yn bwysicach na chymwysterau galwedigaethol"

Roedd hanner y bobl ifanc 14-19 oed (50%) yn cytuno â'r datganiad hwn tra bod 26% yn anghytuno. Roedd pobl ifanc 18 a 19 oed yn fwy tebygol o anghytuno na'r rhai 14-17 oed. Roedd dysgwyr rhan-amser a'r rhai a oedd yn dysgu mewn colegau addysg bellach a phrifysgolion hefyd yn fwy tebygol o anghytuno â'r farn hon am gymwysterau academiaidd na'r nifer gyfartalog.

D) "Mae profiad gwaith yn bwysicach nag ennill cymwysterau"

Roedd tair rhan o bump o bobl ifanc 14-19 oed (60%) yn anghytuno â'r datganiad hwn, tra bod chwarter (24%) yn cytuno. Roedd pobl ifanc 17+ yn llai tebygol o anghytuno â'r farn hon na phobl ifanc 14 i 16 oed (50% o gymharu â 69%). Mewn perthynas ag oedran, roedd y rhai a oedd yn astudio'n rhan-amser neu ddim yn astudio o gwbl yn llai tebygol o anghytuno na'r rhai a oedd yn astudio'n llawn amser (47% o gymharu â 62%).

E) "Mae cyflogwyr yn fwy tebygol o gyflogi pobl â chymwysterau academiaidd na phobl â chymwysterau galwedigaethol"

Roedd dwy ran o dair o bobl ifanc 14-19 oed (68%) yn cytuno bod cyflogwyr yn fwy tebygol o gyflogi pobl â chymwysterau academiaidd na phobl â chymwysterau galwedigaethol, tra bod 16% yn anghytuno. Roedd bechgyn ychydig yn fwy tebygol na merched o gytuno â hyn (71% o gymharu â 64%). Roedd y rhai a oedd yn 16 oed neu'n iau ychydig yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn 17+ o gytuno (74% o gymharu â 62% yn cytuno), ac roedd y rhai mewn addysg orfodol yn fwy tebygol na'r rhai mewn addysg ôl-orfodol o gytuno (75% o gymharu â 62%).

F) "Derbynnir cymwysterau galwedigaethol gan brifysgolion"

Roedd tri allan o bump o bobl ifanc 14-19 oed (59%) yn cytuno â'r datganiad bod cymwysterau galwedigaethol yn cael eu derbyn gan brifysgolion, tra bod 12% yn anghytuno. Prin oedd y lefelau o gytundeb yn amrywio yn ôl rhyw, oedran neu'r math o ddarpariaeth ddysgu, ac eithrio'r ffaith bod y bobl ifanc 15 oed yn y sampl yn debygol iawn o gytuno, ac i gytuno'n gryf.

3.2.3 Agweddau tuag at gymwysterau - rhieni

A) "Ni all/allodd fy mab/merch ddod o hyd i gymhwyster sy'n/a oedd yn diwallu ei anghenion/hanghenion"

Roedd saith allan o ddeg o rieni pobl ifanc 14-19 oed (69%) yn anghytuno â'r datganiad hwn tra bod 20% yn cytuno. Roedd rhieni'r rhai nad oeddent yn astudio mwyach yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad, sef 38%. Roedd rhieni pobl ifanc a oedd yn mynychu ysgolion Cymraeg yn fwy tebygol na rhieni pobl ifanc a oedd yn mynychu ysgolion Saesneg o gytuno â hyn (26% o gymharu ag 16%).

B) "Mae'n bwysig iawn bod pobl ifanc yn ennill cymwysterau cydnabyddedig"

Roedd bron holl rieni pobl ifanc 14-19 oed yn cytuno â hyn (96%) ac yn wir roedd tua phedair rhan o bump yn cytuno'n gryf (78%). Dim ond 2% a nododd unrhyw anghytundeb â hyn. Roedd mamau hyd yn oed yn fwy tebygol na thadau o gytuno (97% o gymharu â 92%).

C) "Mae cymwysterau academiaidd yn bwysicach na chymwysterau galwedigaethol"

Roedd tua dwy ran o bump (43%) o rieni yn cytuno bod cymwysterau academiaidd yn bwysicach na chymwysterau galwedigaethol, tra bod tua chwarter (27%) yn anghytuno â hyn. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau rhieni pobl ifanc 18 a 19 oed yn eithaf gwahanol i safbwyntiau rhieni pobl ifanc 14-17 oed o ran hyn. Roedd y rhaniad rhwng y cyntaf o ran cytuno ac anghytuno â'r datganiad yn llawer mwy cyfartal - 34% yn cytuno a 35% yn anghytuno - tra nad oedd gan yr olaf fwyafrif a oedd yn cytuno ond roedd cyfran y rhieni a oedd yn cytuno tua dwbl y gyfran a oedd yn anghytuno (49% o rieni plant mewn addysg orfodol yn cytuno tra bod 23% yn anghytuno).

D) "Mae profiad gwaith yn bwysicach nag ennill cymwysterau"

Roedd tua chwarter (23%) rhieni pobl ifanc 14-19 oed yn cytuno bod profiad gwaith yn bwysicach nag ennill cymwysterau, ond roedd tua dwywaith yn fwy, 48%, yn anghytuno â hyn. Roedd rhieni pobl ifanc a oedd yn mynychu colegau addysg bellach yn llai tebygol nag eraill o anghytuno â'r farn hon o ran profiad gwaith - dim ond 36% a oedd yn anghytuno tra bod 24% yn cytuno. Roedd rhieni a fu'n ddi-waith am fwy na chwe mis yn fwy tebygol nag eraill o gytuno â'r datganiad am bwysigrwydd profiad gwaith - roedd 39% o'r grŵp hwn yn cytuno tra bod 36% yn anghytuno.

E) "Mae cyflogwyr yn fwy tebygol o gyflogi pobl â chymwysterau academiaidd na phobl â chymwysterau galwedigaethol"

Roedd tair rhan o bump (61%) o rieni pobl ifanc 14-19 oed yn cytuno bod cyflogwyr yn fwy tebygol o gyflogi pobl â chymwysterau academiaidd na phobl â chymwysterau galwedigaethol, tra bod 16% yn anghytuno. Roedd rhieni plant a oedd yn mynychu

ysgolion Cymraeg yn debygol iawn o gytuno â hyn, sef 73%, ac roedd eu safbwyntiau'n gwrthgyferbynnu'n gryf â rhieni plant a oedd yn mynychu ysgolion Saesneg (60%), colegau addysg bellach (52%) neu brifysgolion (55%).

F) “Derbynnir cymwysterau galwedigaethol gan brifysgolion”

Roedd tua dwy ran o bump (42%) o rieni yn cytuno bod cymwysterau galwedigaethol yn cael eu derbyn gan brifysgolion, tra bod chwarter (26%) yn anghytuno. Yn sampl yr arolwg, roedd rhieni merched yn fwy tebygol na rhieni bechgyn o gytuno â'r farn hon am gymwysterau galwedigaethol (48% o gymharu â 38%), er nad yw'n amlwg o gwbl pam bod hyn yn wir, a gallai fod yn gysylltiedig â ffactorau eraill megis oedran neu'r math o ysgol a fynychir gan y bobl ifanc. Rhieni pobl ifanc 16 oed oedd y lleiaf tebygol o gytuno a'r mwyaf tebygol o anghytuno â'r datganiad hwn, mewn cyferbyniad â rhieni pobl ifanc iau a hŷn yn eu harddegau. Roedd rhieni pobl ifanc a oedd yn mynychu colegau chweched dosbarth yn llawer mwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn am gymwysterau galwedigaethol sef 66%, mewn cyferbyniad â rhieni plant a oedd yn mynychu mathau eraill o ddarpariaeth ôl-orfodol megis chweched dosbarth ysgol (44%) a cholegau addysg bellach (43%) yn ogystal â bod mewn cyferbyniad â rhieni plant a oedd mewn addysg orfodol o hyd (37%).

3.3 Boddhad â'r amrywiaeth o gymwysterau


Gofynnwyd i bobl ifanc 14-19 oed a rhieni pa mor fodlon yr oeddent â'r amrywiaeth o gymwysterau a oedd ar gael. Gofynnwyd i'r rhai a nododd eu bod yn anfodlon roi eu rhesymau dros hyn.

3.3.1 Pobl ifanc 14-19 oed a rhieni - trosolwg

Dengys y siart isod fod naw allan o ddeg o bobl ifanc yn gymharol fodlon o leiaf ar y cymwysterau a oedd ar gael iddynt. Roedd tri allan o ddeg (31%) yn fodlon iawn, roedd tair rhan o bump (59%) yn gymharol fodlon a dim ond 4% a nododd rhyw fath o anfodlonrwydd.

Ar y cyfan roedd rhieni hefyd yn fodlon ar yr amrywiaeth o gymwysterau a oedd ar gael i'w plentyn, gyda dros wyth allan o ddeg o'r rhieniyn gymharol fodlon o leiaf. Ar yr un pryd, roedd rhieni yn fwy tebygol na phobl ifanc o ddweud eu bod yn fodlon iawn (38% o gymharu â 31%) ac yn fwy tebygol o nodi eu bod yn anfodlon (8% o gymharu â 4%).

Siart 4: Boddhad â'r amrywiaeth o gymwysterau a oedd ar gael - pobl ifanc a rhieni



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed (heb ei phwysoli: 1000; wedi ei phwysoli: 1000) a'r rhieni (heb ei phwysoli: 756)

3.3.2 Boddhad â'r cymwysterau a oedd ar gael - pobl ifanc

Ymhlith pobl ifanc 14-19 oed nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rhyw o ran y lefelau o foddhad â'r cymwysterau a oedd ar gael. Yr unig wahaniaeth yn ôl oedran oedd y ffaith bod pobl ifanc 15 oed yn llai tebygol nag eraill o ddweud eu bod yn fodlon iawn ac yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gymharol fodlon.

Roedd y rhai mewn addysg ôl-orfodol yn fwy bodlon na'r rhai mewn addysg orfodol, gyda'r grŵp cyntaf yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn fodlon iawn (38% o gymharu â 27%); y rhai a oedd yn mynychu prifysgol oedd y mwyaf bodlon.

Roedd y bobl ifanc nad oeddent yn astudio mwyach yn llawer llai bodlon ar y cymwysterau a oedd ar gael na'r rhai a oedd yn astudio o hyd (77% o gymharu â 92%); roedd yr anfodlonrwydd a nodwyd gan y grŵp hwn yn dal i fod yn gymharol isel sef 11% ond yn llawer uwch na'r hyn a nodwyd gan y rhai a oedd yn astudio o hyd.

Gofynnwyd i'r 40 o bobl ifanc a nododd eu bod yn anfodlon roi eu rhesymau dros hyn. Ni roddodd saith unrhyw ateb. Y prif atebion a roddwyd gan y rhai a wnaeth ymateb oedd:

- dewis cyfyngedig/dim digon ar gael (14 o ymatebwyr)
- problemau â'r safon ofynnol/disgwyliadau rhy uchel (pedwar ymatebwr)

- prinder cyrsiau galwedigaethol (dau ymatebwr)

3.3.3 Rhieni

Roedd yr amrywiadau o ran boddhad â'r cymwysterau a oedd ar gael ymhlith pobl ifanc 14-19 oed i'w gweld ymhlith y rhieni hefyd.

Roedd rhieni plant mewn addysg ôl-orfodol yn fwy tebygol o ddisgrifio eu hunain yn fodlon iawn (44%) o gymharu â 36% o rieni plant mewn addysg orfodol; roedd boddhad rhieni pobl ifanc a oedd yn mynychu colegau chweched dosbarth yn uchel iawn sef 98%. Roedd rhieni plant nad oeddent yn astudio mwyach yn llai bodlon ar y cymwysterau a oedd ar gael, gyda 62% yn fodlon a 23% yn anfodlon.

Gofynnwyd i'r 61 o rieni a nododd eu bod yn anfodlon â'r amrywiaeth o gymwysterau roi eu rhesymau dros hyn. Yr ymatebion a roddwyd oedd:

- dewis cyfyngedig/dim digon ar gael (23 o ymatebwyr)
- prinder cyrsiau galwedigaethol (pum ymatebwr)
- yn rhy bell i deithio i'r cyrsiau gofynnol/ddim yn cael eu cynnal yn ein hardal (pedwar ymatebwr)
- cyrsiau yn gwrthdaro/gorfod dewis rhyngddynt (pedwar ymatebwr)
- problemau â'r safon ofynnol/disgwyliadau rhy uchel (tri ymatebwr)
- gorfod astudio rhai pynciau (tri ymatebwr)
- cyrsiau a oedd ar gael yn anaddas i fyfyrwyr ag anghenion arbennig neu fyfyrwyr anabl (tri ymatebwr)
- diffyg cefnogaeth/cymorth (tri ymatebwr)
- ddim yn dda i fyfyrwyr ag anghenion arbennig (dau ymatebwr)

3.4 Crynodeb

O ran faint yr oeddent yn teimlo eu bod yn gwybod am y cymwysterau a oedd ar gael, dywedodd tua un rhan o bump (18%) o'r bobl ifanc ac ychydig dros chwarter y rhieni (27%) eu bod yn gwybod llawer. Dywedodd tua hanner y bobl ifanc (51%) a'r rhieni (49%) eu bod yn gwybod ychydig. Roedd gwahaniaeth clir gan fod llawer mwy o rieni o'r farn eu bod yn gwybod llawer am y cymwysterau a oedd ar gael o gymharu â phobl ifanc. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod pobl ifanc yn teimlo'n llai hyderus ynghylch eu lefelau o wybodaeth. Bydd yn werth monitro'r cwestiwn hwn yn y dyfodol i weld a yw pobl ifanc, ar ôl rhoi'r cynllun gweithredu ar

waith yn llawn, yn teimlo'n fwy hyderus o ran y cymwysterau sydd ar gael iddynt drwy'r wybodaeth am yrfaeodd, yr anogwr dysgu a'r cymorth personol.

Pan ddarllenwyd cyfres o ddatganiadau am eu canfyddiadau o gymwysterau i ymatebwyr gan ofyn iddynt nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad, rhoddodd rhieni a phobl ifanc ymatebion tebyg i'r rhan fwyaf o'r datganiadau. Cafwyd dau ddatganiad lle'r oedd yr ymatebion yn wahanol iawn. Y cyntaf oedd "mae profiad gwaith yn bwysicach nag ennill cymwysterau": roedd chwarter (24%) o'r bobl ifanc yn cytuno â'r datganiad hwn, ond roedd dwy ran o bump (41%) o'r rhieni yn cytuno, sy'n wahaniaeth o 17 pwynt canran. Yr ail ddatganiad oedd "derbynnir cymwysterau galwedigaethol gan brifysgolion", lle'r oedd 59% o'r bobl ifanc yn cytuno â'r datganiad hwn a dim ond 42% o'r rhieni, sy'n wahaniaeth o 17 pwynt canran. Y rheswm dros y gwahaniaeth hwn bron yn sicr yw bod pobl ifanc wedi cael eu hysbysu o hyn, tra nad oedd y wybodaeth wedi cael ei throsglwyddo i rieni.

O ran boddhad â'r cymwysterau a oedd ar gael, roedd rhieni yn fwy tebygol na phobl ifanc o ddweud eu bod yn fodlon iawn (38% o gymharu â 31%) ac roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gymharol fodlon (59% o gymharu â 47%). Roedd rhieni hefyd yn fwy tebygol na phobl ifanc o nodi eu bod yn anfodlon (8% o gymharu â 4%). Gan edrych ar y data hwn, ymddengys fod gan rieni farn gryfach am yr amrywiaeth o gymwysterau a oedd ar gael na phobl ifanc (yn enwedig y dewis cyfyngedig o gymwysterau a'r graddau yr oeddent ar gael). Roedd diffyg cymwysterau galwedigaethol a chludiant hefyd yn peri pryder i rieni.

4 Darpariaeth Gymraeg a'r cyfleoedd


Astudiodd yr ymchwil y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn addysg i bobl ifanc 14-19 oed. Trafodwyd cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â pha mor fodlon oedd pobl ifanc a rhieni ar y ddarpariaeth a oedd ar gael.

4.1 Siaradwyr Cymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

4.1.1 Pobl ifanc 14-19 oed


O blith y rhai a oedd yn siarad Cymraeg, roedd 79% wedi cael rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd lleiafrif sylweddol - un rhan o bump (21%) o bobl ifanc 14-19 oed a oedd yn disgrifio eu hunain fel siaradwyr Cymraeg - wedi cael unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Siart 5: Cyfran y siaradwyr Cymraeg sydd wedi cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg - pobl ifanc 14-19 oed



Sylfaen: Siaradwyr Cymraeg 14-19 oed. Heb ei phwysoli 293; wedi ei phwysoli 291.

Pan ofynnwyd am gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, dywedodd tua thraen o siaradwyr Cymraeg (32%) eu bod yn ei defnyddio yn eu holl bynciau neu'r rhan fwyaf ohonynt, roedd cyfran debyg (29%) yn ei defnyddio mewn rhai pynciau ac roedd 13% arall yn ei defnyddio mewn un pwnc ar y mwyaf. Nododd tua chwarter (27%) o siaradwyr Cymraeg nad oeddent yn cael cyfle i ddefnyddio Cymraeg. Roedd pobl ifanc 17+ yn fwy tebygol o ddweud hyn na'r rhai 14-16 oed. Roedd y rhai mewn addysg orfodol yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael y cyfle i ddefnyddio Cymraeg yn eu holl bynciau neu'r rhan fwyaf ohonynt na'r rhai mewn addysg ôl-orfodol (39% o gymharu â 27%).

Siart 6: Cyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg mewn addysg - pobl ifanc 14-19 oed

Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed. Heb ei phwysoli 1000; wedi ei phwysoli 1000


4.1.2 Rhieni

Dengys Siart 7 isod fod traean (32%) o rieni pobl ifanc 14-19 oed yn dweud bod eu plentyn yn siarad Cymraeg. Fel gyda'r bobl ifanc, dywedodd rhieni pobl ifanc 14 oed fod eu plentyn yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na rhieni plant o oedrannau eraill. O blith y rhai yr oedd eu plant yn siarad Cymraeg, dywedodd 87% fod eu plentyn wedi cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd lleiafrif sylweddol o bobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg (21%) nad oeddent wedi cael unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i rieni pobl ifanc, dywedodd ychydig dros un allan o 10 (12%) nad oedd eu plentyn a oedd yn siarad Cymraeg wedi cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y rhai â phlant 15-17 oed yn fwy tebygol o ddweud nad oedd eu plentyn wedi cael unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg na'r rhai â phlant 18-19 oed (17% o gymharu ag 8%). Dywedodd chwarter (26%) y rhai â phlant a oedd yn siarad Cymraeg ac yn mynychu ysgolion Saesneg nad oedd eu plentyn wedi cael unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

O ran y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, dywedodd tua thraean o rieni siaradwyr Cymraeg (36%) fod eu plentyn yn ei defnyddio yn eu holl bynciau neu'r rhan fwyaf ohonynt, dywedodd chwarter (24%) fod eu plentyn yn ei defnyddio mewn rhai pynciau a dywedodd 12% arall fod eu plentyn yn ei defnyddio mewn un pwnc ar y mwyaf. Dywedodd ychydig dros chwarter (28%) o rieni siaradwyr Cymraeg nad oedd eu plentyn yn cael unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg. Mae'r ffigurau hyn yn debyg iawn i rai siaradwyr Cymraeg ifanc.


Roedd rhieni pobl ifanc 14 oed yn fwy tebygol na'r rhai â phlant o unrhyw oedran arall o ddweud bod eu plentyn yn defnyddio Cymraeg yn eu holl bynciau neu'r rhan fwyaf ohonynt. Roedd rhieni pobl ifanc 17-19 oed yn fwy tebygol na rhieni plant 14-16 oed o ddweud nad oedd eu plentyn yn cael cyfle i ddefnyddio sgiliau iaith Gymraeg yn ei addysg neu hyfforddiant (46% o gymharu â 25%).

Siart 7: Plentyn yn siarad Cymraeg



Sylfaen: Rhieni pobl ifanc 14-19 oed. Heb ei phwysoli 756

Siart 8: Plentyn wedi cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg



Sylfaen: Rhieni siaradwyr Cymraeg 14-19 oed. Heb ei phwysoli 243

4.2 Pwysigrwydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a boddhad â chyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg


Gofynnwyd i bobl ifanc a nododd eu bod yn siarad Cymraeg a rhieni a ddywedodd bod eu plant yn siarad Cymraeg pa mor bwysig ydoedd iddynt hwy neu eu plentyn allu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnwyd iddynt hefyd ba mor fodlon oeddent ar y cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal leol. Wedyn gofynnwyd i'r rhai a nododd nad oeddent yn fodlon roi eu rhesymau dros hynny.

4.2.1 Pobl ifanc 14-19 oed a rhieni - trosolwg

Roedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i siaradwyr Cymraeg 14-19 oed. Ar y cyfan, dywedodd 76% o'r bobl ifanc hyn ei fod naill ai'n bwysig iawn neu'n gymharol bwysig iddynt.

Roedd hefyd yn bwysig i rieni siaradwyr Cymraeg 14-19 oed y dylai eu plant allu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y cyfan, dywedodd 80% o rieni ei fod yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig iddynt. Gellir cymharu'r ganran hon â'r 76% o bobl ifanc a ddywedodd ei fod yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig. Fodd bynnag, roedd y rhieni yn llawer mwy tebygol o ddweud ei fod yn bwysig iddynt, sef 53% o gymharu â 37% i'r bobl ifanc eu hunain.

Siart 9: Pwysigrwydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg - pobl ifanc 14-19 oed




Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed sy'n siarad Cymraeg (heb ei phwysoli 293; wedi ei phwysoli 291) a rhieni pobl ifanc 14-19 oed sy'n siarad Cymraeg (heb ei phwysoli 243).

O ran cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal leol, dywedodd tua thri chwarter (78%) o bobl ifanc 14-19 oed eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n

gymharol fodlon, tra bod 12% yn anfodlon. Dywedodd pedwar allan o bump (79%) o rieni pobl ifanc 14-19 oed eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ar y cyfleoedd i'w plentyn ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal. Felly, mae cyfanswm y nifer sy'n fodlon yn unol â barn pobl ifanc ar y cyfan. Fodd bynnag, dengys y siart isod fod rhieni yn llawer mwy tebygol na phobl ifanc o ddisgrifio eu hunain yn "fodlon iawn" ar gyfleoedd (42% o gymharu â 23%).

Siart 10: Boddhad â chyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal leol



Sylfaen: Siaradwyr Cymraeg 14-19 oed (Heb ei phwysoli 293; wedi ei phwysoli 291) a rhieni siaradwyr Cymraeg 14-19 oed (heb ei phwysoli 243)

4.2.2 Rhesymau dros anfodlonrwydd

Y prif reswm a roddwyd gan y 34 o bobl ifanc a ddywedodd eu bod yn anfodlon ar eu cyfleoedd eu hunain i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg oedd na chynigiwyd cyfleoedd (20 allan o'r 34). Dywedodd niferoedd llai mai'r rheswm oedd mai dim ond mewn pynciau penodol y cynigiwyd cyfleoedd (6) neu am na chynigiwyd cyfleoedd yn ddigon agos i gartref (5). Dywedodd un mai prin oedd y cyfleoedd i siarad Cymraeg a chwynodd un mai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y cynigiwyd cyfleoedd.

Roedd y rhieni a ddywedodd eu bod yn anfodlon ar y cyfleoedd i'w plant ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn dueddol o fod yn anfodlon am na chynigiwyd cyfleoedd - nododd 16 allan o'r 31 a oedd yn anfodlon mai dyma oedd y rheswm dros fod yn anfodlon - er unwaith eto dywedodd niferoedd llai eu bod yn anfodlon am na chynigiwyd cyfleoedd yn ddigon agos i gartref (6) a dim ond mewn pynciau

penodol y cynigiwyd cyfleoedd (4). Dywedodd pedwar eu bod yn anfodlon am mai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y cynigiwyd cyfleoedd.

4.3 Crynodeb

Mae tua thraean o bobl ifanc yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Cytunodd rhieni a phobl ifanc ar hyn. Roedd rhieni plant a oedd yn siarad Cymraeg yn fwy tebygol o nodi bod eu plentyn yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg na'r bobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg (87% o gymharu â 79%). Mae'n peri pryder bod 12% o rieni wedi dweud nad oedd eu plant a oedd yn siarad Cymraeg wedi cael unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a dywedodd 21% o bobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg nad oeddent wedi cael unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn yr un modd, nid oedd ychydig dros chwarter o'r bobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg yn cael unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu dysgu presennol (a nodwyd gan 27% o'r bobl ifanc a 28% o rieni). Mae hyn yn peri rhywfaint o bryder, o ystyried bod 53% o rieni pobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg a 37% o bobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg wedi dweud ei bod yn bwysig iawn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

O ystyried boddhad â'r cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal leol, roedd pedair rhan o bump o siaradwyr Cymraeg 14-19 oed (78%) a rhieni siaradwyr Cymraeg 14-19 oed (79%) yn fodlon, er o fewn y ffigur boddhad pennawd hwn, roedd y rhieni yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn fodlon iawn na'r bobl ifanc eu hunain. Serch hynny, dywedodd 13% o rieni siaradwyr Cymraeg 14-19 oed a 12% o bobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg eu bod yn anfodlon, ac mae'r rhain yn lleiafrifoedd sylweddol. Y prif reswm dros yr anfodlonrwydd ymhlith rhieni a phobl ifanc oedd y teimlad nad oedd cyfleoedd addas ar gael.

5 Ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth a nodweddion y dysgu sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed

Mae'r bennod hon yn trafod y cyfleoedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth y mae rhieni a phobl ifanc yn ymwybodol ohonynt, yn ogystal â nodweddion penodol y ddarpariaeth ddysgu sydd bellach ar gael i bobl ifanc 14-19 oed.


5.1 Ymwybyddiaeth o ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth

Yn yr arolwg meintiol, gofynnwyd i ymatebwyr pa fathau o ddysgu y gallent feddwl amdano a oedd yn digwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac yn helpu i ddatblygu sgiliau pobl ifanc 14-19 oed. Ni roddwyd unrhyw awgrymiadau i'r cwestiwn hwn.

5.1.1 Pobl ifanc 14-19 oed

Fel y gellir gweld yn y siart isod, ni allai traean (34%) o bobl ifanc feddwl am unrhyw enghreifftiau o ddysgu o'r fath. Y mathau o ddysgu nad ydynt yn digwydd yn yr ystafell ddosbarth yr oeddent fwyaf cyfarwydd â hwy oedd profiad gwaith a chyfrannu at y gymuned/gwaith gwirfoddol - crybwyllwyd y rhain gan ychydig o dan un rhan o bump o bobl ifanc (18%) - a ddilynwyd gan ddysgu mewn swydd neu ddysgu seiliedig ar waith (14%) a phrosiectau ymchwil annibynnol neu astudiaethau annibynnol (11%).

Siart 11: Ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth - pobl ifanc 14-19 oed



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed. Heb ei phwysoli 1000; wedi ei phwysoli 1000. Dangosir ymatebion 2% neu'n uwch


- Roedd merched yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o brofiad gwaith na bechgyn (21% o gymharu ag 16%). Daeth mwy o wahaniaethau i'r amlwg wrth edrych ar draws categorïau oedran. Ar y cyfan, po ifancaf yr ymatebwr, y lleiaf tebygol yr oedd o allu meddwl am unrhyw enghreifftiau o ddysgu nad yw'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth a oedd yn datblygu sgiliau, ac roedd ymatebwyr iau yn arbennig yn llai ymwybodol o brofiad gwaith a dysgu mewn swydd. ô

5.1.2 Rhieni

Ar y cyfan roedd rhieni yn fwy ymwybodol o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a gwelwyd hyn yn y gyfran lawer llai a ddywedodd na allent feddwl am unrhyw enghreifftiau. Fodd bynnag, roedd yr enghreifftiau yr oeddent fwyaf ymwybodol ohonynt yn union yr un peth â rhai pobl ifanc 14-19 oed eu hunain - profiad gwaith a gwaith gwirfoddol, a ddilynwyd gan ddysgu mewn swydd a phrosiectau ymchwil annibynnol. Soniodd tua thri allan o 10 o rieni pobl ifanc 14-19

oed am brofiad gwaith a soniodd cyfran debyg (27%) am gyfrannu at y gymuned neu waith gwirfoddol.

Siart 12: Ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth - Rhieni



Sylfaen: Rhieni pobl ifanc 14-19 oed. Heb ei phwysoli 756. Dangosir ymatebion 2% neu'n uwch

5.2 Ymwybyddiaeth o nodweddion newydd darpariaeth ddysgu

Gofynnwyd cwestiynau penodol i bobl ifanc 14-19 oed a rhieni am amrywiaeth o nodweddion newydd o ran y ddarpariaeth i bobl ifanc 14-19 oed. Ar gyfer pob nodwedd rhoddwyd diffiniad iddynt ac enwau eraill, gan nad yw pob darparwr yn defnyddio'r un derminoleg â Chynulliad Cymru. Wedyn gofynnwyd i bobl ifanc a rhieni a oeddent yn gyfarwydd â'r nodwedd honno, a oedd yn cael ei chynnig i'r plentyn ar hyn o bryd; ac os oedd yn cael ei chynnig, pa mor fodlon oeddent arni.


5.2.1 Ymwybyddiaeth o dermau addysg a hyfforddiant - pobl ifanc 14-19 oed a rhieni

Y term yr oedd pobl ifanc fwyaf cyfarwydd ag ef oedd "cyngor ac arweiniad ar yrfaedd", yr oedd naw allan o ddeg (91%) wedi clywed amdano. Nid yw hyn yn syndod oherwydd mae'r nodwedd hon o'r Llwybrau Dysgu wedi bod yn bresennol am gyfnod hir a dyma'r term a ddefnyddiwyd bob amser, neu enw tebyg. Dywedodd cyfrannau llawer llai eu bod wedi clywed am y termau "cymorth personol" (41%), "craidd dysgu" (31%), "mwy o ddewis a hyblygrwydd" (23%), "llwybr dysgu" (22%); y term yr oeddent leiaf tebygol o fod wedi clywed amdano oedd "anogwr dysgu" a dim ond 17% a honnodd eu bod yn ei adnabod.

Fel y gellir gweld yn y siart isod, y term yr oedd rhieni fwyaf tebygol o fod wedi clywed amdano oedd "cyngor ac arweiniad ar yrfaedd" (95%) lle'r oedd y lefel o ymwybyddiaeth yn debyg iawn i bobl ifanc 14-19 oed. Ar wahân i'r term hwn, y rhai yr oedd rhieni fwyaf tebygol o'u hadnabod oedd "llwybr dysgu" (37%) a "chymorth personol" (31%).

Roedd ymwybyddiaeth rhieni ychydig yn wahanol i ymwybyddiaeth pobl ifanc. Roedd pobl ifanc yn fwy ymwybodol o "gymorth personol" (41% o gymharu â 31% o rieni) a'r "craidd dysgu" (31% o gymharu â 25%). Roedd pobl ifanc hefyd yn llawer mwy ymwybodol o "fwy o ddewis a hyblygrwydd" (23% o gymharu â 14%). Fodd bynnag, rhieni oedd fwyaf tebygol o honni eu bod yn ymwybodol o'r term "llwybr dysgu" (37% o gymharu â 22%).

Siart 13: Ymwybyddiaeth o dermau addysg a hyfforddiant - pobl ifanc a rhieni



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed (Heb ei phwysoli 1000; wedi ei phwysoli 1000) a rhieni pobl ifanc 14-19 oed (heb ei phwysoli 756).

Wrth edrych ar ba dermau yr oedd y bobl ifanc wedi clywed amdanynt yn ôl cyfnod addysgol, daeth dau wahaniaeth i'r amlwg. Roedd y rhai mewn addysg ôl-orfodol yn fwy tebygol o fod wedi clywed am y llwybr dysgu na'r rhai mewn addysg orfodol (24% o gymharu â 18%) ac roedd y rhai mewn addysg orfodol yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr anogwr dysgu na'r rhai mewn addysg ôl-orfodol (21% o gymharu â 14%).

5.3 Ymwybyddiaeth o dermau addysg a hyfforddiant ar ôl rhoi diffiniadau

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr, gan ddechrau gyda'u hymwybyddiaeth, ar ôl cael diffiniad o'r holl dermau a gynhwysir yn adran 6.2. Dangosir y diffiniadau a roddwyd i ymatebwyr yn y tabl isod:


Tabl 1: Diffiniadau o'r termau addysg a hyfforddiant a roddwyd i ymatebwyr

Term	Diffiniad a roddwyd i ymatebwyr
Y Llwybr Dysgu Unigol	Y cyfle i ddewis eich cymysgedd eich hun o ddysgu, sy'n gweddu i'ch diddordebau, eich gallu a'ch dewis ffordd o ddysgu. Er enghraifft, gallai fod yn gymysgedd o ddysgu ffurfiol megis TGAU, NVQ, Safon Uwch, dysgu anffurfiol megis Cynllun Gwobr Dug Caeredin, tystysgrifau Cymorth Cyntaf/Hylendid Bwyd ac ati, a dysgu anffurfiol megis bod yn aelod o glwb chwaraeon neu glwb cymdeithasol, gwarchod plant, profiad sy'n canolbwyntio ar waith, neu waith rhan-amser. Weithiau fe'i gelwir yn gynllunio camau gweithredu unigol.
Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd	Cael cynnig ystod eang o opsiynau perthnasol ynghyd â mwy o hyblygrwydd o ran pa mor gyflym y mae dysgwyr yn cwblhau'r opsiynau. Er enghraifft, gall dysgwyr wneud cymysgedd o astudiaethau cymhwysol yn ogystal â chysiau academiaidd. Gallant hefyd wneud gwyddoniaeth sengl neu fathemateg os yw hynny'n fwy addas iddynt. Weithiau fe'i gelwir yn opsiynau.
Y Craidd Dysgu	Pynciau craidd yn ogystal ag elfennau ychwanegol megis sgiliau iaith Gymraeg a sgiliau eraill sy'n berthnasol i'r gweithle, cyngor ar yrfaedd a dealltwriaeth o Gymru, Ewrop a'r byd. Ymhlith y profiadau cyffredin mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith, gweithgareddau gwirfoddol ac addysg gorfforol. Nid dim ond dysgu ffurfiol megis TGAU y mae'r craidd dysgu yn ei gynnwys. Mae hefyd yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu eich agweddau a'ch gwerthoedd a gweithgareddau gwirfoddol.
Yr Anogwr Dysgu	Rhywun (neu weithiau dîm o bobl) sy'n helpu'r dysgwr i nodi'r hyn yr hoffai ei ddysgu ac i ddatblygu ei lwybr dysgu ei hun, mewn ffordd sy'n cynnig y cyfle gorau i'r unigolyn ddysgu. Hynny yw, bydd yr anogwr dysgu yn helpu'r dysgwr i benderfynu pa opsiynau sydd orau iddo. Weithiau fe'i gelwir yn Diwtor Personol.
Cymorth Personol	Helpu pobl ifanc i ddatblygu eu hatebion eu hunain i broblemau personol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Mae cymorth personol yn gyfle i bobl ifanc sy'n wynebu anawsterau i siarad yn gyfrinachol. Gall cynghorwyr gynnig cymorth a chyfeirio pobl ifanc at arbenigwyr eraill os oes angen. Weithiau fe'i gelwir yn Gynghorwyr Arweiniad.
Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaedd	Rhoi gwybodaeth a chyngor arbenigol i ddysgwyr ar yr ystod eang o opsiynau gyrfa ac opsiynau dysgu sydd ar gael. Er enghraifft, bydd cynghorwr gyrfaedd yn helpu dysgwyr i ennill y cymwysterau cywir ac i gael y profiad cywir i'w helpu i sicrhau'r dyfodol a'r yrfa maent am eu cael. Weithiau fe'i gelwir yn Gynghorwyr Gyrfaedd.

Pan roddwyd y diffiniadau hyn i bobl ifanc a rhieni yn yr arolwg, roedd y ganran a oedd yn gyfarwydd â'r nodweddion hyn o'r ddarpariaeth ddysgu i bobl ifanc 14-19

oed yn llawer uwch, ac roedd pobl ifanc yn gyson yn honni eu bod yn fwy cyfarwydd â hwy na rhieni, ac eithrio "cyngor ac arweiniad ar yrfaedd", yr oedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr wedi honni eu bod yn gyfarwydd ag ef cyn cael diffiniad. Honnodd tua dwy ran o dair o bobl ifanc 14-19 oed (rhwng 63% a 71%) a rhwng dwy ran o bump a hanner o'r rhieni (43%-50%) eu bod yn gyfarwydd â phob nodwedd, ac eithrio "cyngor ac arweiniad ar yrfaedd".

Siart 14: A oeddent yn gyfarwydd â nodweddion y ddarpariaeth i bobl ifanc 14-19 oed ar ôl rhoi diffiniadau



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed (heb ei phwysoli: 1000; wedi ei phwysoli: 1000) a'r rhieni (heb ei phwysoli: 756)

5.3.1 Llwybr dysgu unigol - pobl ifanc 14-19 oed

Roedd dwy ran o dair (68%) o bobl ifanc yn gyfarwydd â'r llwybr dysgu unigol. Newidiodd hyn yn sylweddol pan ofynnwyd iddynt a oedd ganddynt lwybr dysgu unigol. Dim ond traean (35%) a ddywedodd fod ganddynt un, gyda 58% yn dweud nad oedd ganddynt un ac 8% yn dweud nad oeddent yn gwybod. Roedd pobl ifanc 15-19 oed yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt lwybr dysgu unigol na phobl ifanc 14 oed. Wrth ystyried y cyfnod addysgol, roedd y rhai mewn addysg ôl-orfodol yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt lwybr dysgu na'r rhai mewn addysg orfodol (40% o gymharu â 31%).

Gofynnwyd i'r rhai â llwybr dysgu unigol pa mor fodlon oeddent arno. Dywedodd bron hanner (45%) eu bod yn fodlon iawn a dywedodd hanner (50%) eu bod yn gymharol fodlon. Ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn anfodlon iawn, a dim ond 1% a ddywedodd eu bod yn gymharol anfodlon.


5.3.2 Rhieni

Roedd hanner y rhieni (50%) yn gyfarwydd â'r llwybr dysgu unigol, a dywedodd hanner (49%) nad oeddent. Mae'r ganran hon yn llawer is na'r 68% o bobl ifanc a oedd wedi clywed am y llwybr dysgu unigol. Pan ofynnwyd a oedd gan eu plentyn lwybr dysgu unigol, dywedodd tua thri allan o ddeg o rieni (31%) fod ganddynt un, dywedodd ychydig dros hanner (56%) nad oedd ganddynt un a dywedodd lleiafrif sylweddol (13%) nad oeddent yn gwybod. Mae'r ffigurau hyn yn debyg iawn i rai pobl ifanc. Dengys hyn nad yw nifer fawr o rieni a phobl ifanc yn ymwybodol o'r elfen llwybr dysgu unigol o'r ddarpariaeth i bobl ifanc 14-19 oed o hyd. Gallai'r rhesymau dros hyn gynnwys y ffaith nad yw wedi cael ei gyflwyno yn ysgol eu plentyn eto neu nad yw wedi cael ei egluro iddynt.

Roedd rhieni plant mewn addysg orfodol yn fwy tebygol o ddweud nad oedd gan eu plentyn lwybr dysgu unigol na'r rhai mewn addysg ôl-orfodol (59% o gymharu â 49%). Unwaith eto mae hyn yn debyg i farn pobl ifanc.

Gofynnwyd i'r 31% o rieni plant â llwybr dysgu unigol pa mor fodlon oeddent ar hyn. Cofnodwyd lefelau uchel o foddhad, fel y gwelir yn y siart isod. Er mai dim ond 3% a nododd ryw fath o anfodlonrwydd, dywedodd dros hanner (53%) eu bod yn gymharol fodlon. Efallai pe byddai rhieni yn cael eu hysbysu'n well ac yn cael mwy o wybodaeth am y llwybr dysgu byddent yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn "fodlon iawn" yn hytrach na'n "gymharol fodlon"

Siart 15: Boddhad â'r llwybr dysgu unigol - pobl ifanc a rhieni



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed â llwybr dysgu unigol (345) a rhieni pobl ifanc 14-19 oed â llwybr dysgu unigol (233)

5.4 Mwy o ddewis a hyblygrwydd

5.4.1 Pobl ifanc 14-19 oed

Dywedodd bron dwy ran o dair (63%) o bobl ifanc eu bod yn gyfarwydd â mwy o ddewis a hyblygrwydd. Roedd pobl ifanc 14 oed (73%) yn fwy cyfarwydd â'r agwedd hon na phobl ifanc 16 oed (62%) neu 17-19 oed (59%). Dywedodd hanner y bobl ifanc 14-19 oed (55%) fod ganddynt fwy o ddewis a hyblygrwydd a dywedodd 40% nad oedd ganddynt hynny. Unwaith eto, roedd pobl ifanc 14 oed (65%) yn fwy tebygol o ddweud hyn na phobl ifanc 17-19 oed (48%). Yn yr un modd, roedd y rhai mewn addysg orfodol (68%) yn fwy ymwybodol o fwy o ddewis a hyblygrwydd na'r rhai mewn addysg ôl-orfodol (62%) ac yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt fwy o ddewis a hyblygrwydd na'r rhai mewn addysg ôl-orfodol (62% o gymharu â 52%).


Dywedodd traean (34%) o bobl ifanc eu bod yn fodlon iawn ar y ffaith bod mwy o ddewis a hyblygrwydd yn cael eu cynnig iddynt, a dywedodd 59% arall eu bod yn gymharol fodlon. Dim ond 4% a nododd unrhyw anfodlonrwydd.

5.4.2 Rhieni

Dywedodd hanner y rhieni eu bod yn gyfarwydd â mwy o ddewis a hyblygrwydd (52%). Roedd rhieni pobl ifanc 14 oed yn fwy tebygol na rhieni pobl ifanc 17-19 oed o ddweud eu bod yn gyfarwydd â hyn.

Dywedodd hanner y rhieni (48%) fod gan eu plentyn fwy o ddewis a hyblygrwydd, dywedodd 42% nad oedd ganddo hyn, a dywedodd un allan o ddeg (11%) nad oeddent yn gwybod. Gellir cymharu hyn â'r 55% o bobl ifanc a ddywedodd fod ganddynt fwy o ddewis a hyblygrwydd a'r 40% a ddywedodd nad oedd ganddynt hynny. Roedd rhieni pobl ifanc 14 ac 16 oed yn fwy tebygol na rhieni pobl ifanc 17-19 oed o ddweud bod gan eu plentyn fwy o ddewis a hyblygrwydd. Roedd rhieni plant mewn addysg orfodol yn fwy tebygol o ddweud bod gan eu plentyn fwy o ddewis a hyblygrwydd na'r rhai â phlant mewn addysg ôl-orfodol (53% o gymharu â 45%).

Dengys y siart isod lefelau boddhad â mwy o ddewis a hyblygrwydd ymhlith pobl ifanc a oedd o'r farn bod ganddynt fwy o ddewis a hyblygrwydd ac ymhlith rhieni a oedd o'r farn bod gan eu plant hynny. Dywedodd tua thraean (35%) o'r rhieni hyn eu bod yn fodlon iawn a dim ond 5% a nododd anfodlonrwydd. Fodd bynnag, fel gyda'r llwybr dysgu, dim ond yn gymharol fodlon yr oedd hanner (53%). Gallai'r lefel o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni o union ystyr mwy o ddewis a hyblygrwydd fod yn rheswm dros hyn. Dangosodd yr ymchwil ansoddol ei fod, i rai rhieni o leiaf, yn golygu eu bod yn credu y dylai eu plentyn allu astudio mwy o ieithoedd tramor (er enghraifft) na'r rhai a oedd yn cael eu haddysgu yn yr ysgol.

Siart 16: Boddhad â mwy o ddewis a hyblygrwydd - pobl ifanc

Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed sydd â mwy o ddewis a hyblygrwydd (heb ei phwysoli 550 a 546) a rhieni pobl ifanc 14-19 oed sydd â mwy o ddewis a hyblygrwydd (heb ei phwysoli 360)

5.5 Y craidd dysgu**5.5.1 Pobl ifanc 14-19 oed**

Dywedodd dwy ran o dair (63%) o bobl ifanc eu bod yn gyfarwydd â'r craidd dysgu. Dywedodd dwy ran o bump (40%) o bobl ifanc fod ganddynt graidd dysgu, dywedodd hanner (51%) nad oedd ganddynt hynny a dywedodd un allan o ddeg (9%) nad oeddent yn gwybod. Roedd lleiafrif sylweddol nad oeddent yn ymwybodol o'r elfennau o'r rhaglen ddysgu yr oeddent yn eu dilyn. Roedd y rhai mewn addysg orfodol yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt graidd dysgu na'r rhai mewn addysg ôl-orfodol (45% o gymharu â 38%).


O'r rhai a oedd yn ymwybodol bod ganddynt graidd dysgu, roedd tri allan o ddeg (29%) yn fodlon iawn arno ac roedd 62% yn gymharol fodlon; roedd 3% yn anfodlon.

5.5.2 Rhieni

Dywedodd ychydig o dan hanner (45%) y rhieni eu bod yn gyfarwydd â'r craidd dysgu. Roedd rhieni pobl ifanc 15 oed yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gyfarwydd â'r craidd dysgu na'r rhai â phlant 14 neu 16 oed. Roedd tua thraean (35%) o rieni yn ymwybodol bod gan eu plentyn graidd dysgu. Dywedodd hanner (51%) nad oedd un ganddynt, ac unwaith eto, dywedodd lleiafrif sylweddol (13%) nad oeddent yn gwybod. Roedd rhieni pobl ifanc 14 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ymwybodol na rhieni pobl ifanc 17-19 oed.

Yn galonogol, o blith y traean o rieni a nododd fod gan eu plant graidd dysgu, dywedodd 42% eu bod yn fodlon iawn a dywedodd 46% eu bod yn gymharol fodlon (a'r sgôr ar gyfer bodlon iawn oedd yr uchaf o blith yr holl raddau ar gyfer nodweddion llwybrau dysgu).

Siart 17: Boddhad â'r craidd dysgu - pobl ifanc a rhieni



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed â chraidd dysgu (heb ei phwysoli 406 a 401) a rhieni pobl ifanc 14-19 oed â chraidd dysgu (heb ei phwysoli 267)

5.6 Yr anogwr dysgu

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i ymatebwyr am yr anogwr dysgu, a oedd yn ymwneud â'r mathau o help yr oeddent wedi ei gael ganddo.

5.6.1 Pobl ifanc 14-19 oed


Roedd dwy ran o dair (66%) o bobl ifanc yn gyfarwydd â'r anogwr dysgu. Roedd pobl ifanc 17-19 oed yn fwy cyfarwydd â'r anogwr dysgu na phobl ifanc 16 oed. Roedd gan draean o bobl ifanc (34%) anogwr dysgu. Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud bod ganddynt anogwr dysgu (37% o gymharu â 31%) ond roedd pobl ifanc 16 oed yn llai tebygol na phobl ifanc 17-19 oed o fod ag un. Roedd y rhai mewn addysg ôl-orfodol yn fwy tebygol o fod ag anogwr dysgu na'r rhai mewn addysg orfodol (42% o gymharu â 29%).

Roedd bron hanner y bobl ifanc (47%) yn fodlon iawn ar eu hanogwr dysgu. Dywedodd dwy ran o bump (43%) eu bod yn gymharol fodlon a dim ond 5% a ddywedodd eu bod yn anfodlon.

Dengys y siart isod fanteision anogwr dysgu i bobl ifanc. Dywedodd wyth allan o ddeg neu fwy o'r rhai ag anogwr dysgu fod yr anogwr dysgu wedi eu gwneud yn fwy

ymwybodol o'r opsiynau a oedd ar gael, wedi eu helpu i deimlo'n hyderus ynghylch eu dewisiadau ac wedi eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg.

Siart 18: Y mathau o help a gafwyd gan yr anogwr dysgu - pobl ifanc



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed a oedd yn credu bod ganddynt anogwr dysgu. Heb ei phwysoli 339; wedi ei phwysoli 339. Ddim yn gwybod heb ei ddangos

5.6.2 Rhieni


Dywedodd dwy ran o bump (43%) o rieni eu bod yn gyfarwydd â'r anogwr dysgu. Mae'r ganran hon yn llawer is na'r ganran ymhlith y bobl ifanc (lle'r oedd 66% yn gyfarwydd). Roedd rhieni pobl ifanc 17-19 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gyfarwydd ag ef na rhieni pobl ifanc 14 oed.

Dim ond chwarter (26%) y rhieni a ddywedodd fod gan eu plentyn anogwr dysgu. Dim ond ychydig dros dwy ran o dair (68%) a ddywedodd nad oedd ganddynt un a dim ond 6% a ddywedodd nad oeddent yn gwybod. Mae'r ganran hon ychydig yn is na'r traean (34%) o bobl ifanc a ddywedodd fod ganddynt anogwr dysgu. Unwaith eto, rhieni pobl ifanc 14 oed oedd yn gwybod y lleiaf am anogwyr dysgu, gyda thri chwarter (75%) yn dweud nad oedd gan eu plentyn un.

Roedd tua dwy ran o bump (41%) o rieni yn fodlon iawn ar yr anogwr dysgu. Dywedodd canran debyg (44%) eu bod yn gymharol fodlon. Fodd bynnag,


dywedodd 7% eu bod yn anfodlon mewn rhyw ffordd neu'i gilydd (sydd yn fras yn unol â lefelau boddhad pobl ifanc).

Siart 19: Boddhad â'r anogwr dysgu - pobl ifanc a rhieni



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed sydd ag anogwr dysgu (heb ei phwysoli 339, wedi ei phwysoli 339) a rhieni pobl ifanc 14-19 oed sydd ag anogwr dysgu (heb ei phwysoli 196)

Fel y gellir gweld yn y siart isod, roedd rhieni plant ag anogwr dysgu o'r farn bod eu profiadau yn gadarnhaol. Dywedodd tua thri chwarter fod yr anogwr dysgu wedi helpu eu plentyn i wneud penderfyniadau hyddysg, i deimlo'n hyderus o ran ei ddewisiadau ac i'w wneud yn fwy ymwybodol o'r opsiynau a oedd ar gael. Roedd rhieni bechgyn yn fwy tebygol o ddweud bod yr anogwr dysgu wedi helpu eu meibion i ddewis y dulliau dysgu gorau ac i deimlo'n hyderus o ran eu dewisiadau.

Siart 20: Y mathau o help a gafodd y plentyn gan yr anogwr dysgu - Rhieni

Sylfaen: Rhieni pobl ifanc 14-19 oed a oedd yn credu bod gan eu plentyn anogwr dysgu. Heb ei phwysoli 196. Ddim yn gwybod heb ei ddangos

5.7 Cymorth personol**5.7.1 Pobl ifanc 14-19 oed**

Dyweddodd saith allan o ddeg o bobl ifanc (71%) eu bod yn gyfarwydd â chymorth personol. Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod yn gyfarwydd â chymorth personol. Dywedodd hanner y bobl ifanc (49%) eu bod yn cael cymorth personol yn yr ysgol neu'r coleg.

5.7.2 Rhieni

Roedd hanner (50%) y rhieni yn ymwybodol o gymorth personol. Dywedodd traean o rieni (35%) fod eu plentyn yn cael cymorth personol yn yr ysgol neu'r coleg, dywedodd hanner (52%) nad oeddent ac nid oedd lleiafrif sylweddol (13%) yn gwybod.

5.8 Cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd**5.8.1 Pobl ifanc 14-19 oed**

Roedd bron (95%) yr holl bobl ifanc 14-19 oed yn gyfarwydd â chyngor ac arweiniad ar yrfaeodd. Dim ond 5% a ddywedodd nad oeddent yn gyfarwydd â hyn. Dywedodd

y mwyafrif o ddysgwyr (86%) eu bod yn cael cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd yn eu hysgol neu goleg. Fodd bynnag, dywedodd lleiafrif sylweddol (13%) nad oeddent. Roedd merched ychydig yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod yn cael cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd. Roedd pobl ifanc 14 oed yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn eu cael na phobl ifanc 15, 16 neu 17 oed.


Pan ofynnwyd am eu boddhad â chyngor ac arweiniad ar yrfaeodd, dywedodd bron hanner y rhai a oedd yn eu cael (47%) eu bod yn fodlon arnynt. Dywedodd dwy ran o bump (39%) eu bod yn gymharol fodlon a nododd 8% anfodlonrwydd.

Roedd merched yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn anfodlon na bechgyn (10% o gymharu â 5%), ac roedd pobl ifanc 16 oed yn fwy bodlon ar y cyfan na phobl ifanc 17-19 oed.

5.8.2 Rhieni

Roedd rhieni yn fwy cyfarwydd â chyngor ac arweiniad ar yrfaeodd nag unrhyw agwedd arall ar y rhaglen llwybrau dysgu. Y rheswm dros hyn yw ei fod yn derm a ddefnyddiwyd yn helaeth yn y gorffennol. Dywedodd bron pawb (95%) eu bod yn gyfarwydd â chyngor ac arweiniad ar yrfaeodd a dim ond 4% a ddywedodd nad oeddent. Mae'r rhain yr un fath ag ymatebion pobl ifanc. Unwaith eto, dywedodd y mwyafrif o rieni fod eu plentyn wedi cael cynnig cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd (86%) a dywedodd 10% nad oeddent. Roedd hyn yn adlewyrchu canfyddiadau pobl ifanc. Roedd rhieni pobl ifanc 14 oed yn fwy tebygol na rhieni pobl ifanc 15 oed o ddweud nad oeddent yn cael cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd (14% o gymharu â 7%).

Efallai mai'r rheswm y gwnaeth rhieni nodi mwy o anfodlonrwydd â chyngor ac arweiniad ar yrfaeodd nag ag elfennau eraill o'r rhaglen llwybrau dysgu oedd am eu bod yn fwy ymwybodol o'r elfen hon. Nododd 15% ryw fath o anfodlonrwydd tra dywedodd ychydig o dan draean (31%) eu bod yn fodlon iawn a dywedodd dwy ran o bump (42%) eu bod yn gymharol fodlon. Roedd lefelau boddhad pobl ifanc yn uwch, gyda 47% yn dweud eu bod yn fodlon iawn a 39% yn dweud eu bod yn gymharol fodlon. Nododd cyfran is (er bod y ffigur yn dal i fod yn uchel sef 8%) anfodlonrwydd.

Siart 21: Boddhad â chyngor ac arweiniad ar yrfaedd - rhieni

Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed sy'n cael cyngor ac arweiniad ar yrfaedd (heb ei phwysoli 866, wedi ei phwysoli 861) a rhieni pobl ifanc 14-19 oed sy'n cael cyngor ac arweiniad ar yrfaedd (heb ei phwysoli 652).

Roedd rhieni pobl ifanc 16 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn fodlon iawn na rhieni pobl ifanc 14 oed neu 17-19 oed. Roedd rhieni plant a oedd yn mynychu ysgolion Cymraeg yn debygol iawn o fod yn fodlon â chyngor ac arweiniad ar yrfaedd sef 87%.

5.9 Crynodeb

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr enwi mathau o ddysgu a oedd yn digwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth, roedd y rhieni yn gallu enwi llawer mwy o fathau o ddysgu na phobl ifanc. Dywedodd traean (34%) o bobl ifanc nad oeddent yn gwybod unrhyw rai, o gymharu â 18% o rieni. Er i fwy o rieni nodi mwy o gyfleoedd dysgu, roedd trefn yr ymatebion yr un peth i rieni a phobl ifanc. Profiad gwaith oedd y prif ateb (18% o bobl ifanc a 29% o rieni) wedi'i ddilyn gan gyfrannu at y gymuned/gweithgareddau gwirfoddol (18% o bobl ifanc a 27% o rieni). Roedd pobl ifanc 14 oed yn gwybod llai am gyfleoedd dysgu na dysgwyr hŷn.

Pan ddarllenwyd rhestr o nodweddion darpariaeth ddysgu i bobl ifanc 14-19 oed gan ofyn pa rai yr oeddent wedi clywed amdanynt, roedd bron pawb (95% o rieni a 91% o bobl ifanc) wedi clywed am gyngor ac arweiniad ar yrfaedd. Roedd ymwybyddiaeth o nodweddion eraill yn llawer is, fodd bynnag, ac roedd 41% o bobl ifanc a 31% o rieni wedi clywed am gymorth personol. Dim ond 14% o rieni a oedd wedi clywed am fwy o ddewis a hyblygrwydd (a 23% o bobl ifanc) ac roedd 15% o rieni wedi clywed am yr anogwr dysgu (17% o bobl ifanc). Mae'n eithaf amlwg mai

ymwybyddiaeth o'r nodweddion sy'n newydd sydd isaf ymhlith rhieni a phobl ifanc. Efallai na weithredwyd y nodweddion hyn yn yr ysgolion a'r colegau, neu efallai y'u gweithredwyd gan ddefnyddio terminoleg wahanol, felly roedd ymwybyddiaeth o'r enw ei hun yn isel.


Dengys Siart 22 ymwybyddiaeth pobl ifanc cyn ac ar ôl darllen y diffiniad iddynt, yn ogystal â faint o bobl ifanc a oedd yn derbyn pob elfen. Mae'n amlwg, pan ofynnwyd iddynt heb roi awgrymiadau, fod llai o bobl yn ymwybodol o bob elfen na'r nifer a oedd yn ei derbyn mewn gwirionedd. Cynyddodd y gydnabyddiaeth ar ôl rhoi diffiniad rhwng 30 a 49 pwynt canran ar gyfer yr holl elfennau heblaw am gyngor ac arweiniad ar yrfaedd, lle'r oedd y gydnabyddiaeth eisoes yn uchel a'r term yn hysbys iawn.

Dengys Siart 23 ganlyniadau tebyg i rieni. Ar ôl clywed y diffiniad, cynyddodd yr ymwybyddiaeth rhwng 13 a 38 pwynt canran ar gyfer yr holl elfennau heblaw am gyngor ac arweiniad ar yrfaedd, yr oedd rhieni, fel pobl ifanc, yn ymwybodol ohoni eisoes.

Wrth gymharu'r gwahaniaethau rhwng rhieni a phobl ifanc, roedd ymwybyddiaeth pobl ifanc, heb awgrymiadau, o'r holl nodweddion heblaw am gyngor ac arweiniad ar yrfaedd yn uwch na rhieni. Ar ôl darllen y diffiniad iddynt, roedd y bobl ifanc yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn ymwybodol o bopeth heblaw am gyngor ac arweiniad ar yrfaedd. Roedd ymwybyddiaeth honedig pobl ifanc rhwng 11 a 23 pwynt canran yn uwch ar gyfer pob nodwedd. Yn olaf, wrth gymharu cyfrannau'r bobl ifanc a ddywedodd bod ganddynt yr holl nodweddion â chyfrannau'r rhieni a ddywedodd bod gan eu plant yr holl nodweddion, unwaith eto, heblaw am gyngor ac arweiniad ar yrfaedd, roedd y ffigurau ar gyfer y bobl ifanc yn gyson uwch. Mae'n bosibl nad yw pobl ifanc yn rhoi rhai o fanylion yr hyn maent yn ei wneud yn yr ysgol neu'r coleg i'w rhieni. Gallai hefyd ddynodi diffyg cyfathrebu rhwng yr ysgol/coleg a rhieni.


Y brif neges o'r ymchwil hon yw nad yw'r derminoleg a ddefnyddir ar gyfer nodweddion y cynllun gweithredu yn gyson rhwng ysgolion a cholegau ac felly nis cydnabyddir gan lawer o bobl ifanc a rhieni. Unwaith y gwnaed ymatebwyr yn ymwybodol o ddiffiniad pob nodwedd, roeddent yn dueddol o ddangos mwy o gydnabyddiaeth. Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc a rhieni yng Nghymru, ac er mwyn helpu i fesur ymwybyddiaeth yn gywir, byddai'n ddefnyddiol pe byddai nodweddion llwybrau dysgu yn cael eu labelu'n gyson gan ddarparwyr dros gyfnod o amser (mae cydnabod cyngor ac arweiniad ar yrfaedd cyn ac ar ôl rhoi awgrymiadau yn cefnogi hyn).

Siart 22: Ymwybyddiaeth o nodweddion darpariaeth ddysgu cyn ac ar ôl darllen diffiniad allan a chyfran yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol bod ganddynt bob nodwedd - pobl ifanc




Sylfaen: Pobl ifanc. Sylfaen heb ei phwysoli 1000; wedi ei phwysoli 1000. Ddim yn gwybod heb ei ddangos

Siart 23: Ymwybyddiaeth o nodweddion darpariaeth ddysgu cyn ac ar ôl darllen diffiniad allan a chyfran yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol bod gan eu plentyn bob nodwedd - rhieni



Sylfaen: Pob rhiant. Sylfaen heb ei phwysoli 756. Ddim yn gwybod heb ei ddangos

Dengys Siart 24 isod bob nodwedd a gwmpesir yn yr ymchwil hon ynghyd â'r sgorau boddhad cymedr a roddwyd gan bobl ifanc a oedd yn ymwybodol bod ganddynt gyfle i gael budd o'r nodwedd a rhieni a oedd yn ymwybodol bod gan eu plentyn gyfle i gael budd o'r nodwedd (gan amrywio o +2 i -2). Fel y gellir gweld, roedd pobl ifanc fwyaf bodlon ar y llwybr dysgu unigol, ac wedyn yr anogwr dysgu. Roeddent leiaf bodlon ar y craidd dysgu, ond ar y cyfan, roedd y sgorau boddhad ar gyfer yr holl nodweddion yn gymharol uchel. Roedd y patrwm ychydig yn wahanol i'r rhieni, a oedd fwyaf bodlon ar y craidd dysgu, ac wedyn y llwybr dysgu unigol. Roeddent leiaf bodlon ar gyngor ac arweiniad ar yrfaoedd, lle'r oedd y sgôr yn isel iawn. Hon oedd yr elfen yr oedd y rhan fwyaf o rieni yn gwybod amdani, felly efallai eu bod yn teimlo y gallent feirniadu'r hyn a gynigiwyd yn fwy. Mae hefyd yn werth nodi mai yn ddiweddar y cyflwynwyd y nodweddion eraill, felly nid oedd gan bobl ifanc na rhieni unrhyw beth i'w cymharu ag ef.

Siart 24: Boddhad â nodweddion darpariaeth ddysgu - pobl ifanc a rhieni

Nodyn: Mae'r sgôr cymedr rhwng +2 (bodlon iawn) a -2 (anfodlon iawn). Mae'r sylfaen yn amrywio (mae'r sgôr boddhad yn seiliedig ar y rhai a ddywedodd bod ganddynt/bod gan eu plentyn bob nodwedd).

6 Dyheadau

Roedd yr astudiaeth ymchwil yn cwmpasu dyheadau rhieni a phobl ifanc ar gyfer addysg 14-19 yng Nghymru.

6.1 Pwysigrwydd dyheadau


Darllenwyd deg dyhead posibl i ymatebwyr o ran dyfodol dysgu yng Nghymru a gofynnwyd pa mor bwysig oedd pob un iddynt yn bersonol.

6.1.1 Pobl ifanc 14-19 oed

Dengys Siart 25 isod y graddau o ran pwysigrwydd a roddwyd i bob dyhead gan bobl ifanc 14-19 oed (caiff y dyheadau eu graddio yn ôl y lefel gymedr o bwysigrwydd gan ddechrau gyda'r uchaf). Dywedodd bron naw allan o ddeg fod mwy o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith, y gallu i gymysgu astudiaethau academiaidd a galwedigaethol, mwy o opsiynau dysgu seiliedig ar waith a'r gallu i gymysgu astudiaethau academiaidd a galwedigaethol o leiaf yn gymharol bwysig iddynt yn bersonol. Dywedodd tua thri chwarter yr un peth am fwy o gyfleoedd i ddysgu'n ddwyieithog, mwy o gydweithio rhwng colegau, dosbarthiadau llai o faint a mwy o ddysgu sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Dywedodd dwy ran o dair (65%) fod mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o leiaf yn gymharol bwysig iddynt, a dywedodd ychydig o dan dair rhan o bump yr un peth am lai o bynciau craidd. Fel y gellir gweld yn y siart isod, roedd mwy na hanner yr holl bobl ifanc yn graddio pob dyhead naill ai'n bwysig iawn neu'n gymharol bwysig iddynt.

Roedd gwahaniaeth bach rhwng y graddau o ran pwysigrwydd a roddwyd gan bobl ifanc i "y gallu i gymysgu astudiaethau academiaidd a galwedigaethol" a'r hyn a roddwyd pan ddefnyddiwyd y gair "llwybrau" yn lle "astudiaethau" ond nid arweiniodd hyn at sgorau cymedr gwahanol iawn o ran pwysigrwydd, nac ychwaith at ganrannau gwahanol iawn yn disgrifio pob un yn "bwysig" ("iawn" yn ogystal â "chymharol"). Gwelwyd mwy o wahaniaeth rhwng y graddau o ran pwysigrwydd a roddwyd i "fwy o gyfleoedd i ddysgu'n ddwyieithog" a "mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg" - o ran y cyntaf dywedodd 77% ei fod yn "bwysig", ac o ran yr olaf gostyngodd y ganran i 65%.

Siart 25: Pwysigrwydd dyheadau - pobl ifanc



Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed. Heb ei phwysoli 1000; wedi ei phwysoli 1000.

Roedd rhai gwahaniaethau sylweddol yn ôl rhyw ac oedran ar gyfer y graddau o ran pwysigrwydd. Rhoddodd merched raddau uwch o ran pwysigrwydd na bechgyn ar gyfer nifer o ddyheadau:

- mwy o gyfleoedd i ddysgu'n ddwyieithog (80% yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig ymhlith merched, 73% ymhlith bechgyn)
- mwy o ddysgu sy'n canolbw yntio ar y gymuned (77% yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig ymhlith merched, 68% ymhlith bechgyn)
- dosbarthiadau llai o faint (76% yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig ymhlith merched, 67% ymhlith bechgyn)
- mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (70% yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig ymhlith merched, 59% ymhlith bechgyn)
- llai o bynciau craidd (60% yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig ymhlith merched, 53% ymhlith bechgyn)

Y gwahaniaethau mwyaf nodedig yn ôl oedran neu gyfnod addysg oedd y canlynol:

- nid yw'n syndod i'r rhai mewn addysg orfodol roi graddau llawer uwch o ran pwysigrwydd ar gyfer llai o bynciau craidd na'r rhai mewn addysg ôl-orfodol (64% yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig o gymharu â 50%)

- rhoddodd pobl ifanc 14 oed raddau is na phobl ifanc 15-19 oed ar gyfer y gallu i gymysgu llwybrau academiaidd a galwedigaethol (78% yn bwysig o gymharu ag 89% neu fwy)
- rhoddodd y rhai mewn addysg orfodol raddau ychydig yn uwch o ran pwysigrwydd ar gyfer mwy o ddysgu sy'n canolbwyntio ar y gymuned na'r rhai mewn addysg ôl-orfodol (75% o gymharu â 69% yn bwysig).

O ran mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, dywedodd 89% o bobl ifanc a oedd yn mynychu ysgolion Cymraeg fod hyn yn bwysig o gymharu â 64% o bobl ifanc 14-19 oed. Fodd bynnag roedd tystiolaeth o alw nas bodlonwyd ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ymhlith y rhai a oedd yn mynychu ysgolion Saesneg hefyd, gan fod 62% o'r rhai mewn ysgolion Saesneg yn disgrifio hyn fel dyhead pwysig iawn neu gymharol bwysig.


Roedd mwy o opsiynau dysgu seiliedig ar waith yn bwysig iawn i'r rhai a oedd yn astudio mewn colegau addysg bellach - disgrifiodd 48% y dyhead hwn fel un pwysig iawn - a hefyd i'r rhai nad oeddent yn astudio o gwbl, gyda 96% yn dweud fod hyn yn bwysig a 44% yn dweud ei fod yn bwysig iawn.

O ran dosbarthiadau llai o faint, daeth gwahaniaethau mawr i'r amlwg rhwng pobl ifanc a oedd yn mynychu ysgolion Saesneg a Chymraeg gyda'r cyntaf o'r farn bod dosbarthiadau llai o faint yn bwysicach (72% o gymharu â 59% yn bwysig). Hefyd, roedd gwahaniaethau mawr rhwng y rhai mewn addysg orfodol ac addysg ôl-orfodol (68% a 76%). Llywiwyd y sgorau uwch o ran pwysigrwydd ar gyfer dosbarthiadau llai o faint gan y rhai mewn addysg ôl-orfodol gan raddau uchel iawn gan bobl ifanc a oedd yn mynychu'r chweched dosbarth mewn ysgolion (84%) a phrifysgolion (80%).

6.1.2 Rhieni

Dengys y siart isod y graddau o ran pwysigrwydd a roddwyd i bob dyhead gan bobl ifanc 14-19 oed (ac unwaith eto, caiff y dyheadau eu graddio yn ôl y lefel gymedr o bwysigrwydd gan ddechrau gyda'r uchaf). Rhoddodd y rhieni raddau uchel iawn o ran pwysigrwydd i'r rhan fwyaf o'r dyheadau, gyda naw allan o ddeg neu fwy yn disgrifio dosbarthiadau llai o faint, y gallu i gymysgu astudiaethau neu lwybrau academiaidd a galwedigaethol, mwy o gydweithio rhwng colegau, mwy o opsiynau dysgu seiliedig ar waith a mwy o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig iddynt. Dywedodd tuag wyth allan o ddeg o rieni fod mwy o ddysgu sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn bwysig iddynt; dywedodd saith allan o ddeg fod mwy o gyfleoedd i ddysgu'n ddwyieithog yn bwysig iddynt; dywedodd chwech allan o ddeg fod mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig iddynt; dywedodd hanner fod llai o bynciau craidd yn bwysig iddynt.

Siart 26: Pwysigrwydd dyheadau - rhieni



Sylfaen: Pob rhiant. Sylfaen heb ei phwysoli 756.

Roedd dosbarthiadau llai o faint yn amlwg yn fwy o flaenoriaeth i rieni nag i bobl ifanc. Roedd hefyd yn ymddangos bod mwy o gydweithio rhwng colegau yn bwysicach i rieni. O'r deg o ddyheadau a gwmpaswyd, rhoddodd rhieni a phobl ifanc 14-19 oed y graddau isaf o ran pwysigrwydd i lai o bynciau craidd a mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth edrych ar ryw ac oedran y plentyn, daeth nifer o wahaniaethau i'r amlwg:

- roedd mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysicach i rieni pobl ifanc 14 oed na rhieni pobl ifanc 17-19 oed, gan adlewyrchu canfyddiadau'r bobl ifanc eu hunain.
- roedd y gallu i gymysgu llwybrau academaidd a galwedigaethol yn bwysicach i rieni pobl ifanc 17 oed na rhieni pobl ifanc 15-16 oed neu 18-19 oed.

Fel y gwelwyd eisoes ymhlith y bobl ifanc, roedd rhieni pobl ifanc 14-19 oed hefyd yn debygol iawn o fod am gael mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg os oedd eu plentyn yn mynychu ysgol Gymraeg (dywedodd 86% ei fod yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig) ond ymddangosodd hefyd fod galw ymhlith rhieni plant a oedd yn mynychu ysgolion Saesneg (53% yn bwysig).


6.2 Sut y bydd y ddarpariaeth well yn effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru

Gofynnwyd i ymatebwyr pa mor gryf yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am sut y byddai'r ddarpariaeth well yn effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru.

6.2.1 Pobl ifanc 14-19 oed

Ar y cyfan mae pobl ifanc yn gadarnhaol iawn ynghylch effaith debygol newidiadau diweddar i ddarpariaeth ddysgu pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru. Dengys Siart 27 isod gyfran y bobl ifanc 14-19 oed a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad. Roedd bron pawb yn cytuno "bydd profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn rhoi syniad gwell i bobl ifanc o natur bywyd gwaith" (95%); cytunodd tua naw allan o ddeg "bydd gwell opsiynau galwedigaethol yn sicrhau bod pobl ifanc yn ymbaratoi'n well ar gyfer eu dewis yrfa" (90%) a "bydd y llwybr dysgu yn sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn cael yr addysg fwyaf priodol iddynt" (86%). Cytunodd tuag wyth allan o ddeg "bydd cyfrannu at y gymuned yn gwneud pobl ifanc yn ddinasyddion gwell" (81%) a "bydd Bagloriaeth Cymru yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael addysg hollgynhwysfawr" (77%).

Siart 27: Effeithiau nodweddion newydd darpariaeth ddysgu pobl ifanc 14-19 oed - pobl ifanc




Sylfaen: Pobl ifanc 14-19 oed. Heb ei phwysoli 1000; wedi ei phwysoli 1000.

Roedd ychydig o wahaniaethau o fewn y ffigurau pennawd hyn. O ran "bydd Bagloriaeth Cymru yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael addysg hollgynhwysfawr", roedd y rhai mewn addysg orfodol yn fwy tebygol o gytuno na'r rhai mewn addysg ôl-orfodol (81% o gymharu â 74%); pobl ifanc 15 oed oedd fwyaf tebygol o gytuno sef 87%. O ran "bydd y llwybr dysgu yn sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn cael yr addysg fwyaf priodol iddynt", pobl ifanc 14 a 15 oed oedd fwyaf tebygol o gytuno â hyn (90%). O ran "bydd gwell opsiynau galwedigaethol yn sicrhau bod pobl ifanc yn ymbaratoi'n well ar gyfer eu dewis yrfa", roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o gytuno (roedd 53% o ferched yn cytuno'n gryf o gymharu â 45% o fechgyn).

6.2.2 Rhieni

Ar y cyfan mae rhieni pobl ifanc 14-19 oed hefyd yn gadarnhaol iawn ynghylch effaith debygol newidiadau diweddar i ddarpariaeth ddysgu. Roedd naw allan o ddeg neu fwy yn cytuno "bydd profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn rhoi syniad gwell i bobl ifanc o natur bywyd gwaith" (91%) a "bydd gwell opsiynau galwedigaethol yn sicrhau bod pobl ifanc yn ymbaratoi'n well ar gyfer eu dewis yrfa" (93%); roedd bron naw allan o ddeg yn cytuno "bydd y llwybr dysgu yn sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn cael yr addysg fwyaf priodol iddynt" (85%) a "bydd cyfrannu at y gymuned yn gwneud pobl ifanc yn ddinasyddion gwell" (85%). Roedd saith allan o ddeg yn cytuno "bydd Bagloriaeth Cymru yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael addysg hollgynhwysfawr" (71%); roedd mwy o ansicrwydd ynghylch yr awgrym hwn, gyda lleiafrifoedd sylweddol o rieni yn niwtral neu'n dweud nad oeddent yn gwybod.

Siart 28: Effeithiau nodweddion newydd darpariaeth ddysgu pobl ifanc 14-19 oed – rhieni



Sylfaen: Pob rhiant. Sylfaen heb ei phwysoli 756.

Roedd rhieni pobl ifanc 17-19 oed yn fwy tebygol na rhieni pobl iau o gytuno "bydd cyfrannu at y gymuned yn gwneud pobl ifanc yn ddinasyddion gwell" (90% o gymharu ag 85%) a hefyd yn fwy tebygol o gytuno "bydd profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn rhoi syniad gwell i bobl ifanc o natur bywyd gwaith" (94% o gymharu ag 88%). Roedd y nifer a oedd yn cytuno â'r datganiad olaf hwn yn uchel iawn ymhlith rhieni plant a oedd yn mynychu'r chweched dosbarth mewn ysgolion (100% yn cytuno).

6.3 Crynodeb

Roedd barn rhieni a phobl ifanc o ran pwysigrwydd y dyheadau o ran addysg 14-19 oed a gwmpaswyd gan yr astudiaeth yn debyg. Roedd mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a llai o bynciau craidd yn llai pwysig iddynt na'r dyheadau eraill, ond dywedodd ymhell dros hanner y rhieni a'r pobl ifanc eu bod yn bwysig iawn neu'n gymharol bwysig iddynt. Dengys y datganiadau hyn a'r pwysigrwydd a roddwyd iddynt fod rhieni a phobl ifanc yng Nghymru am weld gwelliannau i addysg a hyfforddiant pobl ifanc.


O ran y ffyrdd y bydd nodweddion newydd darpariaeth ddysgu pobl ifanc 14-19 oed yn effeithio ar bobl ifanc, roedd rhieni a phobl ifanc yn gadarnhaol iawn a rhoddwyd ymatebion tebyg. Roedd o leiaf saith allan o ddeg o rieni a phobl ifanc yn cytuno â'r holl ddatganiadau. Dengys hyn fod y dyheadau o ran addysg 14-19 oed nid yn unig yn bwysig i rieni a phobl ifanc 14-19 oed, ond eu bod yn credu y byddant yn arwain at welliannau gwirioneddol.

7 Darparwyr dysgu

7.1 Cyd-destun Llwybrau Dysgu ac agweddau tuag atynt


Roedd tri chwarter (74%) o ddarparwyr o'r farn gyffredinol bod y ddarpariaeth ddysgu i bobl ifanc 14-19 oed wedi gwella dros y ddwy flynedd diwethaf, tra bod 21% o'r farn ei bod wedi aros yr un peth; dim ond 1% a oedd o'r farn ei bod wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod hwnnw, er i 4% ddweud nad oeddent yn gwybod.

Siart 29: Newidiadau i ddarpariaeth ddysgu pobl ifanc 14-19 oed dros y ddwy flynedd diwethaf



Sylfaen: Pob darparwr (heb ei phwysoli: 100)


Ar y cyfan roedd teimladau ynghylch y rhaglen Llwybrau Dysgu yn gadarnhaol, er ar yr adeg hon roedd safbwyntiau rhai darparwyr yn niwtral, efallai am eu bod o'r farn ei bod yn rhy gynnar dweud. Dywedodd tua naw allan o ddeg (88%) o ddarparwyr eu bod o'r farn y byddai'r rhaglen Llwybrau Dysgu yn gwella opsiynau pobl ifanc 14-19 oed, roedd lleiafrif bach iawn (3%) o'r farn na fyddai ac roedd tua un rhan o ddeg (9%) yn ansicr.

Siart 30: A fydd Llwybrau Dysgu yn gwella opsiynau i bobl ifanc 14-19 oed?

Sylfaen: Pob darparwr (heb ei phwysoli: 100)


Roedd tua dwy ran o dair (66%) o ddarparwyr o'r farn bod y rhaglen Llwybrau Dysgu yn gweddu'n gymharol dda o leiaf i'r opsiynau a oedd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed yn eu hysgol/ coleg. Roedd un rhan o bump (20%) o'r farn ei bod yn gweddu'n dda iawn tra bod ychydig o dan hanner (46%) o'r farn bod y rhaglen yn gweddu'n gymharol dda. Roedd tua chwarter y darparwyr (23%) yn niwtral eu barn tra bod lleiafrif bach o'r farn ei bod yn gweddu'n wael (7%).

Siart 31: Sut y bydd Llwybrau Dysgu yn gweddu i'r opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed o fewn sefydliadau darparwyr



Sylfaen: Pob darparwr (heb ei phwysoli: 100)

Dyweddodd ychydig dros bedair rhan o bump (84%) o ddarparwyr eu bod wedi dechrau rhoi'r rhaglen Llwybrau Dysgu ar waith (dywedodd 12% nad oeddent yn bendant ac nid oedd 4% yn siŵr). Gofynnwyd dau gwestiwn i'r rhai a ddywedodd eu bod wedi dechrau ei rhoi ar waith ynghylch effaith y rhaglen Llwybrau Dysgu, ar fyfyrwyr yn gyntaf ac ar eu hysgol/coleg yn ail. Roedd barn darparwyr yn debyg iawn am y ddwy effaith, ac nid oedd neb o'r farn fod yr effaith wedi bod yn negyddol, er bod tua chwarter yn niwtral. Roedd un rhan o bump (20%) o ddarparwyr o'r farn bod yr effaith ar fyfyrwyr yn gadarnhaol iawn, ac roedd 55% o'r farn ei bod yn gymharol gadarnhaol. Yn yr un modd, roedd 17% o'r farn bod yr effaith ar yr ysgol/coleg yn gadarnhaol iawn, ac roedd 56% o'r farn ei bod yn gymharol gadarnhaol.

Siart 32: Natur effaith Llwybrau Dysgu ar ysgol neu goleg ac ar fyfyrwyr

Sylfaen: Pob darparwr (heb ei phwysoli: 100)

7.2 Llwybrau Dysgu Unigol

Dyweddodd dwy ran o dair (65%) o ddarparwyr fod eu hysgol/coleg wedi dechrau rhoi Llwybrau Dysgu Unigol ar waith. Nododd lleiafrif sylweddol o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi dechrau eu rhoi ar waith rywfaint o anhawster i wneud hynny - dywedodd 46% o'r grŵp hwn ei fod yn gymharol anodd neu'n anodd iawn. Dywedodd un rhan o bump (20%) ei fod yn hawdd iawn neu'n gymharol hawdd. Ni roddodd traean (32%) ateb pendant, gan ddweud na fu'n hawdd nac yn anodd.

O'r rhai nad oeddent wedi dechrau rhoi Llwybrau Dysgu Unigol ar waith eto, dywedodd tua dwy ran o bump (44%) eu bod yn agos ati o ran dechrau eu rhoi ar waith, er eu bod yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn agos ati nag yn agos iawn ati, ac ni ddywedodd neb eu bod yn barod i ddechrau. Dywedodd tua chwarter (26%) eu bod yn gymharol amharod i ddechrau rhoi Llwybrau Dysgu Unigol ar waith - ni ddywedodd neb eu bod yn amharod iawn neu'n amharod iawn iawn - tra rhoddodd 30% ateb niwtral.

Roedd tua thair rhan o bump (62%) o ddarparwyr o'r farn bod ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflwyno Llwybrau Dysgu Unigol i'w hysgol/coleg. Dywedodd cyfran debyg, 66%, fod ganddynt bryderon penodol ynghylch rhoi Llwybrau Dysgu Unigol ar waith. Ymhlith y grŵp hwn, y pryderon penodol a grybwyllwyd amlaf oedd lefelau ariannu (42%), problemau amserlennu (24%), costau/cost cludiant (21%), cydweithio rhwng y diwydiant/cyflogwyr (18%), lefelau staffio (17%) a logisteg symud/cludo rhwng safleoedd (11%).

Ceir rhai enghreifftiau o bryderon darparwyr isod, y mae llawer ohonynt yn cyfeirio at faterion ariannu¹:

Effaith ar amserlen yr ysgol. Disgyblion yn gwneud y dewisiadau anghywir yn rhy gynnar heb opsiwn tynnu'n ôl. Effaith ar staffio a chyllidebau'r ysgol (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Diogelwch disgyblion pan nas addysgir ar safle ysgol. Ansawdd darpariaeth. Monitro presenoldeb disgyblion y tu allan i'r ysgol. Ymdrin â disgyblion heriol mewn lleoliadau ar wahân i ysgolion. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Lefelau ariannu yn cyfyngu ar yr hyn y gallwn ei gynnig. Credwn yn gryf mai llwybrau dysgu yw'r ffordd orau ymlaen, ond teimlwn yn rhwystredig yn aml oherwydd y lefelau ariannu gwael, e.e. datblygiadau o ran anogwyr dysgu, costau cyfleoedd dysgu anhraddodiadol/galwedigaethol yn uchel. Hefyd, mae dull o weithredu rhai o'n darpar bartneriaid cydweithredol lleol yn peri rhwystredigaeth i ni am eu bod yn mynnu canolbwyntio ar 'dwf eu busnes' yn hytrach nag agor eu sefydliadau i fyny er budd dysgwyr. Mae'r 'rhwystr diwylliannol' hwn yn un mawr i lwybrau 14-19 oed. (Ysgol, Gogledd Cymru)

Ariannu cyrsiau newydd, anhawster ffisegol i gydweithio â'n partneriaid, angen ailhyfforddi staff mewn meysydd newydd o arbenigedd (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Mae'r ffrwd ariannu drwy'r AALI yn dal i fod yn aneglur iawn. Dim ond pan fydd y model ariannol yn fwy cadarn y gwelwn pa rannau o'r ddarpariaeth y gallwn eu fforddio. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Cynaliadwyedd. Rydym yn codi disgwyliadau ein disgyblion ac yn creu marchnad ar gyfer darpariaethau sy'n aml yn ddrutach. Rydym yn pryderu y bydd arian yn rhedeg allan. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Marchnata llwybrau gwahanol i bobl ifanc, rhieni ac ati, Sicrhau cydbwysedd priodol rhwng pobl ifanc yn dewis a phobl ifanc yn cael cyngor, Cost llwybrau amrywiol, y mae llawer yn cynnwys carfannau bach, Amserlennu - o fewn ysgolion ac ar draws y wlad, Cludiant - yn enwedig ar gyfer nifer fawr a gwasgarog. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Mae'r broses o ddatblygu llwybrau dysgu yn dibynnu ar gysylltiadau â darparwr addysg trydyddol ac nid yw'r cysylltiadau hynny mor ddatblygedig ag y dylent fod ar draws yr AALI. Mae cludiant yn mynd i fod yn rhwystr mawr i'r broses o ddatblygu llwybrau dysgu oherwydd ei gost. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

¹ Rhydd Atodiad 2 ragor o sylwadau gan ddarparwyr.

Gallu dod i gysylltiad â darparwyr dysgu seiliedig ar waith o ansawdd neu gyflogwyr a all ddarparu lleoliadau gwaith priodol i leiafrif bach o'n myfyrwyr. (Ysgol, Deddwyrain Cymru)

Gallai terfyn ariannol fesul dysgwr unigol gyfyngu ar faint a natur llwybr (Sefydliad Addysg Bellach, De-orllewin Cymru)

Mae hyblygrwydd i fyfyrwyr yn golygu bod angen i ni fod yn fwy hyblyg o ran contractau athrawon a chydweithwyr. Ni fu digon o drafodaeth agored ar hyn. Mae newidiadau i amserlennu a darpariaeth allan o oriau yn digwydd ar yr un pryd â newidiadau i'r CC - gormod yn digwydd? Ardaloedd gwledig yn ei chael yn anos ymestyn dewis a'r diwrnod dysgu: cludiant, darparwr agosaf ac ati. Mae sicrhau arian i gyflogi anogwyr dysgu ac ati i weithio'n unigol gyda phob myfyriwr yn anodd ar adeg pan fo cyllidebau yn cael eu cwtogi. (Ysgol, Canolbarth Cymru)

Effaith amserlen ddiwygiedig a fyddai ond yn bodloni'r lleiafrif ond yn cael effaith niweidiol ar y mwyafrif rhwng 11 a 19 oed, nid dim ond 14-19 oed. (Ysgol, Deddwyrain Cymru)

Fel ysgol arbennig, ni allwn roi 'Dewis' i ddisgyblion 14-19 oed oherwydd cyfyngiadau staffio. Fodd bynnag, rydym wedi ehangu'r cwricwlwm i gynnig mwy o gyfleoedd galwedigaethol. O ystyried natur ein disgyblion ystyriwn y cam dysgu hwn fel 'Paratoi ar gyfer Dewis' ac anelwn at gynnig ystod eang o sesiynau rhagflas coleg/galwedigaethol fel eu bod wedi ymbaratoi'n well ar gyfer y cam nesaf. (Ysgol, Gogledd Cymru)

Arian, cydweithio rhwng gwahanol sectorau nad ydynt am wneud hynny, darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Diffyg gweledigaeth gan rai partneriaid. Diffyg gweithlu penodol i gyflwyno rhannau penodol e.e. hyrwyddwr dysgu, cymorth personol. (Ysgol, Gogledd Cymru)

Nid oes problem o ran ehangu ein hopsiynau galwedigaethol, ond ni allwn yn ymarferol gydweithio â darparwyr eraill (yn ddaearyddol) a theimlo y gallwn gynnig pecyn rhesymol o opsiynau i'n myfyrwyr. Mae angen gwella hyn, nid gwneud newidiadau cyflym. Ni chredwn y bydd yr Anogwr Dysgu (a allai ond fod yn arwynebol iawn) yn cael effaith fawr heblaw am ar leiafrif bach. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Gofynnwyd i ddarparwyr nodi pa effaith yr oeddent yn disgwyl i'r broses o gyflwyno Llwybrau Dysgu Unigol ei chael ar y dysgwr, o restr wedi'i chodio ymlaen llaw. Yr effaith a ddewiswyd gan y nifer fwyaf o ddarparwyr (85%) oedd y byddai'n ymbaratoi pobl ifanc yn well ar gyfer bywyd gwaith. Dewiswyd tair effaith arall gan tua saith allan o ddeg o ddarparwyr - y byddai'n helpu pobl ifanc i nodi ffyrdd o fodloni eu dyheadau ar gyfer y dyfodol (72%), y byddai mwy o bobl ifanc yn dilyn cyrsiau galwedigaethol (71%) ac y byddai'n ehangu gorwelion pobl ifanc (69%). Disgwyliodd pedwar allan o ddeg y byddai'n cadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnod hwy.

Roedd gan niferoedd llai o ddarparwyr ddisgwyliadau mwy negyddol o ran effaith Llwybrau Dysgu Unigol: roedd 14% o'r farn y byddent yn cynyddu llwyth gwaith dysgwyr ac roedd 10% o'r farn y byddent yn drysu dysgwyr gyda gormod o opsiynau.


Tabl 2: Disgwyliadau o ran effaith Llwybrau Dysgu Unigol

Sylfaen: Pob darparwr (100)	Darparwyr
	%
Ymbaratoi pobl ifanc yn well ar gyfer bywyd gwaith	85
Helpu pobl ifanc i nodi ffyrdd o fodloni eu dyheadau ar gyfer y dyfodol	72
Mwy o bobl ifanc yn dilyn cyrsiau galwedigaethol	71
Ehangu gorwelion pobl ifanc	69
Cadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnod hwy	40
Cynyddu llwyth gwaith dysgwyr	14
Drysu dysgwyr gyda gormod o opsiynau	10
Dim gwahaniaeth o gwbl	1
Arall	6
Ddim yn gwybod	2

7.3 Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd

Gofynnwyd i ddarparwyr a oedd eu hysgol/ coleg wedi cymryd camau i gyflwyno cyrsiau newydd neu opsiynau newydd o ran pynciau yn eu hysgol/ coleg neu i gydweithio ag ysgolion, colegau neu ddarparwyr hyfforddiant lleol i gynnig cyrsiau i bob dysgwr. Dywedodd saith allan o ddeg o ddarparwyr (71%) eu bod wedi gwneud y ddau beth. Dywedodd 13 y cant eu bod ond wedi cydweithio gyda darparwyr lleol eraill a dywedodd 6% eu bod ond wedi cyflwyno cyrsiau neu bynciau newydd. Dywedodd 3 y cant o ddarparwyr nad oeddent wedi gwneud yr un. Nid oedd 7 y cant yn ymwybodol o'r sefyllfa o fewn eu sefydliad eu hunain.

Siart 33: Cyflwyno Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd



Sylfaen: Pob darparwr (heb ei phwysoli:100)

Gofynnwyd i ddarparwyr a oedd wedi cyflwyno cyrsiau neu bynciau newydd pa anawsterau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth wneud hyn. Ymhlith yr anawsterau a grybwyllwyd gan y darparwyr hyn roedd lefelau ariannu (29%), problemau amserlennu (27%), cael cefnogaeth rhieni (19%), costau/costau cludiant (18%) a lefelau staffio (16%).

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi cymryd camau i gydweithio â darparwyr lleol eraill pa mor hawdd y bu hyn i'w roi ar waith. Dywedodd bron hanner (45%) y grŵp hwn ei fod yn anodd iawn neu'n gymharol anodd, tra dywedodd tua thri allan o ddeg (29%) ei fod yn hawdd iawn neu'n gymharol hawdd a dywedodd tua chwarter (26%) nad oedd wedi bod yn hawdd nac yn anodd.

Wedyn gofynnwyd i nifer fach o ddarparwyr nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau i gydweithio â darparwyr dysgu lleol eraill pa mor barod oedd eu sefydliad i ddechrau cyflwyno Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd. Nid oedd pump allan o'r deg yn gwybod; dywedodd dau eu bod yn barod iawn, roedd un yn gymharol amharod ac nid atebodd y ddau arall yn bendant.

Roedd saith allan o ddeg o ddarparwyr o'r farn bod ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflwyno Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd i'w sefydliad, roedd 22% am gael rhagor o wybodaeth ac roedd tua 8% yn ansicr.

Dywedodd tua hanner (48%) y darparwyr fod ganddynt bryderon penodol ynghylch cyflwyno Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd. Roedd y pryderon a ddisgrifiwyd yn debyg i'r anawsterau a nodwyd o ran cyflwyno pynciau neu gyrsiau newydd. Ymhlith y rhai â

phryderon penodol, soniodd 25% am arian, soniodd 21% am broblemau amserlennu a chostau/costau cludiant, soniodd 19% am logisteg/cludiant a soniodd 13% am lefelau staffio.

Ymhlith rhai o'r sylwadau a wnaed roedd y canlynol:

Myfi yw cydlynnydd galwedigaethol fy ysgol. Mae fy nghylch gwaith yn ehangach nawr nag erioed o'r blaen ond nid wyf yn cael unrhyw amser ychwanegol y flwyddyn nesaf i wneud y gwaith ychwanegol hwn. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru benodi cydlynwyr ar gontract gwahanol? (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Gyda niferoedd yn lleihau a diswyddiadau staff nid wyf yn gwybod sut y gallwn gynnig neu weithredu llawer o'r cyrsiau newydd sy'n dod ar gael. Ceir hefyd y costau cludiant wrth fynd ati i gydweithio â darparwyr eraill. Mae gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol hefyd yn peri pryder ynghyd â lles disgyblion. (Ysgol, Gogledd Cymru)

O ble y daw'r arian ar gyfer aelodau hŷn o staff sydd, ar hyn o bryd, yn addysgu pwnc traddodiadol tra'n eu disodli â staff newydd a all addysgu gofynion y cwricwlwm newydd? (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

...ceir rhwystrau o ran gwneud dewisiadau oherwydd y diffyg ewyllys i gydweithio mewn ffordd deg mewn rhai achosion, h.y. codi gormod a chyfyngu ar opsiynau er mwyn 'cornelu'r farchnad' (Ysgol, Gogledd Cymru)

Mae angen arweiniad gofalus gan bobl sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol ac mae'n rhaid i hynny gynnwys athrawon sy'n ADNABOD y plentyn orau. (Ysgol, Canolbarth Cymru)

Pa mor unigol y gall llwybrau dysgu fod? Os cynigir NVQ mae'n fwy cost effeithiol ei wneud gyda grŵp o faint da sy'n dilyn yr un cwrs. Os bydd un yn gorffen yn gyflym a yw'n mynd ymlaen i'r lefel nesaf? Hefyd yn pryderu ynghylch amharodrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys cymwysterau nad ydynt yn TGAU mewn tablau perfformiad - mae angen mynd i'r afael â hyn yn gyflym. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Gorlwytho myfyrwyr a all arwain at gyfraddau cadw a chyflawni gwael. Mae myfyrwyr yn gwneud dewisiadau amhriodol o hyd, yn aml am na roddwyd arweiniad clir iddynt. Mae dylanwadau rhieni yn aml yn gwrthio myfyrwyr i gyfeiriadau amhriodol ar sail dealltwriaeth hanesyddol. (Sefydliad Addysg Bellach, Gogledd Cymru)

Mae angen symleiddio ffrydiau ariannu. Mae angen dadansoddi'r effaith ar y newid i gontractau athrawon yn genedlaethol. Mae angen modelau trefniadaeth fertigol a fyddai'n sicrhau hyblygrwydd gwirioneddol. (Ysgol, Canolbarth Cymru)

Mae cynnig amrywiaeth ehangach o bynciau i'r un nifer o ddisgyblion yn amlwg yn arwain at ddosbarthiadau llai o faint, a allai fod yn aneconomaidd. Bydd yr Adran yn dadlau y bydd cydweithio yn gwneud maint dosbarthiadau yn fwy hyfyw, ond mewn ardaloedd gwledig, mae problemau o ran cludiant a'r cyfyngiadau o ran cysoni amserlenni yn gwneud hyn yn broblem fawr. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Cyflwynodd y coleg Lwybrau Dysgu yn ystod y flwyddyn academiaidd hon (2006/07). Mae llwyddiant y rhaglen wedi arwain at broblemau o ran capasiti yn barod. Mae'r galw yn cynyddu o 450 o ddisgyblion cyn-16 i dros 600 ym mis Medi 2007. Mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau. (Sefydliad Addysg Bellach, De-ddwyrain Cymru)

Pan ofynnwyd iddynt am effaith bosibl cynnig Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd, roedd atebion darparwyr yn debyg iawn i'r rhai a roddwyd o ran effaith Llwybrau Dysgu Unigol.

Tabl 3: Disgwyliadau o ran effaith Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd

Sylfaen: Pob darparwr (100)	Darparwyr
	%
Ymbaratoi pobl ifanc yn well ar gyfer bywyd gwaith	80
Helpu pobl ifanc i nodi ffyrdd o fodloni eu dyheadau ar gyfer y dyfodol	77
Ehangu gorwelion pobl ifanc	74
Mwy o bobl ifanc yn dilyn cyrsiau galwedigaethol	74
Cadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnod hwy	51
Drysu dysgwyr gyda gormod o opsiynau	10
Cynyddu llwyth gwaith dysgwyr	10
Dim gwahaniaeth o gwbl	1
Arall	5
Ddim yn gwybod	2

7.4 Craidd Dysgu

Dywedodd dwy ran o dair o ddarparwyr (68%) fod eu hysgol/coleg wedi dechrau rhoi elfen Craidd Dysgu y Llwybrau Dysgu ar waith, tra dywedodd 18% nad oeddent ac roedd 14% yn ansicr.

O'r rhai a oedd wedi dechrau gweithredu'r Craidd Dysgu, dywedodd 44% y bu'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd gwneud hynny tra dywedodd 12% y bu'n anodd iawn neu'n gymharol anodd; dewisodd y gweddill ymateb niwtral. Pan y'i rhoddwyd ar waith, roedd anhawster yr agwedd hon ar Lwybrau Dysgu yn cymharu'n ffafriol â Llywybrau Dysgu Unigol neu gydweithio â darparwyr addysg/hyfforddiant lleol eraill.

Gofynnwyd i'r rhai nad oeddent wedi dechrau rhoi'r Craidd Dysgu ar waith am eu parodrwydd i wneud hynny - dim ond 18 a ymatebodd yn y categori hwn. Dywedodd y mwyafrif o'r grŵp bach hwn (10 allan o'r 18 o ymatebwyr) nad oedd eu sefydliad yn barod nac yn amharod, tra dywedodd tri eu bod yn gymharol barod a dywedodd pump eu bod yn gymharol amharod.

Dywedodd tua dwy ran o dair (64%) o'r holl ddarparwyr fod ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflwyno'r Craidd Dysgu yn eu hysgol/coleg, tra roedd 28% am gael rhagor o wybodaeth ac roedd 8% yn ansicr. Fodd bynnag, dywedodd tua thraean (36%) o ddarparwyr fod ganddynt bryderon penodol ynghylch rhoi'r Craidd Dysgu ar waith, ac roeddent yn ymwneud â lefelau ariannu a phroblemau amserlennu (soniodd 19% o'r rhai â phryderon penodol am y rhain), amser, datblygiad/hyfforddiant staff, lefelau staffio a'r angen am gefnogaeth disgyblion (y crybwyllwyd pob un ohonynt gan 11% o'r grŵp hwn).

Dywedodd rhai darparwyr fod eu pryderon ynghylch y Craidd Dysgu eisoes wedi cael eu cwmpasu mewn atebion yn ymwneud â Llywybrau Dysgu Unigol a Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd, ond rhoddir detholiad o sylwadau penodol isod².

Mae rhai elfennau yn iawn, mae'n bosibl y bydd eraill yn cael eu gwrthwynebu gan ddysgwyr e.e. Cymru, Ewrop a gweddill y Byd, yn enwedig yr elfen iaith - mae eisoes yn fater yn CA4 mewn ysgolion yn yr ardal hon. (Ysgol, Gogledd Cymru)

Cynnig cyfleoedd mewn meysydd y tu allan i waith TGAU arferol. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Mae galwadau cwricwlwm y Craidd Dysgu, yn enwedig os defnyddir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru fel y dull asesu, yn fawr. Bydd ysgolion yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r amser i gwmpasu pob agwedd gyda phob disgybl. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Yr un peth ag o'r blaen - mae'r system gyfan yn rhy ddelfrydyddol. Os yw dysgu i fod yn unigol ac yn hyblyg pam bod craidd gorfodol? Ai oherwydd bod gwleidyddion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwybod yn well? (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

² Ceir rhagor o sylwadau yn Atodiad 2.

DPP staff, ariannu, amser i addasu a datblygu profiadau dysgu. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Unwaith eto hyblygrwydd yr amgylchedd dysgu a staffio. Pwy sy'n gyfrifol am waith monitro (cofier y problemau mawr o ran gwaith portffolio mewn sgiliau allweddol). Gwerthu i gyflogwyr fel bod disgyblion yn cael canmoliaeth. Adnoddau fel yr ymchwiler i'r dimensiwn Cymreig yn 'Cymru, Ewrop a gweddill y Byd' yn gywir. Mae gennyf lawer o brofiad ym maes addysgu ac ni allaf ddychmygu'r sefyllfa i ddisgyblion ar bob cam allweddol. (Ysgol, Canolbarth Cymru)

Achredu - ei wneud yn gywir er mwyn bod yn ystyrlon i'r dysgwyr. (Sefydliad Addysg Bellach, Gogledd Cymru)

Bod digon o gyfleoedd ar gael yn y gweithle i'w weithredu (rwy'n amau na fydd digon i gynyddu'r tu hwnt i'r hyn a wnawn nawr, sy'n anodd), nad yw'r holl waith papur yn cymryd gormod o amser ac egni a bod profiadau o fewn gweithleoedd yn ddefnyddiol i ddysgwyr (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Nid ymddengys fod y craidd dysgu yn gymwys i bobl anabl sy'n dysgu. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Pan ofynnwyd am ba effaith yr oeddent yn disgwyl i'r broses o gyflwyno'r Craidd Dysgu ei chael, dywedodd tri chwarter (77%) o ddarparwyr y byddai'n annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau cymunedol a gwirfoddol. Yr effeithiau eraill a grybwyllwyd gan y mwyafrif o ddarparwyr oedd ymbaratoi pobl ifanc yn well ar gyfer bywyd gwaith (71%), meithrin ymdeimlad o gymuned ymhlith pobl ifanc (65%) ac ehangu gorwelion pobl ifanc (60%).

Tabl 4: Disgwyliadau o ran effaith y Craidd Dysgu

Sylfaen: Pob darparwr (100)	Darparwyr
	%
Annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau cymunedol a gwirfoddol	77
Ymbaratoi pobl ifanc yn well ar gyfer bywyd gwaith	71
Meithrin ymdeimlad o gymuned ymhlith pobl ifanc (lleol neu Gymreig)	65
Ehangu gorwelion pobl ifanc	60
Cadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnod hwy	25
Cynyddu llwyth gwaith dysgwyr	19
Dim gwahaniaeth o gwbl	6

Drysu dysgwyr gyda gormod o opsiynau	2
Ddim yn gwybod	1

7.5 Anogwyr Dysgu

Dywedodd tua hanner (48%) y darparwyr fod eu hysgol neu goleg wedi cymryd rhan yn y treial a oedd yn cynnig Anogwyr Dysgu i ddysgwyr; nid oedd 9% yn siŵr a dywedodd y 43% a oedd yn weddill nad oeddent wedi cymryd rhan.

O'r rhai a gymerodd ran yn y treial, dywedodd hanner y bu'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cyflwyno Anogwyr Dysgu i'w sefydliad - dywedodd 19% y bu'n hawdd iawn. Roedd traean (31%) wedi cael anawsterau, gyda 29% yn disgrifio'r broses fel proses gymharol anodd. Roedd yr anawsterau yn gysylltiedig â lefelau ariannu (a grybwyllwyd gan chwech allan o'r 15 a atebodd y cwestiwn hwn), amser, lefelau staffio a nifer yr anogwyr sy'n angenrheidiol (tri chrybwylliad yr un) a hyfforddiant staff (dau grybwylliad).

Rhoddir y sylwadau sy'n gysylltiedig â'r anawsterau hyn isod³:

Treial cyfyngedig yn defnyddio dau Anogwr Dysgu am gyfnod byr. Anodd asesu'r effaith. (Ysgol, Gogledd Cymru)

Yn cael ei ystyried gan ormod fel haen arall o Addysg Gyrfaoedd, dyblygu gwaith bugeiliol, disgyblion yn disgwyl gormod o fewnbwn unigol. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Staffio - 1. Mae angen amser i ddatblygu rôl anogwr dysgu. 2. Nifer y bobl sydd am gymryd rhan. 3. Os yn aelod o staff nad yw'n addysgu sut y bydd hyn yn effeithio ar ei rôl? 4. Sut y cânt eu talu? (Ysgol, Gogledd Cymru)

Dim digon o arian, yn allanol nac yn fewnol, i wneud hyn yn iawn i bob disgybl. Dewis disgyblion, anogwyr dysgu yn cael hyfforddiant ar yr hyn sydd ar gael mewn gwirionedd ar hyn o bryd. (Ysgol, Canolbarth Cymru)

Neilltuo digon o amser o ansawdd. Mae gan yr anogwyr dysgu ymrwymadau addysgu sy'n peri anawsterau yma (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Yr effaith ar ddosbarth yn sgîl peidio â chael ei weithiwr cymorth arferol. (Ysgol, Gogledd Cymru)

³ Ceir rhagor o sylwadau yn Atodiad 2.

Rhyddhau pobl ar gyfer yr hyfforddiant - er bod arian ar gael nid yw hyn bob amser yn datrys y broblem. Ansawdd/priodoldeb yr hyfforddiant i'r rhai â diddordeb mewn cymryd rhan e.e. ym marn un darlithydd profiadol ar lefel uchel iawn a oedd yn bresennol mewn sesiwn hyfforddi roedd y cynnwys ar lefel rhy isel; yn llawer is nag addysg uwch er mai modiwl addysg uwch ydoedd. Gwrthododd fynd i ragor o sesiynau! Fodd bynnag ym marn gweithiwr cyngor ac arweiniad newydd ei benodi nad oedd ganddo unrhyw gyfleusterau cynghori ac arwain, roedd y cwrs yn ddefnyddiol. Mae angen mynd i'r afael â'r broses o gyfateb yr hyn a ddarperir i'r cymhwyster a'r cleient a sicrhau cysondeb o ran ansawdd y broses o ddiwallu anghenion hyfforddi. Os oes gan y cymhwyster fwy o hygyrdd yna byddai ei wneud yn fwy deniadol. Byddai'n gweithio'n dda iawn fel modiwlau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag NVQ 4 mewn cyngor ac arweiniad yn fy marn i. Fodd bynnag, ceir dryswch o hyd o ran sut mae'r rôl hon yn gysylltiedig â chymorth personol, tiwtora personol a chyngor ac arweiniad. Y broblem arall yw nad oes arian i gyflogi anogwyr dysgu ac mae angen mwy o eglurder o ran y weledigaeth hirdymor ar gyfer y rôl hon. (Sefydliad Addysg Bellach, Gogledd Cymru)

I ba raddau yr oedd yr anogwyr dysgu ar gael i ymweld â'r ysgol. Wedyn gadawodd y swydd am swydd arall. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Fodd bynnag, dywedodd tri chwarter (77%) o'r rhai a gymerodd ran yn y treial fod cyflwyno Anogwyr Dysgu wedi cael effaith gadarnhaol, a dywedodd y chwarter a oedd yn weddill (23%) na chafodd unrhyw effaith. Pan ofynnwyd am effeithiau penodol, dywedodd tair rhan o bump (58%) fod y rhai ag anogwr dysgu yn ymddiddori'n fwy yn eu hastudiaethau. Dywedodd hanner fod dysgwyr wedi dadrithio yn ymddiddori'n fwy yn yr ysgol/ coleg (50%) a bod Anogwyr Dysgu yn rhoi cymorth mewn ffordd fwy strwythuredig (46%). Nodwyd amrywiaeth o effeithiau eraill, ond yn eu plith, dywedodd traean (35%) o'r rhai a gymerodd ran yn y treial fod dysgwyr ag Anogwr Dysgu yn gwella'n academiaidd.


Tabl 5: Effeithiau cyflwyno Anogwyr Dysgu

Sylfaen: Darparwyr a gymerodd ran yn y treial i gynnig Anogwyr Dysgu (48)	Darparwyr
	%
Y rhai ag Anogwr Dysgu yn ymddiddori'n fwy yn eu hastudiaethau	58
Dysgwyr wedi dadrithio yn ymddiddori'n fwy yn yr ysgol/ coleg	50
Anogwyr Dysgu yn rhoi cymorth mewn ffordd fwy strwythuredig	46
Presenoldeb yn gwella ymhlith y rhai ag Anogwr Dysgu	40
Dysgwyr yn dod yn fwy hyderus ynghylch astudio'n annibynnol	38
Dysgwyr yn dod yn fwy parod i ddefnyddio Anogwr Dysgu na'u cymorth blaenorol	35
Y rhai ag Anogwr Dysgu yn gwella'n academiaidd	35
Anogwyr Dysgu yn cynnig gwell cymorth i ddysgwyr na'r hyn a gynigiwyd cynt	31
Anogwr Dysgu yn fwy effeithiol am nad yw'n aelod o'r staff addysgu	23
Anogwr Dysgu yn cynnig yr un cymorth i ddysgwyr ag o'r blaen	15
Dysgwyr ddim am ddefnyddio Anogwr Dysgu	6
Dysgwyr ddim yn gwneud y gwaith a roddwyd iddynt gan yr anogwr dysgu	4
Dysgwyr ddim yn credu y byddent yn cael budd o Anogwr Dysgu	4
Dysgwyr yn ansicr o Anogwyr Dysgu neu yn eu hofni	4
Sesiynau Anogwr Dysgu yn cael eu cynnal y tu allan i amser gwersi	4
Anogwyr Dysgu yn cynnig llai o gymorth i ddysgwyr na'r hyn a gynigiwyd cynt	4
Anogwr Dysgu yn cael ei ystyried fel rhywbeth negyddol	2
Arall	31
Ddim yn gwybod	6

Wedyn gofynnwyd i ddarparwyr a oedd eu hysgol/coleg wedi nodi unrhyw bobl i hyfforddi fel Anogwyr Dysgu. Dywedodd tuag un rhan o bump (18%) eu bod wedi

pennu eu holl Anogwyr Dysgu, ond yn llawer mwy cyffredin, dywedodd darparwyr eu bod wedi pennu rhai o'u hanogwyr (40%) neu heb eu pennu o gwbl (31%).

Siart 34: Wedi pennu anogwyr dysgu eto



Sylfaen: Pob darparwr (heb ei phwysoli: 100)

Gofynnwyd i bob darparwr am eu parodrwydd i ddechrau cynnig Anogwr Dysgu i ddysgwyr. Dywedodd ychydig dan hanner (44%) eu bod yn barod i wneud hynny - dywedodd 22% eu bod yn barod iawn iawn neu'n barod iawn, a dywedodd 22% eu bod yn gymharol barod. Nid oedd chwarter (25%) yn teimlo'n barod nac yn amharod ac roedd cyfran debyg (22%) yn teimlo'n amharod, gyda'r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn gymharol amharod (12%). Roedd ychydig dros hanner (54%) o'r farn bod ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflwyno Anogwyr Dysgu i'w sefydliad.

Roedd gan ychydig dros hanner (54%) hefyd bryderon penodol am gyflwyno Anogwyr Dysgu. Roedd a wnelo'r pryderon yn bennaf â lefelau ariannu (a grybwyllwyd gan 31% o'r rhai a ddywedodd fod ganddynt bryderon), nifer yr anogwyr gofynnol (26%), statws ansicr anogwyr (20%), amser, hyfforddiant, dyblygu rolau a lefelau staffio (crybwyllwyd bob un gan 11%).

Rhoddir rhai o'r sylwadau isod⁴.

⁴ Ceir rhagor o sylwadau yn Atodiad 2.

Pryderon am bobl y tu allan i'r ysgol yn rhoi cyngor amhriodol i ddisgyblion. Cost - a fydd yn wirioneddol well na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd? Haen arall o fiwrocratiaeth. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Ceir diffyg eglurder o ran rôl benodol yr anogwr dysgu. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Yn ystod y cyfnod ymgynghori dywedais fy mod o'r farn y dylai anogwyr dysgu fod yn athrawon ac rwy'n parhau i gredu hynny. Rwy'n amcangyfrif y byddai angen i ysgol gyflogi sawl anogwr dysgu i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle ac nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion yr arian i wneud hyn. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Mae'n syniad da sydd wedi cael ei drin mewn ffordd wael iawn. Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau ryw fath o Anogwr Dysgu sydd ar gael i rai pobl ifanc os nad pob un yn barod. Mae'n beth da i'r rhai sy'n ymwneud ag Annog Dysgu i gael hyfforddiant ychwanegol ac i adolygu gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i ddefnyddio Anogwr Dysgu. Ond mae Anogwyr Dysgu wedi cael eu cyflwyno i sefydliadau dysgu heb roi unrhyw ystyriaeth i'r hyn y mae'r sefydliadau hynny yn ei wneud yn barod ac mae hyn wedi achosi anfodlonrwydd mawr. Ac mae'r 'cynllun peilot' ar gyfer hyfforddiant wedi bod yn ofnadwy, heb unrhyw dystiolaeth y caiff Carfan 2 well profiad. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Athrawon yw'r bobl a bennwyd gennym. Ni allwn weld sut y gallant gyflawni'r rôl ganfyddedig yn ddigonol ar ben ymrwymiad llawn o ran yr amserlen. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Mae'r broses gymhwyso yn rhy anodd ac o ganlyniad mae'n debygol y bydd prinder. Mae'n syniad da ar bapur ond mae angen gwneud mwy i sicrhau ei fod yn digwydd mewn realiti. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Nid yw'n ymarferol penodi unigolyn arbennig fel anogwr dysgu - wedyn dim ond nifer fach o ddysgwyr a allai gael budd o hynny. Mae'n well gennyf y syniad bod pob athro da eisoes yn anogwr dysgu ac efallai mai'r oll sydd ei angen arnynt yw DPP mewn materion ehangach sy'n gysylltiedig â chysiau/gyrfaoedd/addysg uwch ac ati. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Ceir lefelau uchel o gymorth mewn ysgol arbennig eisoes. Yn ansicr iawn ynghylch yr angen am anogwr dysgu yn ein hysgol. Mae'n fwy tebygol o ganlyniad i ddarparu aelod gwerthfawr o staff at ddibenion Hyfforddiant Anogwyr Dysgu y byddwn yn ei golli i'r sir i gynorthwyo disgyblion prif ffrwd. (Ysgol, Gogledd Cymru)

Nid yw'r model presennol ar gyfer anogwyr dysgu yn addas ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Atebodd pob darparwr gwestiwn ynghylch yr effeithiau roeddent yn eu disgwyl yn sgîl cyflwyno Anogwyr Dysgu. Y ddwy effaith a ddisgwyliwyd gan y nifer fwyaf o ddarparwyr oedd y byddai dysgwyr wedi dadrithio yn ymddiddori'n fwy ac y byddai

dysgwyr yn dod yn fwy hyderus o ran astudio'n annibynnol, a ddewiswyd gan dair rhan o bump o'r ymatebwyr (61% a 60%). Disgwyliwyd tair effaith arall gan tua hanner y darparwyr: y byddai presenoldeb yn gwella ymhlith y rhai ag Anogwr Dysgu (52%), y byddai dysgwyr yn gwella'n academiaidd (49%) ac y byddai gwell cymorth yn cael ei gynnig i ddysgwyr (49%). Roedd ychydig dros ddwy ran o bump yn disgwyl i'r broses o gyflwyno Anogwr Dysgu ehangu gorwelion pobl ifanc (45%) ac roedd ychydig o dan ddwy ran o bump yn disgwyl i ddysgwyr fod yn fwy parod i ddefnyddio Anogwyr Dysgu na'r mathau o gymorth a oedd ar gael yn flaenorol. Roedd chwarter y darparwyr (26%) o'r farn y byddai'n helpu i gadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnod hwy. Nid oedd un rhan o ddeg yn gwybod pa effeithiau yr oeddent yn eu disgwyl; roedd 7% o'r farn na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth.

Tabl 6: Effeithiau disgwyliedig cyflwyno Anogwr Dysgu

Sylfaen: Pob darparwr (100)	Darparwyr
	%
Dysgwyr wedi dadrithio yn ymddiddori'n fwy yn yr ysgol/coleg	61
Dysgwyr yn dod yn fwy hyderus o ran astudio'n annibynnol	60
Presenoldeb wedi gwella ymhlith y rhai ag Anogwr Dysgu	52
Dysgwyr yn gwella'n academiaidd	49
Cynnig gwell cymorth i ddysgwyr na'r hyn a gynigiwyd o'r blaen	49
Ehangu gorwelion pobl ifanc	45
Dysgwyr yn fwy parod i ddefnyddio Anogwr Dysgu na chymorth blaenorol	38
Cadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnod hwy	26
Dim gwahaniaeth o gwbl	7
Cynyddu llwyth gwaith dysgwyr	3
Roedd eisoes ar waith	1
Arall	2
Ddim yn gwybod	10

Gofynnwyd i bob darparwr hefyd nodi pa fath o gymorth, o blith amrywiaeth, yr oeddent yn disgwyl i bobl ifanc 14-19 oed ei gael gan Anogwyr Dysgu. Y disgwyliad mwyaf cyffredin oedd y byddai pobl ifanc 14-19 oed yn cael eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg, a grybwyllwyd gan ddwy ran o dair (67%) o ddarparwyr. Roedd tua thair rhan o bump hefyd yn disgwyl i bobl ifanc 14-19 oed ddod yn fwy ymwybodol o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael a'r hyn maent yn ei olygu (60%),



GfK NOP

y byddent yn cael help i ddewis y dulliau dysgu gorau (59%) ac y byddent yn cael help i deimlo'n hyderus o ran eu dewisiadau (55%). Roedd ychydig o dan hanner (46%) o'r farn y byddai Anogwyr Dysgu yn cynnig cymorth nad oedd ar gael mewn mannau eraill. Dywedodd tuag un rhan o chwech (15%) o ddarparwyr nad oeddent yn gwybod.


Tabl 7: Yr help a ddisgwyliwyd gan Anogwyr Dysgu

Sylfaen: Pob darparwr (100)	Darparwyr
	%
Galluogi pobl ifanc 14-19 oed i wneud penderfyniadau hyddysg	67
Gwneud pobl ifanc 14-19 oed yn fwy ymwybodol o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael a'r hyn maent yn ei olygu	60
Helpu pobl ifanc 14-19 oed i ddewis y dulliau dysgu gorau	59
Helpu pobl ifanc 14-19 oed i deimlo'n hyderus o ran eu dewisiadau	55
Cynnig cymorth nad yw ar gael mewn mannau eraill	46
Ddim yn gwybod	15

7.6 Cymorth Personol

Dywedodd ychydig dros hanner (56%) y darparwyr eu bod wedi dechrau cyflwyno elfen Cymorth Personol y Llwybrau Dysgu.

Siart 35: Wedi dechrau cyflwyno Cymorth Personol



Sylfaen: Pob darparwr (100)

Ar y cyfan, dywedodd y rhai a oedd wedi dechrau cyflwyno Cymorth Personol ei bod hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd ei gyflwyno (68%), a dywedodd chwarter (23%) ei bod hi'n hawdd iawn, er i 9% ddweud ei bod hi'n gymharol anodd ac ni roddodd tua chwarter (23%) ateb y naill ffordd neu'r llall.

O blith y rhai nad oeddent wedi dechrau cyflwyno Cymorth Personol, dywedodd tuag un rhan o bump (21%) eu bod yn barod i ddechrau, dywedodd cyfran debyg (24%) nad oeddent yn barod ac ni roddodd y gweddill, sef y grŵp mwyaf (56%), ateb y naill ffordd neu'r llall am eu parodrwydd.

Roedd ychydig dros hanner (53%) yr holl ddarparwyr o'r farn bod ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflwyno Cymorth Personol, tra roedd 36% am fwy o wybodaeth ac roedd 11% yn ansicr.

Roedd y pryderon o ran cyflwyno Cymorth Personol yn ymddangos yn isel o gymharu ag agweddau eraill ar y rhaglen Llwybrau Dysgu: dywedodd tuag un rhan o bump o ddarparwyr (22%) fod ganddynt bryderon penodol amdano. Roedd a wnelo'r rhain â lefelau ariannu (a grybwyllwyd gan wyth allan o'r 22 â phryderon), bod cymorth personol eisoes yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion (chwe chrybwylliad), costau (tri chrybwylliad), datblygu staff (tri chrybwylliad) a lefelau staffio (dau grybwylliad).

Rhoddir rhai sylwadau isod (ceir rhagor o sylwadau yn Atodiad 2):

Mae digon o gymorth personol ar gael ar hyn o bryd. Sut y bydd hyn yn gwella ar yr hyn a gynigir nawr? (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Arian i gynnig y cymorth a'r hyfforddiant sydd eu hangen i roi'r hyder i staff gyflwyno rhaglen o ansawdd yn hytrach na menter ad hoc, sy'n gwneud y tro ac sy'n dibynnu ar arbenigedd yr unigolyn. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Efallai y bydd rhai sefydliadau gwirfoddol mewn sefyllfa ddelfrydol i roi cymorth personol o ystyried y cysylltiadau a'r rhwydweithiau ychwanegol o fewn rhwydweithiau 14-19 oed, oherwydd gallent fod yn darparu'r gwasanaeth hwn i bobl ifanc yn barod. (Darparwr Sector Gwirfoddol, De-ddwyrain Cymru)

Mae cymorth personol yn rhan o fywyd ysgol yn barod. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Yr amser sydd ei angen i ddatblygu'r arbenigedd gofynnol. Er enghraifft: gwasanaeth cyngori mewn profedigaeth. Prin iawn yw'r arbenigedd, os o gwbl, ac mae'n rhaid aros mwy na 12 mis i gael gafael ar yr hyn sydd ar gael! (Ysgol, Gogledd Cymru)

Mae tiwtorialau un i un yn ddrud i'w gweithredu. (Sefydliad Addysg Bellach, Gogledd Cymru)

Yn dal i weithio ar ein rhwydwaith cymorth lleol. Rydym yn gweithio gyda chymaint o asiantaethau â phosibl ond mae rhestrau aros ar gyfer popeth! Mae angen gwell dealltwriaeth o'n harbenigedd o ran nodi plant mewn angen mewn rhai meysydd e.e. Ar ôl addysgu plentyn am bum mlynedd a gweld dirywiad gwirioneddol yn ei iechyd meddwl bod meddyg, ar ôl cyfweiliad 10 munud, yn dweud nad oes problem (mae'n

ddrwg gennyf ei fod braidd yn benodol ond mae'n broblem gyffredin). Yn fy marn i mae hyn yn sarhad llwyr gan fod athrawon wedi bod yn gwneud hyn ers blynyddoedd fel tiwtoriaid dosbarth, penaethiaid blwyddyn ac ati. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Diffyg gwybodaeth. Dim digon o arian i gynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion â'r angen mwyaf. (Ysgol, De-orllewin Cymru)


Gofynnwyd i bob darparwr nodi pa effaith yr oeddent yn disgwyl i'r broses o gyflwyno Cymorth Personol ei chael. Roedd tri chwarter (75%) o'r farn y byddai'n gwneud i ddysgwyr deimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac roedd dwy ran o dair (67%) o'r farn y byddai'n atal dysgwyr â phroblemau rhag teimlo'n ynysig. Yn ogystal, roedd tua hanner o'r farn y byddai'n helpu dysgwyr i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau (53%) a gwella cyflawniadau academaidd dysgwyr (48%). Roedd traean o'r farn y byddai'n cadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnod hwy. Roedd y nifer a oedd yn rhagweld effeithiau negyddol megis atal dysgwyr rhag datgelu gwybodaeth bersonol yn gymharol brin.

Tabl 8: Effaith ddisgwyliedig cyflwyno Cymorth Personol

Sylfaen: Pob darparwr (100)	Darparwyr
	%
Gwneud i ddysgwyr deimlo eu bod yn cael cefnogaeth	75
Atal dysgwyr â phroblemau rhag teimlo'n ynysig	67
Helpu dysgwyr i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau	53
Gwella cyflawniadau academaidd dysgwyr	48
Cadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnod hwy	33
Atal dysgwyr rhag datgelu gwybodaeth bersonol yn yr ysgol/ coleg	6
Roedd eisoes ar waith	4
Dim gwahaniaeth o gwbl	3
Nid yr ysgol/ coleg yw'r lle i gynnig cymorth personol	3
Ddim yn gwybod	10

7.7 Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaeodd

Dywedodd tri chwarter (77%) o ddarparwyr fod eu hysgol/ coleg wedi dechrau rhoi elfen Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaeodd y Llwybrau Dysgu ar waith.

Siart 36: Wedi dechrau rhoi Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd ar waith

Sylfaen: Pob darparwr (heb ei phwysoli: 100)

Nid oedd yn ymddangos bod Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd wedi peri problemau mawr o ran ei gyflwyno. Dywedodd tri chwarter (78%) o'r rhai a oedd wedi dechrau rhoi Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd ar waith ei bod hi wedi bod yn hawdd ei wneud, a dywedodd 31% ei bod hi wedi bod yn hawdd iawn. Er na roddodd 18% ateb y naill ffordd neu'r llall o ran yr anawsterau, dim ond 4% a ddywedodd fod y broses yn anodd.

O'r naw darparwr a ddywedodd nad oeddent wedi dechrau rhoi Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd ar waith, dywedodd dau fod eu sefydliad yn gymharol barod o leiaf, dywedodd dau eu bod yn amharod iawn ac roedd y pump a oedd yn weddill yn niwtral.

Roedd saith allan o ddeg o ddarparwyr (72%) o'r farn bod ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflwyno Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd i'w hysgol/coleg, tra dywedodd 17% eu bod am gael rhagor o wybodaeth am hyn.

Roedd y pryderon ynghylch cyflwyno Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd yn isel, gyda dim ond 9% yn dweud bod ganddynt bryderon penodol amdano. Rhoddir y sylwadau a wnaed gan ddarparwyr ar y pwnc hwn isod⁵:

⁵ Ceir rhagor o sylwadau yn Atodiad 2.

Rydym yn cynnwys Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd beth bynnag, ac nid oes angen yr agenda Llwybrau 14-19 i ddweud wrthym am wneud hynny. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Mae Gyrfa Cymru eisoes yn cynnig rhaglen gynhwysfawr - croesewir unrhyw beth a fydd yn gwella ar hyn ac yn ei ddatblygu. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Nid yw staff yn hoffi cyflwyno 'pynciau' y tu allan i'w prif feysydd cwricwlaidd. Nid oes digon o amser/arian o fewn ysgol, i gyflogi arbenigwr hyfforddedig i gyflwyno'r maes hwn i bob disgybl. Weithiau nid yw'r broses o'i gyflwyno yn gyson! Bydd angen ei monitro'n ofalus er mwyn sicrhau ansawdd. (Ysgol, Gogledd Cymru)

Natur ddiuedd rhywfaint o'r cyngor a gynigir. (Sefydliad Addysg Bellach, De-orllewin Cymru)

Hyd yma mae'r cyngor ar yrfaoedd yn rhan o'r broses gyfweld a gynigir gan y coleg i ddysgwyr cyn 16. Daw dysgwyr i gysylltiad ag oedolion a oedd â gyrfaedd cyn mentro i fyd addysg sy'n ceisio mesur eu gwybodaeth am y llwybr galwedigaethol maent am ei ddilyn, ynghyd â'u hymrwymiad iddo. Mae'r bobl hyn mewn sefyllfa dda i rannu eu profiad drwy'r cwrs galwedigaethol. Fodd bynnag, nid yw cyngor ar yrfaoedd yn elfen ar wahân o'u hastudiaethau llwybr yn y coleg. (Sefydliad Addysg Bellach, De-ddwyrain Cymru)

Holwyd darparwyr am effeithiau disgwylidig y broses o gyflwyno Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd. Roedd pedwar allan o bump (82%) o'r farn y byddai'n helpu dysgwyr i nodi eu llwybr. Roedd tua dwy ran o dair o'r farn y byddai'n rhoi'r un lefel o gyngor ac arweiniad i bob dysgwr (67%), yn gwneud i ddysgwyr deimlo eu bod yn cael cefnogaeth (66%) ac yn ehangu gorwelion dysgwyr (64%). Roedd traean (35%) o'r farn y byddai'n helpu i gadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnod hwy. Nid oedd unrhyw ddarparwr o'r farn na fyddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr, ond lleisiwyd rhai pryderon y gellid ystyried ei fod yn cynnig cyngor nad yw'n ddiuedd (9%).

Tabl 9: Effaith ddisgwyliedig cyflwyno Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd


Sylfaen: Pob darparwr (100)	Darparwyr
	%
Helpu dysgwyr i nodi eu llwybr	82
Rhoi'r un lefel o gyngor ac arweiniad i bob dysgwr	67
Gwneud i ddysgwyr deimlo eu bod yn cael cefnogaeth	66
Ehangu gorwelion dysgwyr	64
Cadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnod hwy	35
Ystyried ei fod yn cynnig cyngor nad yw'n ddiduedd	9
Roedd eisoes ar waith	3
Dim gwahaniaeth o gwbl	2
Arall	2
Ddim yn gwybod	4

7.8 Pwysigrwydd dyheadau

Fel y bobl ifanc 14-19 oed a'r rhieni, gofynnwyd i'r darparwyr raddio nifer o ddyheadau yn ôl sgôr pwysigrwydd. Cânt eu graddio yn ôl pwysigrwydd cymedr yn y siart isod. Ni wahaniaethodd darparwyr rhwng "y gallu i gymysgu astudiaethau academiaidd a galwedigaethol" a'r "gallu i gymysgu llwybrau academiaidd a galwedigaethol"; ni wnaethant ychwaith wahaniaethu rhwng "mwy o opsiynau seiliedig ar waith" a "mwy o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith", na rhwng "mwy o gyfleoedd i ddysgu'n ddwyieithog" a "mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg", gan raddio'r ddau ddatganiad ymhob achos yn debyg iawn o ran pwysigrwydd.

Rhoddwyd y flaenoriaeth fwyaf i'r gallu i gymysgu astudiaethau/llwybrau academiaidd a galwedigaethol, gyda 68% yn dweud bod pob un o'r rhain yn bwysig iawn. Nesaf nodwyd dosbarthiadau llai o faint (59% yn bwysig iawn), a ddilynwyd gan fwy o opsiynau dysgu seiliedig ar waith (50%)/mwy o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith (48%), a mwy o gydweithio rhwng colegau (45%). Dywedodd tua thraean (31%) fod mwy o ddysgu sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn bwysig iawn. Dywedodd tuag un rhan o bump fod mwy o gyfleoedd i ddysgu'n ddwyieithog/mwy o gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig iawn (19% a 18%). O'r dyheadau a gwmpaswyd, rhoddwyd y pwysigrwydd lleiaf i lai o bynciau craidd, gydag 11% yn dweud bod hyn yn bwysig iawn.

Siart 37: Pwysigrwydd dyheadau



Sylfaen: Pob Darparwr (heb ei phwysoli: 100)

7.9 Effeithiau'r ddarpariaeth well i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru


Dangoswyd pum datganiad i ddarparwyr am effeithiau'r ddarpariaeth well i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru a gofynnwyd pa mor gryf yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob un. Prin iawn yr anghytunwyd ag unrhyw un o'r datganiadau ond roedd rhywfaint o amrywiaeth o ran y graddau y cytunwyd â hwy.

Roedd dwy ran o bump (39%) o ddarparwyr yn cytuno'n gryf y byddai gwell opsiynau galwedigaethol yn sicrhau bod pobl ifanc yn ymbaratoi'n well ar gyfer eu dewis yrfa, ac roedd 55% yn dueddol o gytuno; tra na roddodd 6% ateb y naill ffordd neu'r llall, ac ni wnaeth neb anghytuno â'r datganiad hwn. Cytunodd nifer fawr debyg â'r farn y byddai profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn rhoi gwell syniad i bobl ifanc o natur bywyd gwaith (cyfanswm o 91% yn cytuno, 40% yn cytuno'n gryf) ac y byddai cyfrannu at y gymuned yn helpu i wneud pobl ifanc yn ddinasyddion gwell (cyfanswm o 87% yn cytuno, 42% yn cytuno'n gryf).

Cytunodd tri chwarter (73%) o ddarparwyr y byddai'r Llwybr Dysgu yn sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn cael yr addysg fwyaf priodol iddynt, gyda 25% yn cytuno'n gryf. Rhoddodd un rhan o bump naill ai ateb niwtral neu ddywedont nad oeddent yn gwybod, ond anghytunodd 7% o ddarparwyr â'r farn hon am y Llwybr Dysgu.

Roedd hanner (51%) y ddarparwyr yn cytuno y byddai Bagloriaeth Cymru yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael addysg hollgynhwysfawr - roedd 21% yn cytuno'n gryf tra bod 30% yn dueddol o gytuno. Anghytunodd 14% â'r datganiad. Dywedodd 30% sylweddol nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno tra nad oedd 5% yn gwybod.

Siart 38: Effeithiau'r ddarpariaeth well i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru (datganiadau cytuno/anghytuno)



Sylfaen: Pob darparwr (heb ei phwysoli: 100)

7.10 Crynodeb

Ym marn tri chwarter o'r darparwyr yn gyffredinol, roedd y ddarpariaeth ddysgu i bobl ifanc 14-19 oed wedi gwella dros y ddwy flynedd diwethaf, tra bod un rhan o bump o'r farn ei bod wedi aros yr un peth; dim ond 1 y cant a oedd o'r farn ei bod wedi gwaethgu yn ystod y cyfnod hwnnw. Hefyd, ystyriwyd bod y rhaglen Llwybrau Dysgu yn gam cadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o ddarparwyr o'r farn y byddai'n gwella'r opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed.

At hynny, roedd dwy ran o dair o'r farn bod y rhaglen yn cyfuno'n dda â'r opsiynau a oedd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed yn eu hysgol neu eu coleg. Dim ond lleiafrif bach a oedd o'r farn bod y cyfuniad yn un gwael.

Er mai megis dechrau y mae'r rhaglen Llwybrau Dysgu, dywedodd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr (84%) eu bod eisoes yn rhoi'r rhaglen ar waith, gyda thri chwarter ohonynt yn cyfeirio at effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr a'r ysgol/coleg ei hun.

Roedd cyfran lai (65%) wedi dechrau cyflwyno llwybrau dysgu unigol, gydag ychydig o dan hanner y rhain yn nodi eu bod wedi cael anawsterau i'w gweithredu. Roedd cyfran sylweddol o'r rhai nad oeddent wedi dechrau cyflwyno llwybrau dysgu unigol yn ansicr ynghylch a oeddent yn barod i wneud hynny. Ymddangosodd bod y pryderon hyn yn gyfiawn, o ystyried bod gan ddwy ran o dair o ddarparwyr amheuan ynghylch eu gallu i roi'r rhaglen ar waith. Y prif broblemau a ragwelwyd oedd: lefelau ariannu; problemau amserlennu; cost cludiant; cydweithio rhwng cyflogwyr; a lefelau staffio.

Yr effaith a ddisgwyliwyd ar ddysgwyr yn sgîl cyflwyno llwybrau dysgu unigol oedd:

- Pobl ifanc wedi ymbaratoi'n well ar gyfer bywyd gwaith;
- Helpu pobl ifanc i nodi ffyrdd o gyflawni eu dyheadau;
- Mwy o bobl ifanc yn dilyn cyrsiau galwedigaethol;
- Ehangu gorwelion pobl ifanc.

Soniodd cyfran lai am effeithiau negyddol posibl, megis cynyddu llwyth gwaith y dysgwyr, ac arwain at ddryswch ymhlith dysgwyr yn sgîl y ffaith bod gormod o opsiynau ar gael.

Roedd cyfran fawr o ddarparwyr (77%) wedi cymryd camau i gyflwyno cyrsiau neu bynciau newydd, fel rhan o'r elfen Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd, drwy eu darpariaeth eu hunain neu ar y cyd â darparwyr lleol eraill. Dim ond un rhan o ddeg nad oeddent yn gallu nodi enghreifftiau o ddatblygiad o'r fath. Roedd bron hanner y grŵp hwn a oedd wedi cymryd camau i gydweithio â darparwyr lleol eraill wedi cael anawsterau i weithredu'r trefniadau hyn.

Nododd bron hanner yr ymatebwyr bryderon penodol ynghylch rhoi Mwy o Ddewis a Hyblygrwydd ar waith. Lefelau ariannu, amserlennu, cost cludiant, logisteg a lefelau staffio oedd y prif broblemau a ragwelwyd. Serch hynny, roedd consensws eang ynghylch effaith fuddiol bosibl yr elfen hon.

Roedd yr elfen Craidd Dysgu eisoes wedi cael ei chyflwyno gan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr, gyda'r cyfrannau a nododd y bu'n hawdd ei rhoi ar waith (44 y cant) yn sylweddol uwch na'r cyfrannau a gafodd anawsterau (12 y cant).

Roedd dwy ran o dair o ymatebwyr (64%) yn hyderus bod ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflwyno'r Craidd Dysgu, tra bod gan draean (36%) bryderon - arian a'r amserlen oedd y prif rai.

O ran effaith ragweladwy'r Craidd Dysgu, y potensial i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau cymunedol a gwirfoddol a grybwyllwyd fwyaf aml. Ystyriwyd hefyd fod paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer bywyd gwaith, rhoi ymdeimlad o gymuned iddynt ac ehangu eu gorwelion yn ganlyniadau tebygol.

Roedd tua hanner (48%) y darparwyr wedi cymryd rhan yn y treial yn cynnig Anogwyr Dysgu i ddysgwyr. O'r rhai a gymerodd ran yn y treial, dywedodd hanner y bu'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cyflwyno Anogwyr Dysgu i'w sefydliad. Roedd traean wedi cael anawsterau, yn ymwneud gan fwyaf â lefelau ariannu, amser, lefelau staffio a nifer yr anogwyr gofynnol a hyfforddiant staff.

Roedd manteision yr Anogwr Dysgu yn amlwg, gyda thri chwarter (77%) yr ymatebwyr yn honni bod yr effaith yn gadarnhaol. Yr hyn a oedd yn arwyddocaol

iawn oedd y ffaith bod dros hanner (58%) yn credu bod myfyrwyr ag Anogwyr Dysgu yn dueddol o ymddiddori'n fwy yn eu hastudiaethau. Dim ond cyfrannau ychydig yn llai a ddywedodd y bu effaith ar ddysgwyr wedi dadrithio, a oedd yn ymddiddori'n fwy yn eu hastudiaethau, a bod y cymorth a roddwyd i fyfyrwyr yn fwy strwythuredig.

Yn amlwg, mae cyflwyno Anogwyr Dysgu yn llwyddiannus drwy'r system addysg yn gofyn am recriwtio a hyfforddi unigolion cymwys addas. Er y cydnabyddir mai megis dechrau y mae'r fenter, un o'r pryderon yw bod llai nag un rhan o bump (18%) o ddarparwyr wedi pennu eu holl Anogwyr Dysgu, ac nid oedd bron traean (31%) wedi pennu unrhyw rai.

Yn sgîl yr uchod, nid oedd yn syndod bod llai na hanner y darparwyr (44%) o'r farn eu bod yn barod i gynnig Anogwyr Dysgu. Cyfyngiadau ariannu, nifer yr anogwyr gofynnol ac ansicrwydd ynghylch statws anogwyr oedd y prif bryderon. Roedd budd posibl yr Anogwr Dysgu yn ddigon amlwg i ddarparwyr, gyda lefel uwch o ymddiddori ymhlith dysgwyr, a dysgwyr yn dod yn fwy hyderus o ran astudio'n annibynnol yn cael eu nodi amlaf fel y manteision.

O ran y cymorth penodol y gallent ei roi, y disgwyliad mwyaf cyffredin oedd y byddai pobl ifanc 14-19 oed yn cael eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg (a grybwyllwyd gan ddwy ran o dair o ddarparwyr). Roedd tua thair rhan o bump hefyd yn disgwyl i bobl ifanc 14-19 oed ddod yn fwy ymwybodol o'r amrywiaeth o opsiynau a oedd ar gael a'u goblygiadau (60%), y byddent yn cael cymorth i ddewis y dulliau dysgu gorau (59%) ac y byddent yn cael cymorth i deimlo'n hyderus ynghylch eu dewisiadau (55%).

Dywedodd ychydig dros hanner (56%) y darparwyr eu bod wedi dechrau rhoi elfen Cymorth Personol y Llwybrau Dysgu ar waith. Ymddangosodd y pryder ynghylch rhoi Cymorth Personol ar waith yn isel o gymharu ag agweddau eraill ar y rhaglen Llwybrau Dysgu. Roedd y pryderon a godwyd yn ymwneud â lefelau ariannu, y cymorth personol a oedd eisoes yn rhan o fywyd ysgol, costau, datblygiad staff a lefelau staffio. Roedd tri chwarter o ddarparwyr o'r farn y byddai'n gwneud i ddysgwyr deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac roedd dwy ran o dair o'r farn y byddai'n atal dysgwyr â phroblemau rhag teimlo'n ynysig. Yn ogystal, roedd tua hanner o'r farn y byddai'n helpu dysgwyr i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau ac yn gwella cyflawniadau academaidd dysgwyr.

Nid yw'n syndod, o ystyried ei bod wedi bod yn rhan o fywyd ysgolion a cholegau ers amser hir, i'r elfen Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd gael ei hystyried yn eithaf hawdd ei chyflwyno, gyda nifer fach iawn o bryderon yn cael eu codi. Cydnabuwyd y potensial i Gyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd helpu dysgwyr i nodi eu llwybr, yn ogystal â gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac ehangu eu gorwelion.

Y dyheadau pwysicaf, ym marn darparwyr, oedd y gallu i gymysgu astudiaethau/llwybrau academaidd a galwedigaethol a lleihau maint dosbarthiadau.



GfK NOP

O blith amrywiaeth o ddatganiadau am agweddau y gofynnwyd i ymatebwyr roi sylwadau arnynt, y rhai y cytunwyd arnynt fwyaf oedd: "bydd gwell opsiynau galwedigaethol yn sicrhau bod pobl ifanc yn ymbaratoi'n well ar gyfer eu dewis yrfa"; a "bydd profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn rhoi syniad gwell i bobl ifanc o natur bywyd gwaith".

8 Casgliadau a goblygiadau polisi

Prin yw ymwybyddiaeth pobl ifanc o opsiynau 14-19 ac ar y cyfan dim ond gwybod am eu cyfnod dysgu presennol y maent, a phrin iawn y mae rhieni yn gwybod am opsiynau 14-19. Mae'n bwysig cydnabod y diffyg ymwybyddiaeth cymharol hwn o'r cychwyn wrth ystyried goblygiadau polisi. Fodd bynnag, dylid hefyd gydnabod mai megis dechrau y mae'r broses o gyflwyno'r polisi.

Mae'r ffaith bod tua thraean o'r bobl ifanc a'r rhieni yn yr arolwg meintiol wedi nodi nad oeddent yn gwybod fawr ddim am y cymwysterau a oedd ar gael yn amlwg yn peri pryder. Ychwanegir at y pryder hwn pan ystyrir canfyddiadau'r ymchwil ansoddol a nododd lefelau uwch o ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r opsiynau a oedd ar gael. Felly, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at yr angen taer i wella effeithiolrwydd y dulliau o hysbysu pobl ifanc a'u rhieni am yr opsiynau sydd ar gael, a goblygiadau gwneud dewisiadau penodol.

Roedd ymrwymiad i werth cymwysterau galwedigaethol, o gymharu â chymwysterau academiaidd, yn amlwg ymhlith tua chwarter o'r bobl ifanc a'r rhieni. Nid oedd modd dweud a oedd hyn yn adlewyrchu arfarniad ystyriol a hyddysg o safle cymwysterau galwedigaethol, neu a oedd yn seiliedig ar farn hen ffasiwn neu rannol o alw'r farchnad lafur.

Nid oedd yn ymddangos bod cyfran uchel o bobl ifanc a rhieni yn gwerthfawrogi cymwysterau, gan ddweud bod profiad gwaith yn bwysicach, sy'n peri pryder. Unwaith eto, mae hyn yn tanlinellu'r angen i atgyfnerthu'r neges bod cymwysterau yn parhau i ddod yn bwysicach, mewn perthynas â dod yn rhan o'r farchnad lafur.

O ystyried statws deuol y Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd swyddogol Cymru, mae cyfran y bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg ond nad ydynt yn cael y cyfle i'w defnyddio wrth ddysgu yn awgrymu bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn cyfateb i ddyheadau. Mae angen gwneud gwaith monitro agosach yn y maes hwn a gweithredu'r polisi mewn ffordd fwy effeithiol.

Mae'r brwdfrydedd ymhlith pobl ifanc tuag at 'Brofiad sy'n Canolbwyntio ar Waith' yn bwysig wrth ystyried mentrau sy'n ymwneud â gwella eu cyflogadwyedd ac addysg mentergarwch, gan ei fod yn dangos parodrwydd i achub ar gyfleoedd o'r fath a thrwy hynny ddatblygu sgiliau gwneud penderfyniadau, cyfathrebu, gweithio mewn tîm a sgiliau eraill sy'n ddymunol gan gyflogwyr wrth recriwtio.

Er mwyn i'r Llwybrau Dysgu ddod yn rhan o broses gwneud penderfyniadau a dewis opsiynau pobl ifanc, mae'n bwysig defnyddio terminoleg sy'n berthnasol i bobl ifanc. Un o ganfyddiadau arwyddocaol yr ymchwil hon oedd y ffaith nad oedd y derminoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwahanol rannau o'r Cynllun Gweithredu yn gyson rhwng ysgolion a cholegau ac nid oedd yn gyfarwydd i gan lawer o bobl ifanc a rhieni.

Mae'r lefelau uchel o gydnabyddiaeth o ran cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd ymhlith pobl ifanc a rhieni yn nodi'n glir bwysigrwydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd, ac addysg gyrfaoedd mewn ysgolion a cholegau fel ffynonellau cyngor credadwy a sefydledig i bobl ifanc. At hynny, mae'r rôl 'brocer gonest' ddiuedd a fabwysiadwyd yn draddodiadol gan y gwasanaeth gyrfaoedd yn rhoi Gyrfa Cymru mewn sefyllfa hollbwysig o ran rhoi cyngor ac arweiniad.

Mae'r lefelau uchel o foddhad a gofnodwyd gan bobl ifanc o ran llwybrau dysgu unigol yn galonogol iawn. Awgryma hyn, unwaith y gwneir pobl ifanc a'u rhieni yn ymwybodol o'r hyn a ddarperir gan yr elfennau amrywiol, ac nid dim ond o'u bodolaeth, y bydd effaith gadarnhaol sylweddol ar y broses o wneud penderfyniadau. Yn arbennig, gallai'r syniad o Anogwr Dysgu, os gellir ei gynnig i bobl ifanc, gyda staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau priodol, wella dealltwriaeth pobl ifanc o'r cyfleoedd a'r llwybrau sydd ar gael iddynt yn fawr, yn ogystal â'u hyder wrth wneud penderfyniadau.

Er mwyn i'r system hon weithredu'n effeithiol, dylid rhoi pwyslais ar hwyluso'r broses gydlynw a chydweithio rhwng mewnbwn y gwasanaeth gyrfaoedd a'r rhai sy'n rhoi cyngor ac arweiniad mewn ysgolion/colegau, yn enwedig Anogwyr Dysgu.

Hefyd, bydd angen sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am roi cyngor ac arweiniad yn meddu ar y wybodaeth a'r cymwysterau priodol i gyflawni'r rolau hyn. Bydd cymwysterau proffesiynol ym maes rhoi arweiniad ar yrfaeodd ac addysg gyrfaoedd yn hanfodol yma.

Fodd bynnag, ni fydd y broses o ddatblygu rhwydwaith cymorth mor fedrus a chymwys yn effeithiol, heb fwy o gysondeb ac eglurder o ran y diffiniadau o elfennau'r Llwybrau Dysgu, a'u defnydd gan bobl ifanc.

Nid yw'r ffaith bod pobl ifanc a'u rhieni yn dueddol o wybod am yr opsiynau a oedd ar gael ar gam nesaf eu haddysg, yn hytrach na gwybod am y cyfnod 14-19 cyfan yn syndod, ac nid yw o reidrwydd yn broblematig. Y peth pwysicaf yw bod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniadau hyddysg ac effeithiol ar ba gam bynnag y maent wedi ei gyrraedd.

O'r bobl ifanc hynny a oedd yn ymwybodol o elfennau'r Llwybrau Dysgu, roedd lefelau boddhad yn uchel. Awgryma hyn fod gwell dealltwriaeth o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael yn cael ei datblygu a chaiff hyn ei weld yn y dewisiadau priodol a wneir.

Mae'r brwdfrydedd a ddangoswyd o ran gwneud profiad gwaith yn arwydd bod mwy o alw am addysg mentergarwch a phrofiad o ansawdd da. Drwy wneud ymgeiswyr ifanc yn fwy cyflogadwy, mae cyflogwyr yn debygol o groesawu'r datblygiad hwn.

O ystyried bod y mwyafrif o ddarparwyr yn cytuno y byddai'r rhaglen Llwybrau Dysgu yn darparu mwy o gyfleoedd priodol i bobl ifanc, gellir disgwyl y bydd darparwyr yn fodlon cynorthwyo wrth weithredu'r rhaglen a chydweithio i wneud hynny.

Caiff yr Anogwr Dysgu, a all roi cymorth parhaus i bobl ifanc o ran gwneud penderfyniadau, ei groesawu'n fawr gan ddarparwyr, a chydabyddir y gall gyfrannu'n sylweddol at system fwy effeithiol. Fodd bynnag, erys cwestiynau ynghylch ymarferoldeb darparu nifer yr anogwyr sydd eu hangen i gynnig y cymorth sydd ei angen. Nid dim ond rhoi cyfrifoldeb i staff presennol mae'n ei olygu. Yn gyntaf, mae goblygiadau mawr o ran adnoddau, er mwyn cynnal lefel ddigonol o gymorth. Yn ail, rhaid cydnabod bod angen meddu ar arbenigedd penodol sy'n gysylltiedig â chynghor ac arweiniad ar yrfaoedd, a gwybodaeth eang am y llwybrau y gallai pobl ifanc eu dilyn, ynghyd â'r cyfleoedd cyflogaeth a dysgu y gallent achub arnynt. Felly, mae angen asesu'r goblygiadau o ran hyfforddi Anogwyr Dysgu.

Yn anochel, codwyd pryderon ynghylch digonolrwydd yr arian sydd ar gael i gefnogi'r system newydd. Er enghraifft, mae'r math o gymorth a gynigir gan Anogwr Dysgu yn rhoi llawer o alw ar amser staff, a gellid ei ystyried yn gostus. Felly, mae'n bwysig cyflwyno proses systematig o fonitro a gwerthuso'r fenter, er mwyn cael tystiolaeth o'r effaith ar ganlyniadau pobl ifanc. Wedyn gellir asesu cost effeithiolrwydd y rhaglen.

Er mwyn mynd i'r afael ag amharodrwydd ymddangosol sawl darparwr i gytuno ar drefniadau cydweithio gyda darparwyr eraill, dylid ymdrechu i annog mwy o gydweithio a chydweithredu, er budd pobl ifanc - hynny yw, eu galluogi i ddewis o blith amrywiaeth eang o ddarpariaeth.

9 Atodiad Technegol

9.1 Methodoleg yr arolwg meintiol - pobl ifanc a rhieni

Cynhaliwyd yr arolygon meintiol o rieni pobl ifanc 14-19 oed a phobl ifanc 14-19 oed dros y ffôn. Cafodd sampl o rifau ffôn eu sgrinio i nodi'r cartrefi ag ymatebwyr cymwys. Canolbwyntiodd y broses sgrinio ar bresenoldeb rhiant bachgen neu ferch 14-19 oed yn gyntaf a lle bynnag y bo'n bosibl, cyfwelwyd â'r rhiant hwnnw ar gyfer yr arolwg. Wedyn gofynnwyd am ganiatâd y rhiant i gyfweld â'r plentyn. Ar yr amod bod y plentyn hefyd yn cytuno, cynhaliwyd cyfweiliad. Fodd bynnag, y nod oedd cynnal mwy o gyfweiliadau gyda phobl ifanc 14-19 oed na rhieni (1000 a 750), felly dim ond er mwyn nodi bod bachgen neu ferch 14-19 oed ar gael i gyfweld ag ef neu hi y cafodd rhai rhifau ffôn eu sgrinio, er y gofynnwyd am ganiatâd rhieni o hyd ar gyfer y rhai 14-17 oed. Cafodd 1000 o bobl ifanc 14-19 oed a 756 o rieni pobl ifanc 14-19 oed eu cynnwys yn y sampl.

Unwaith y lluniwyd yr holiadur, cynhaliwyd astudiaeth beilot fach ym mis Mawrth 2007 er mwyn sicrhau bod yr holiadur yn gweithio'n dda yn y maes. Gwnaed y prif waith maes ym mis Ebrill 2007 gan Wasanaethau Cyfweld Dros y Ffôn GfK NOP. Cafodd rhieni a phlant gyfle i gymryd rhan yn yr arolwg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau, cafodd proffil pobl ifanc 14-19 oed ei bwysoli yn ôl oedran a rhyw er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru. Nid oedd unrhyw wybodaeth benodol ar gael am broffil rhieni'r bobl ifanc 14-19 oed, ac felly ni chafodd proffil demograffig y rhieni ei bwysoli.

9.2 Methodoleg yr arolwg meintiol - darparwyr

Cynhaliwyd yr arolwg meintiol o ddarparwyr drwy holiadur ar y we. Rhoddodd yr Adran fanylion i GfK NOP am sefydliadau a oedd yn darparu addysg i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru. Cysylltodd GfK NOP â phob sefydliad dros y ffôn i gael enw a chyfeiriad e-bost yr unigolyn a oedd yn bennaf cyfrifol am gydlynw addysg 14-19 o fewn y sefydliad hwnnw (cyfeirir atynt fel Cynrychiolwyr Rhwydwaith). Cynhaliwyd astudiaeth beilot lle anfonwyd holiadur yr arolwg at nifer fach o unigolion. Yn dilyn yr astudiaeth beilot hon, anfonodd GfK NOP e-bost at yr holl Gynrychiolwyr Rhwydwaith gyda chyswllt ar gyfer holiadur yr arolwg. Cynhwyswyd y cyswllt mewn neges ragarweiniol yn egluro cefndir ac amcanion y prosiect ymchwil. Hefyd roedd cyfle i'r cynrychiolwyr gwblhau'r holiadur drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Anfonwyd nifer o negeseuon atgoffa dros yr e-bost er mwyn annog ymatebion. Casglwyd data rhwng mis Mai a mis Mehefin 2007. Cymerodd 100 o Gynrychiolwyr Rhwydwaith ran yn yr arolwg. Ni chafodd proffil yr unigolion hyn ei bwysoli.

Atodiad 1 Ymchwil ansoddol

9.3 Amcanion ymchwil ansoddol

Prif amcan yr ymchwil ansoddol oedd llywio a hwyluso'r astudiaeth feintiol sylfaenol o ymwybyddiaeth. Drwy wneud hynny, y cylch gwaith ansoddol oedd cymhwyso ac astudio'r hyn yr oedd pobl ifanc, rhieni a Chynrychiolwyr Rhwydwaith yn ei wybod am Llwybrau Dysgu.

Mae dogfen Llwybrau Dysgu 14-19 Canllawiau II yn rhannu Llwybrau Dysgu yn chwe elfen ddiffiniedig. Fodd bynnag nid oedd y termau hyn yn cael eu defnyddio na'u deall yn gyffredinol.

Mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn ymgorffori mentrau sefydledig yn y rhaglen, yn ogystal â chyflwyno cysyniadau newydd. Felly, roedd yr ymchwil hon hefyd yn ymchwilio i fentrau a oedd yn cael eu cyflwyno eisoes, er na chredwyd eu bod yn rhan o'r rhaglen Llwybrau Dysgu.

Er mwyn cyflwyno llinell sylfaen gywir o ran ymwybyddiaeth o'r Llwybrau Dysgu yng Nghymru a hynny'n feintiol, roedd angen gwneud ymchwil i ddeall sut y cyfeiriwyd at y Llwybrau. Felly, roedd angen gwneud gwaith ansoddol rhagarweiniol i nodi'r termau a'r ymadroddion a ddefnyddiwyd i ddisgrifio gwahanol elfennau'r Llwybrau Dysgu. Byddai hyn yn helpu i lunio'r holiaduron llinell sylfaen meintiol ac yn sicrhau bod yr ymchwil yn defnyddio'r un iaith â'r ymatebwyr a oedd yn cymryd rhan.

9.4 Dull o Weithredu a'r Gynulleidfa

Ymchwiliwyd i'r Llwybrau Dysgu yn ansoddol mewn modd deuol. Dewiswyd trafodaethau grŵp i nodi'r ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Llwybrau Dysgu ymhlith pobl ifanc a rhieni tra cynlluniwyd y cyfweiliadau manwl i ganolbwyntio ar y Llwybrau Dysgu ac i alluogi'r Cynrychiolwyr Rhwydwaith i ymhelaethu ar y termau a ddefnyddiwyd mewn sefydliadau academiaidd a hyfforddiant.

Cynhaliwyd cyfanswm o naw grŵp ffocws gyda phobl ifanc; chwe grŵp ffocws gyda rhieni a chwe cyfweiliad manwl gyda Chynrychiolwyr Rhwydwaith. Cynhaliwyd ymgynghoriadau yn y Gogledd, y De a'r Canolbarth. Ar gyfartaledd, roedd pob grŵp ffocws yn cynnwys wyth ymatebwr tra cynhaliwyd y cyfweiliadau manwl gydag unigolion.

9.4.1 Pobl Ifanc

O'r naw grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda phobl ifanc, cynhaliwyd un grŵp ffocws gyda phobl ifanc 17-18 oed nad oeddent mewn addysg mwyach tra cynhaliwyd yr wyth grŵp ffocws a oedd yn weddill gyda dysgwyr yn amrywio o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 13.

Er mwyn casglu barn amrywiol, roedd rhai o'r bobl ifanc nad oeddent mewn addysg yn gweithio tra bo rhai yn ddiwaith ar y pryd. Nid oedd unrhyw un yn cael hyfforddiant ffurfiol er y byddai pob un wedi gadael addysg lawn amser o fewn y ddwy flynedd diwethaf.

Cafodd y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda dysgwyr eu rhannu yn ôl blwyddyn academiaidd ac yn ôl nodwedd ychwanegol, yn cynnwys: mynychu ysgol/coleg a oedd yn cynnig Bagloriaeth Cymru, y tebygolrwydd o barhau ag astudiaethau academiaidd ac aros mewn addysg, y tebygolrwydd o adael addysg a'r tebygolrwydd o astudio pynciau galwedigaethol / cymhwysol yn y dyfodol.

Ystyriodd pob grŵp ffocws y wybodaeth a oedd gan bobl ifanc am yr opsiynau a oedd ar gael iddynt yn ogystal â phrofi cysyniadau Llwybrau Dysgu 14-19.

9.4.2 Rhieni

Cynhaliwyd tri grŵp ffocws ar wahân gyda rhieni pobl ifanc ym Mlwyddyn 10, Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13. Cafodd y blynyddoedd academiaidd hyn eu nodi fel rhai a oedd yn cynnwys pobl ifanc a fyddai'n gwneud penderfyniadau am eu dyfodol a lle y gallai rhieni fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Cafodd rhieni pobl ifanc academiaidd, dysgwyr a oedd yn chwilio am gyrsiau galwedigaethol yn ogystal â myfyrwyr Bagloriaeth Cymru eu cynnwys yn y sampl. Fel gyda phobl ifanc; holwyd rhieni am eu gwybodaeth am opsiynau 14-19 oed, cyn gofyn iddynt ymateb i'r chwe elfen o'r Llwybrau Dysgu.

9.4.3 Cynrychiolwyr Rhwydwaith

Cyfwelwyd â Chynrychiolwyr Rhwydwaith o dair ysgol a thri choleg wyneb yn wyneb am eu dealltwriaeth o'r opsiynau a oedd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru a'u hagweddau tuag atynt. Parodd pob cyfweiliad awr, gan ganolbwyntio ar y broses o gyflwyno Llwybrau Dysgu, y manteision a'r anfantaision.

9.5 Ymwybyddiaeth

Cyn yr ymchwil hon, prin oedd y wybodaeth am ymwybyddiaeth pobl ifanc a rhieni o'r opsiynau a oedd ar gael yng Nghymru, ac fel y soniwyd amdano eisoes, gwnaed ymchwil ansoddol i osgoi tybio lefel anghywir o ymwybyddiaeth wrth lunio'r holiadur meintiol.

9.5.1 Opsiynau pobl ifanc 14-19 oed

Nid yw'n syndod mai Cynrychiolwyr Rhwydwaith oedd fwyaf ymwybodol o'r opsiynau a oedd ar gael i ddysgwyr a rhieni oedd y lleiaf gwybodus.

Roedd gan bobl ifanc wybodaeth dda am yr opsiynau a oedd ar gael iddynt. Fodd bynnag, roedd eu gwybodaeth yn canolbwyntio ar eu penderfyniadau nesaf o ran eu

haddysg yn hytrach na gwybodaeth helaeth am yr holl opsiynau a oedd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed a welwyd ymhlith Cynrychiolwyr Rhwydwaith.

Yn yr un modd roedd rhieni yn benodol iawn o ran eu hymwybyddiaeth o opsiynau addysg. Roeddent yn dibynnu ar ohebiaeth ffurfiol gan ysgolion a cholegau ynghyd â gwybodaeth anffurfiol a roddwyd iddynt ar lafar gan eu plant neu rieni eraill. O ganlyniad, roedd rhieni wedi clywed am lawer o'r opsiynau a oedd ar gael i ddysgwyr, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol, er na allent ymhelaethu ar beth yr oedd yr opsiynau hyn yn ei olygu.

Cadarnhaodd y canfyddiadau ansoddol rhagarweiniol hyn y byddai angen i'r arolygon sylfaenol adlewyrchu'r ymwybyddiaeth wahanol ymhlith pob un o grwpiau'r sampl. Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar bob elfen o'r Llwybrau Dysgu, yn benodol y termau a ddefnyddir i ddisgrifio pob un ac i ba raddau y mae pob elfen yn gyfarwydd i grwpiau'r sampl.

9.5.2 Llwybrau Dysgu

Gofynnwyd i bob ymatebwr am ei ymwybyddiaeth a'i wybodaeth am y Llwybrau Dysgu. Dim ond y Cynrychiolwyr Rhwydwaith a oedd yn ymwybodol o Llwybrau Dysgu er bod llawer o'r bobl ifanc a'r rhieni yn gyfarwydd â rhai o elfennau'r Llwybr.

A) Pobl Ifanc

Roedd dysgwyr (a oedd mewn addysg o hyd) a Phobl Ifanc (nad oeddent mewn addysg mwyach) yn frwdfrydig ynghylch yr elfennau 'newydd' o'r Llwybrau Dysgu. Prin oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp hyn o ran eu hymwybyddiaeth o'r Llwybrau Dysgu.

Croesawyd mwy o hyblygrwydd a dewis yn ogystal â'r cyfle i gymryd rhan mewn 'Profiad sy'n Canolbwyntio ar Waith' a chael cymorth gan 'Anogwr Dysgu'.

B) Rhieni

Roedd rhieni yn cytuno'n gryf y byddai'r Llwybrau Dysgu yn gwneud newid cadarnhaol i'r opsiynau a oedd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed. Fodd bynnag, gan fod gwybodaeth rhieni am yr opsiynau a oedd ar gael yn dameidiog, nid oeddent yn ymwybodol o'r holl opsiynau a oedd ar gael i bobl ifanc.

C) Cynrychiolwyr Rhwydwaith

Cynrychiolwyr Rhwydwaith oedd yn gwybod fwyaf am y Llwybrau Dysgu 14-19. Roeddent yn ymwybodol eu bod yn cael eu rhoi ar waith a bod angen addasu arferion presennol yn ogystal â chyflwyno mentrau newydd i'w hysgol/coleg.

Cynrychiolwyr Rhwydwaith oedd yn y sefyllfa orau i lywio'r broses o lunio'r ymchwil feintiol drwy nodi sut yr oedd y Llwybrau Dysgu yn cael eu rhoi ar waith a sut y cyfeiriwyd atynt/y bwriadwyd cyfeirio atynt wrth eu rhoi ar waith.

9.5.3 *Manylion Llwybrau Dysgu*

Gofynnwyd i bob ymatebwr roi sylwadau ar wahanol elfennau'r Llwybrau Dysgu 14-19. Unwaith y gofynnwyd am gydnabyddiaeth o bob elfen yn ddigymell, darllenwyd diffiniad byr allan i bob ymatebwr. Yn anffodus, roedd rhai o'r diffiniadau a ddefnyddiwyd yn amwys ac nid oeddent yn cynnwys enghreifftiau ymarferol a oedd yn drysu rhai ymatebwyr (yn enwedig pobl ifanc). Felly, mae'n werth nodi y bydd rhai o'r diffiniadau a roddwyd yn cael effaith ar ganlyniadau'r ymchwil.

A) **Llwybrau Dysgu wedi'u Teilwra'n Unigol**

Termau: Cyfeiriwyd atynt fel 'Llwybrau Dysgu' neu 'Gynllunio Camau Gweithredu Unigol' gan Gynrychiolwyr Rhwydwaith yn unig. Ni ddefnyddiwyd unrhyw derm gan bobl ifanc na rhieni.

Dim ond Cynrychiolwyr Rhwydwaith a oedd yn ymwybodol o'r Llwybrau Dysgu wedi'u Teilwra'n Unigol. Roedd rhieni a phobl ifanc yn hoffi'r gallu i gynllunio 'llwybr unigol' drwy gyflwyno cyrsiau ychwanegol a oedd yn cynnwys y cyfle i ddilyn mwy o gyrsiau galwedigaethol.

"Man a man bod gan y llwybrau [academaidd] hynny waliau o gerrig arnynt oherwydd maent yn gwybod i ba gyfeiriad maent am fynd."

Darparwr Canolbarth Cymru Chweched Dosbarth

"Rwy'n hoffi'r ffaith eich bod yn cael y cyfle i benderfynu ar yr hyn sy'n gweithio orau i chi, ond a fydd yr amserlen yn eich galluogi i ddewis yr hyn rydych wir ei eisiau?"

BI 10, De, BAG

B) **Dewislen Opsiynau**

Termau: Cyfeiriwyd ati fel 'Opsiynau' neu 'Opsiynau Blwyddyn 10' gan bobl ifanc a rhieni. Dim ond un Cynrychiolydd Rhwydwaith a gyfeiriodd at y 'Ddewislen Opsiynau'.

Ystyriwyd bod hwn yn gysyniad sefydledig yn barod, gan ymdebygu'r Ddewislen Opsiynau Llwybrau Dysgu i'r dewisiadau TGAU y mae'n rhaid eu gwneud ym Mlwyddyn 10. Canmolwyd y ffaith bod mwy o bosibiliadau galwedigaethol gan Gynrychiolwyr Rhwydwaith a phobl ifanc er bod rhieni yn pryderu y gallai'r opsiynau fod yn rhy benodol i gyflogwyr lleol. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y Ddewislen Opsiynau yn fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r system bresennol i gynnwys ystod ehangach o gyrsiau.

"Rwyf yn credu ein bod yn cael llawer o gymorth ac arweiniad ac mae amrywiaeth eang o opsiynau ar gael"

BI 11, Canolbarth Cymru, academydd

C) Craidd Dysgu

Termau: Dim term sefydledig. Dywedodd un Cynrychiolydd Rhwydwaith fod y Craidd Dysgu yn debyg i 'Ychwanegiadau'. Roedd llawer o ddryswch o ran y termau 'Craidd Dysgu' a 'Phynciau Craidd' (h.y. pynciau megis mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth a oedd yn draddodiadol yn ffurfio sylfaen yr opsiynau TGAU).

Ni chyflwynwyd y Craidd Dysgu yn yr ysgolion/ colegau a oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil ansoddol. Felly, ar draws y sampl roedd diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth cyffredinol ac nid oedd y ffaith bod y diffiniad a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r cysyniad hwn yn aneglur yn helpu.

Rhagwelodd Cynrychiolwyr Rhwydwaith fanteision i'r plentyn cyfan, nid dim ond o ran cyflawniadau academiaidd (fodd bynnag roedd y farn hon yn seiliedig ar wybodaeth am y Llwybrau Dysgu cyn yr ymchwil hon). Roedd pobl ifanc a rhieni yn fwy amheugar o ran y broses o gyflwyno'r Craidd Dysgu, ac roeddent yn pryderu am nifer y pynciau gofynnol a oedd yn bodoli eisoes.

"Credaf fod y rhan fwyaf o bobl yn meddwl am fathemateg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Chymraeg wrth feddwl am y cwricwlwm craidd ond credaf hefyd fod mwy yn dechrau deall ei fod yn llawer mwy na hynny."

Darparwr Ysgol Canolbarth Cymru

D) Cymorth (gan gynnwys yr Anogwr Dysgu)

Termau: Cyfeiriwyd ato fel 'Anogwr Dysgu' gan Gynrychiolwyr Rhwydwaith a phobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot. Crybwyllwyd termau cyffredinol eraill fel 'Tiworiaid Personol', 'Athrawon/Cynghorwyr Gyrfaoedd' a 'Chynghorwyr Arweiniad'.

Yn yr ymchwil hon canolbwyntiodd y cysyniad o Gymorth, sydd â thair is-elfen yng Nghanolbarth Cymru II Llwybrau Dysgu 14-19, ar gyflwyno Anogwyr Dysgu. O ganlyniad, credwyd bod Cymorth yn rhywbeth a oedd eisoes yn cael ei gynnig mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru.

Gwelwyd rôl Anogwr Dysgu fel ymestyniad o'r cymorth a oedd ar gael yn barod, drwy roi cyngor mwy personol, cymorth parhaus a phennu nodau. Ar y cyfan derbyniwyd y cysyniad o Anogwr Dysgu yn dda, er i'r ffaith bod pobl ifanc a rhieni o'r farn bod y cymorth presennol a gynigiwyd i ddysgwyr yn gymharol wael effeithio ar eu safbwyntiau.

"Mae anogwr dysgu yn ymddangos yn fwy defnyddiol na'r cyngorwyr gyrfaedd. Mae'n pennu nodau i chi felly rydych yn ceisio eu cyflawni. Mae'n swnio'n fwy penodol. Mae'n eich helpu i ddatblygu'r hyn rydych am ei wneud. Gallech ei wneud mewn tîm, fel trafodaeth grŵp. Gyda chynghorydd gyrfaedd, dim ond syniadau un unigolyn a geir"

BI 11, Canolbarth Cymru, academydd

9.6 Nodweddion ychwanegol Llwybrau Dysgu 14-19

Profodd yr ymchwili ansoddol rai o nodweddion ychwanegol Llwybrau Dysgu 14-19 hefyd; Cyflwynwyd y nodweddion hyn yn yr un ffordd â phrif elfennau'r Llwybr, gan ddarllen diffiniadau allan i ymatebwyr yn ystod y grwpiau ffocws/cyfweliadau.

Holwyd pob Ymatebydd (Pobl Ifanc, Rhieni a Chynrychiolwyr Rhwydwaith):

9.6.1 Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Termau: Cyfeiriwyd ato fel 'Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg' gan bobl ifanc a Rhieni. Cyfeiriwyd at ddysgu pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg fel 'ysgol Gymraeg' neu 'Ysgol Gymraeg ddynodedig'.

Cefnogwyd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan Rieni ac fe'i cydnabuwyd fel mantais os oedd rhywun yn gwneud cais i weithio i Gynulliad Cymru / Llywodraeth Leol. Pobl Ifanc oedd y lleiaf brwdfrydig o ran dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg am fod y cyfleoedd i'w defnyddio yn brin ac am eu bod yn pryderu y byddai'n rhaid iddynt ailddysgu pynciau drwy gyfrwng y Saesneg wrth symud i addysg uwch.

9.6.2 Bagloriaeth Cymru

Termau: Yn gyffredinol cyfeiriwyd ato fel 'Bagloriaeth Cymru' yn hytrach na'r Fagloriaeth.

Roedd llawer yn ymwybodol o'r ffaith bod Bagloriaeth Cymru wedi'i chyflwyno er nad oedd dysgwyr iau, pobl ifanc y tu allan i addysg a rhieni yn sicr o'i goblygiadau.

Pan roddwyd manylion am Fagloriaeth Cymru, derbyniwyd y cysyniad yn gadarnhaol iawn, gan oresgyn y pryderon cychwynnol mai dim ond drwy ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg y byddai modd ennill y cymhwyster. Dywedwyd bod y cymhwyster hwn o fudd i'r 'unigolyn cyfan', gan wobrwyo cyflawniadau academaidd a chyflawniadau nad oeddent yn academaidd.

9.6.3 Profiad sy'n Canolbwyntio ar Waith

Termau: Dim term sefydledig. Dywedwyd ei fod yn debyg i 'Brofiad Gwaith' a 'Lleoliadau Gwaith' a gynigir mewn ysgolion a cholegau yn barod. Fe'i disgrifiwyd fel 'Prentisiaethau' gan Rieni.

Roedd profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn dal dychymyg pobl ifanc ac o ddiddordeb iddynt, gan gynnig cyfle gwirioneddol i brofi byd gwaith drwy leoliadau unigol, wedi'u teilwra. Roedd rhieni yn pryderu y byddai profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn golygu ailgyflwyno Cynlluniau Hyfforddi leuenctid a oedd yn amhoblogaidd ymhlith y sampl.

9.6.4 Cyfrannu at y Gymuned

Termau: Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr, ar wahân i ambell i Gynrychiolydd Rhwydwaith, yn ymwybodol o'r term er eu bod yn deall y cysyniad.

Ni nodwyd Cyfrannu at y Gymuned fel rhywbeth a oedd yn cael ei gynnig gan ysgolion/ colegau ar y pryd. Byddai cyflwyno'r gweithgareddau 'allgyrsiol' hyn i fyd addysg yn ei gwneud yn llawer haws cyfrannu a chynnig cyfle i wella CVs pobl ifanc. Fodd bynnag, roedd Cynrychiolwyr Rhwydwaith a Phobl Ifanc yn ymwybodol o'r amser ychwanegol a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau o'r fath y tu hwnt i'r wythnos academiaidd arferol.

Dim ond Cynrychiolwyr Rhwydwaith a holwyd.

9.6.5 Rhwydweithiau 14-19

Termau: Cyfeiriwyd atynt fel 'Rhwydwaith 14-19' neu 'Gonsortia'

Roedd Cynrychiolwyr Rhwydwaith yn ymwybodol o'r term hwn gyda'r rhan fwyaf eisoes yn cyfrannu at eu Rhwydwaith lleol drwy fynd i gyfarfodydd. Dywedwyd bod y Rhwydweithiau 14-19 yn hwyluso'r broses o gyflwyno'r agenda 14-19.

9.6.6 Canllawiau a Chynllun Gweithredu 14-19

Termau: Canllawiau a Chynllun Gweithredu 14-19

Roedd yr holl Gynrychiolwyr Rhwydwaith yn ymwybodol o'r Canllawiau a'r Cynllun Gweithredu. Roedd y rhan fwyaf wedi darllen y ddogfen gyfan tra bod rhai yn dibynnu ar ddogfennau cryno a ddosbarthwyd drwy'r Rhwydweithiau 14-19. Disgrifiwyd Canllawiau a Chynllun Gweithredu 14-19 gan y Cynrychiolwyr Rhwydwaith fel eu llawlyfr i ddefnyddwyr.

9.6.7 Prosbectws o Weithgareddau

Termau: Anymwybodol o'r term.

Nid oedd Cynrychiolwyr Rhwydwaith yn ymwybodol o'r Prosbectws o Weithgareddau ac felly nid oedd ganddynt ddewis derm i'w ddisgrifio. Nid oedd yr un Cynrychiolydd Rhwydwaith a oedd yn rhan o'r ymchwil hon wedi dechrau cyflwyno'r Prosbectws o Weithgareddau yn eu hysgol/coleg.

9.6.8 *Dysgu Ffurfiol*

Termau: Fe'i disgrifiwyd fel y 'Prif gymhwyster'

Roedd yr holl Gynrychiolwyr Rhwydwaith yn ymwybodol o ddysgu ffurfiol ac fe'i disgrifiwyd fel 'y profiad addysg traddodiadol'.

9.6.9 *Dysgu nad yw'n Ffurfiol a Dysgu Anffurfiol*

Termau: Roedd dryswch o ran y termau, felly ni wahaniaethwyd rhwng dysgu nad yw'n ffurfiol a dysgu anffurfiol. Cyfeiriwyd at y ddau fel 'Cyfoethogiadau', 'Ychwanegiad' neu 'Allgyrsiol'.

Ystyriwyd bod y ddau fath o ddysgu yn digwydd y tu allan i gylch gwaith uniongyrchol yr ystafell ddosbarth gyda dysgu nad yw'n ffurfiol yn cynnig achrediad am gymryd rhan. Roedd rhai Cynrychiolwyr Rhwydwaith o'r farn bod elfennau o ddysgu nad yw'n ffurfiol a dysgu anffurfiol yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd gan systemau bugeiliol a/neu diwtorialau.

9.7 *Goblygiadau o ran ymchwil feintiol*

O ganfyddiadau'r ymchwil ansoddol, daeth yn amlwg y byddai angen holiadur wedi'i deilwra ar wahân ar bob grŵp o fewn y sampl. Roedd gan bobl ifanc, rhieni a Chynrychiolwyr Rhwydwaith lefelau gwahanol iawn o ymwybyddiaeth yn ogystal â chyfeirnodau amrywiol i egluro'r syniadau newydd a gynhwyswyd yn y Llwybrau Dysgu 14-19.

Felly, cafodd yr hyn a ddysgwyd o'r ymchwil ansoddol ei drosi'n addasiadau holiadur ymarferol. Disgrifir y goblygiadau isod ar gyfer pob holiadur unigol.

9.7.1 *Pobl Ifanc*

Canfyddiad Ansoddol:

Roedd ymwybyddiaeth sylfaenol pobl ifanc yn isel gan mai ffocws cul oedd ganddynt o ran ymwybyddiaeth 14-19.

Goblygiad o ran Arolwg Meintiol:

- Nid ystyriwyd ei bod yn ddoeth tybio bod pobl ifanc yn ymwybodol o unrhyw dermau o ran Llwybrau Dysgu.
- Roedd angen i'r holiadur gynnwys enghreifftiau ymarferol o bob elfen o Llwybrau Dysgu, gan nodi'n amlwg unrhyw fanylion newydd/unigryw i sicrhau dealltwriaeth.

- Roedd angen i'r holiadur ddefnyddio iaith syml er mwyn helpu pobl ifanc i ddeall y cysyniadau a bod yn ddigon cryno i bennu llinell sylfaen
- Egluro'r angen i gyflwyno Llwybrau Dysgu a sut y gallent fod o fudd i bobl ifanc

9.7.2 Rhieni

Canfyddiad Ansoddol:

Prin oedd ymwybyddiaeth sylfaenol rhieni o ganlyniad i brinder gwybodaeth fanwl am oblygiadau opsiynau 14-19.

Goblygiad o ran Arolwg Meintiol:

- Er bod rhieni yn ymddangos fel eu bod yn ymwybodol o opsiynau 14-19, nid oeddent yn ymwybodol o Llwybrau Dysgu. Felly argymhellwyd peidio â defnyddio unrhyw derm ffurfiol ar gyfer Llwybrau Dysgu.
- Fel yr holiadur i Bobl Ifanc, tybiwyd bod angen cynnwys enghreifftiau ymarferol o bob elfen o'r Llwybrau Dysgu, gan nodi'n amlwg unrhyw fanylion newydd/unigryw i sicrhau dealltwriaeth.
- Ar ddechrau'r holiadur, egluro pam bod Llwybrau Dysgu yn cael eu cyflwyno a sut y byddant yn well ac yn wahanol. Roedd rhieni yn debygol o gyfeirio at fentrau blaenorol fel cyfeirnodau wrth ddeall y Llwybrau Dysgu 14-19 newydd.
- Roedd angen i'r holiadur fod yn ddigon eang i drafod y rhaglen gyda'r rhai nad oeddent yn gwybod unrhyw beth amdani, ond yn ddigon cul i bennu llinell sylfaen.

9.7.3 Cynrychiolwyr Rhwydwaith

Canfyddiad Ansoddol:

Roedd ymwybyddiaeth sylfaenol Cynrychiolwyr Rhwydwaith yn uchel o ystyried y ffaith eu bod yn gyfrifol am roi'r Llwybrau Dysgu ar waith yn eu hysgol/coleg a'u bod yn gyfarwydd â dogfennau polisi'r Adran.

Goblygiad o ran Arolwg Meintiol:

- Ynghyd ag ystyried gwybodaeth am bob elfen o'r Llwybrau Dysgu, ymchwilio i faint o golegau ac ysgolion sydd wedi dechrau rhoi pob elfen ar waith.



- Gallai fod o fudd ystyried materion ychwanegol megis pa mor anodd y byddai i roi elfennau ar waith ac a fyddai angen rhoi cymorth ychwanegol (ar wahân i gymorth ariannol).

Atodiad 2 Sylwadau gan Ddarparwyr

Llwybrau Dysgu Unigol

Materion amserlennu, costau cludiant, lles disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth. (Ysgol, Gogledd Cymru)

Angen arian ar gyfer yr elfennau unigol sy'n golygu newid o gwricwlwm traddodiadol a thrwy hynny ofynion staffio. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Cyllid, nifer yr anogwyr galwedigaethol sydd ar gael, cyfranogiad cyflogwyr. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Fel mudiad ieuenctid cenedlaethol gwirfoddol (Urdd Gobaith Cymru), sy'n cynnig cyfleoedd anffurfiol a chyfleoedd nad ydynt yn ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg, nid oes unrhyw un wedi ein holi am yr opsiynau, sut i gynnwys y wybodaeth yn y prospectws nac ychwaith sut i weithredu'n genedlaethol. Mae'n rhwystredig i ni fel corff gwirfoddol i weithredu drwy 22 o rwydweithiau. (Darparwr Sector Gwirfoddol, Canolbarth Cymru)

I sicrhau'r staff, hyfforddiant ac addysg y proffesiwn, mae angen gwneud mwy i ledaenu'r agenda. Adnoddau: mae'r gost yn ENFAWR, yn enwedig AMSER STAFF. Argyhoeddi rhieni a myfyrwyr: mae angen iddynt werthfawrogi GORLWYTHO DD, yn enwedig asesu Sgiliau Allweddol. (Ysgol, Canolbarth Cymru)

Diffyg darpariaeth a hyblygrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Mae'r syniad yn rhy ddelfrydyddol ac yn anodd ei weithredu mewn amserlen ysgol. Mae mathau eraill o ddarpariaeth alwedigaethol yn rhy ddur. Os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i ganran fawr ymgymryd â darpariaeth o'r fath mae angen iddi gael y diwydiant i gymryd hyfforddiant o ddifrif a denu mwy o bobl ifanc. Hyd yma ni chynlluniwyd y broses ariannu: ni wyddwn o un flwyddyn i'r nesaf faint a ddarperir ac at ba ddiben y gellir ei ddefnyddio. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Y ddarpariaeth anghyfartal a dargedir yn gyffredinol at bobl ifanc 14-16 oed lle na all ysgolion bach gynnig elfen alwedigaethol o hyd yn ystod oriau ysgol arferol. (Sefydliad Addysg Bellach, Gogledd Cymru)

Cynnig astudiaethau unigol a chynorthwyo dysgwyr unigol. Parhau i ariannu llwybrau a chyrsgiau. Cynnal partneriaethau pan fo gofynion yn amrywio dros y blynyddoedd. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Yn dibynnu ar ewyllys da colegau ac ymrwymiad yr ysgolion i gymryd rhan. Hefyd mae trafnidiaeth yn broblem. Ar hyn o bryd mae angen atgyfnerthu'r broses lywio. (Sefydliad Addysg Bellach, Gogledd Cymru)

Arian o'r craidd ar gyfer asiantaethau megis Fairbridge a darparwyr gwirfoddol eraill, a all gynnig opsiynau arbenigol iawn gan weithio o fewn cynlluniau a fframweithiau strategol ond heb gynnig arian craidd. (Darparwr Sector Gwirfoddol, De-ddwyrain Cymru)

Mae'r ddarpariaeth yn ddrud ac yn anodd ei hamserlennu, yn enwedig gan sicrhau nad yw myfyrwyr yn colli gwaith yn yr ysgol drwy fynd ar gyrsiau cyswllt. (Ysgol, Gogledd Cymru)

Nid yw'r canllawiau yn cynnwys manylder ac ni chânt eu hategu'n gadarn. Mae pawb yn ymwybodol o'r nodau ond yn ansicr o ran sut i'w cyflawni. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Mae rhoi llwybrau dysgu ar waith yn llwyddiannus, yn enwedig datblygu llwybrau dysgu unigol, yn gofyn am strwythurau cynllunio strategol cryf ar sail sirol/is-ranbarthol. Ni fydd y ddibyniaeth bresennol (drwy'r Rhwydweithiau 14-19) ar gydweithio gwirfoddol a chynllunio/ariannu blynyddol yn sicrhau y gellir cynllunio ar draws sefydliadau sy'n angenrheidiol i ddatblygu llwybrau dysgu priodol i bob dysgwr â phob lefel o allu. Yr ail fater yw bod angen i ddysgwyr gael cyngor ac arweiniad cynhwysfawr a diduedd sydd, yn 16 oed, yn cynnwys yr holl opsiynau sydd ar gael gan gynnwys llwybrau seiliedig ar waith, ysgol a choleg yn ogystal â llwybrau ar draws sefydliadau os yw'n bosibl. Hefyd, mae angen i rieni gael gwybodaeth glir am y llwybrau sydd ar gael a'r llwybr cynnydd cysylltiedig, er enghraifft prin yw nifer y rhieni ag unrhyw ymwybyddiaeth o lwybrau seiliedig ar waith na'r ffaith y gallant arwain at addysg uwch. Felly mae fy atebion uchod yn gadarnhaol o ran fy Ngholeg fy hun, sy'n ymrwymedig i'r fenter ond ni ellir rhoi llwybrau dysgu ar waith yn llwyddiannus mewn sefydliadau unigol nac o fewn strwythurau cynllunio ac ariannu presennol (Sefydliad Addysg Bellach, Gogledd Cymru)

Prinder arian penodol i ddatblygu opsiynau newydd i'r rhai ag anawsterau dysgu a diffyg opsiynau achrededig ar gyfer lefelau mynediad. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Prinder arian i gyflwyno'r agenda llwybrau dysgu fel y bwriadwyd. Diffyg cyngor a chanllawiau ymarferol gan yr Adran a'r AALI. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Mwy o ddewis a hyblygrwydd

Ar y cyfan mae'r myfyrwyr yn gorfod teithio i gael darpariaeth amgen e.e. coleg lleol ar gyfer MFL. Efallai y dylem fod yn mabwysiadu dull 'mwy gwyrdd' o weithredu a chael staff peripatetig rhwng sefydliadau? (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Ar hyn o bryd gellir rheoli'r sefyllfa am ein bod yn ymdrin â niferoedd cymharol fach. Gallai fod yn anymarferol meddwl am gwricwlwm wedi'i deilwra'n unigol i bob disgybl. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

*Ni chynhwysir y sector gwirfoddol i'r graddau y gellid ei wneud ar hyn o bryd.
(Darparwr Sector Gwirfoddol, De-ddwyrain Cymru)*

Angen cyngor mwy penodol ar fodelau a sut y disgwylir i hyn weithio. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Cyflwyno Diplomâu yn 2010. (Ysgol De-ddwyrain Cymru)

*Bod gwasanaethau gyrfaoedd a chynghor ar yrfaedd mewn ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'r amrywiaeth o gyrsiau a chymwysterau sydd ar gael ôl-16.
(Sefydliad Addysg Bellach, De-orllewin Cymru)*

Sicrhau ansawdd profiadau, dysgu a chanlyniadau i bob dysgwr ar draws sefydliadau a darparwyr. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Unwaith eto mae a wnelo â chydweithio. A yw'r ysgolion yn ymrwymedig i hyn o fewn eu cyfyngiadau eu hunain? Mae'n gwbl ddibynol ar gryfder y rhwydwaith lleol a pha mor ymrwymedig ydyw i'r athroniaeth newid er mwyn bodloni gofynion llwybrau dysgu. (Sefydliad Addysg Bellach, Gogledd Cymru)

Sicrhau bod y broses gydweithio yn llwyddiannus i ddysgwyr, bod safonau yn ddigon uchel ar draws partneriaid, bod dysgwyr yn parhau i fod yn llawn cymhellant ac na cheir effaith niweidiol ar ddisgyblion iau drwy'r effaith ar yr amserlen ac amser ac egni staff. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

Mae'n anodd iawn cydweithio oherwydd y pellter o ysgolion a cholegau eraill. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Er ein bod, fel ysgol, yn gadarnhaol ynghylch cydweithio ac yn fodlon gweithio gyda phartneriaid lleol, mae'n haws cydweithio â cholegau trydyddol lleol am fod ganddynt amserlenni mwy hyblyg. Fel ysgol 11-16, nid ydynt yn peri cymaint o risg ag y byddent i ysgol 11-18. (Ysgol, De-orllewin Cymru)

Craidd Dysgu

Pwysau ar y cwricwlwm - gormod yn digwydd a dim digon yn cael ei gymryd allan. Mae angen codi proffil Bagloriaeth Cymru yng Nghymru a thu allan i Gymru. (Ysgol, De-ddwyrain Cymru)

